Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Adolygiad Ariannol

## 2021

# CYNNWYS


04 NEGES GAN YR IS-GANGHELLOR

06 NEGES GAN GADEIRYDD Y CYNGOR

08 EIN GWELEDIGAETH STRATEGOL A'N PWRPAS

10 GWOBRAU

12 EIN POBL

14 EIN DYSGU AC ADDYSGU

16 PROFIAD EIN MYFYRWYR

18 EIN HYMCHWIL A MENTERGARWCH

21 EHANGU EIN CYRHAEDDIAD RHYNGWLADOL

22 EIN HYSTÂD DDIRIAETHOL

25 EHANGU EIN SEILWAITH DIGIDOL

26 STRATEGAETH ARIANNOL

37 LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

46 DATGANIAD BUDD CYHOEDDUS

50 ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GYNGOR

54 DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR PARTHED Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL

58 DATGANIAD O'R PRIF BOLISIAU CYFRIFYDDU

66 DATGANIADAU ARIANNOL

70 NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL


















## Neges Gan Yr Is-Ganghellor

Wrth fyfyrio am flwyddyn a oedd yn nodweddiadol am ansicrwydd, colled ac aflonyddwch oherwydd effeithiau parhaus Covid-19, mae'n rhaid i mi ddechrau drwy dalu teyrnged i wytnwch rhyfeddol ein staff a'n myfyrwyr dros y 12 mis diwethaf. Mewn blwyddyn mor heriol ar gyfer y sector addysg uwch, rwy'n hynod falch o bob aelod o'n cymuned sydd wedi chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi diogelwch a lles, gan sicrhau parhad diben craidd ein Prifysgol, ein cenhadaeth ddinesig, ein dysgu ac addysgu, ein hymchwil, profiad ein myfyrwyr a'n mentergarwch.

Gan ystyried digwyddiadau'r flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i roi blaenoriaeth i gefnogi ac addasu i anghenion newidiol ein cymuned o fyfyrwyr. Yn ystod 2021, cyflwynwyd ein rhaglen mynediad cynnar ym mis Ionawr lwyddiannus iawn a ddarparodd rwyd ddiogelwch i'r myfyrwyr hynny a oedd yn ansicr am ddechrau eu hastudiaethau yn nhymor yr hydref. Er gwaethaf y newidiadau diwrthdro i amgylcheddau dysgu ledled y byd, rydym wedi parhau i ddarparu addysgu o safon, wedi'i arwain gan ymchwil i'n myfyrwyr, boed ar-lein neu wyneb yn wyneb, addysgu sy'n adlewyrchu ein Dyfarniad Aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF). Rwy'n hynod ddiolchgar o hyd i staff ym mhob rhan o'n Prifysgol am eu hymrwymiad i sicrhau ansawdd academaidd yn wyneb heriau cymhleth newydd, fel y dangosir gan y gwelliant yn ein safleoedd yn y Guardian University Guide 2022 (24ain yn y DU bellach) a'r UK Complete University Guide 2022 (29ain yn y DU bellach).

Gweithredodd ein Prifysgol yn gyflym i gefnogi ein myfyrwyr a sicrhau bod eu profiad o addysg uwch yn parhau'n un cadarnhaol. Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi cynnig cymorth academaidd, lles ac ariannol ychwanegol i liniaru effeithiau'r pandemig, gan gynnwys drwy ein Cronfa Caledi Myfyrwyr estynedig a thrwy weinyddu'r cymorth gwerth £60 miliwn ychwanegol i fyfyrwyr a ddynodwyd i'n sector gan Lywodraeth Cymru. Yn hollbwysig, rydym wedi darparu lleoedd - ar-lein ac ar y campws lle bo modd - i fyfyrwyr ddod ynghyd yn ddiogel, i rannu diddordebau, ac mae llawer o'n clybiau a'n cymdeithasau wedi parhau i gwrdd o bell drwy gydol y flwyddyn. Adlewyrchwyd ein hymdrechion i sicrhau profiad prifysgol cyfannol o'r radd flaenaf yng nghanlyniadau Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2021, lle roedd Prifysgol Abertawe yn y 12fed safle am foddhad cyffredinol myfyrwyr, yn seiliedig ar adborth ein myfyrwyr.

Ar ben gofynion enbyd y pandemig a'r argyfwng hinsawdd, mae digwyddiadau'r flwyddyn ddiwethaf wedi ein gorfodi i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol a systemig. Fel sefydliadau eraill ledled y byd, mae ein Prifysgol wedi myfyrio ar ein gwerthoedd cyffredin a'n cyfrifoldeb i hyrwyddo cynhwysiant, amrywiaeth a chydraddoldeb er lles pawb. Mae ein gwaith i hyrwyddo hawliau dynol wedi magu arwyddocâd newydd, yn anad dim drwy ein Rhaglen Heriau Byd-eang Hillary Rodham Clinton a noddir gan Sky. Yn ystod ein Darlith James Callaghan flynyddol yn 2020, croesawodd y siaradwr gwadd, Ysgrifennydd Clinton, ein carfan ddiweddaraf o Ysgolheigion Heriau Byd-eang gan gyhoeddi y byddai'r rhaglen yn parhau. Gwyddom fod pob myfyriwr heddiw yn ysgogwr newid yfory, ac rydym yn falch o roi hwb i'w weledigaeth am ddyfodol mwy cyfartal a chynaliadwy i bawb.

Mewn blwyddyn pan amlygwyd pwysigrwydd ymchwil arloesol i'n bywydau beunyddiol, mae ein hacademyddion wedi cydbwyso eu hymrwymiad i'n myfyrwyr â'u gwaith hanfodol o fynd i'r afael â heriau ein byd modern. O gefnogi'r ymateb byd-eang i'r pandemig drwy arloesi ym maes darparu brechlynnau a darparu modelu data hollbwysig ar gyfer Covid, i ymdrin â materion newid yn yr hinsawdd a hawliau dynol, gwyddom fod ein hymchwilwyr, ein staff a'n myfyrwyr yn chwarae rôl bwysig wrth ysgogi newid byd-eang cadarnhaol.

Ym Mhrifysgol Abertawe, credwn fod newid o'r fath yn ddibynnol ar gydweithio pwrpasol, ar draws disgyblaethau, sefydliadau a ffiniau cenedlaethol. Felly, roeddem wrth ein boddau pan lansiwyd ein Sefydliad Astudiaethau Uwch Morgan (MASI) yn ffurfiol gan Brif Weinidog Cymru ym mis Chwefror 2021. Fel y Sefydliad Astudiaethau Uwch cyntaf yng Nghymru, bydd MASI yn ysgogi ymchwil drawsnewidiol a rhyngddisgyblaethol ar draws ein Prifysgol a'r tu hwnt. Adlewyrchwyd ein hymrwymiad i feithrin ymchwil ar draws sefydliadau a themâu hefyd yn ein cefnogaeth i Rwydwaith Arloesi Cymru newydd, a fydd yn dod â holl brifysgolion Cymru ynghyd i gryfhau ein cydweithrediadau ymchwil, a chynyddu cydnabyddiaeth am arloesi a chreu gwybodaeth yn ein gwlad. Y tu hwnt i'r DU hefyd, rydym wedi atgyfnerthu ein partneriaethau ymchwil â sefydliadau a mudiadau yn y ddau hemisffer, drwy bartneriaeth gwyddor chwaraeon ac ymarfer corff newydd â Phrifysgol Canberra yn Awstralia a strategaeth pum mlynedd estynedig ar y cyd ag Université Grenoble Alpes yn Ffrainc.

Er y byddwn yn parhau i ddatblygu ein perthnasoedd rhyngwladol i sicrhau cyfleoedd newydd i fyfyrwyr a staff fel ei gilydd, dros y flwyddyn ddiwethaf, nid ydym wedi esgeuluso ein rôl unigryw yn y gymuned leol y cawsom ein sefydlu i'w gwasanaethu. Mae ein partneriaethau ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a busnesau wedi cael eu cryfhau drwy gydweithio i geisio goresgyn heriau'r 18 mis diwethaf. Rydym wedi parhau i rannu ein hallbwn, ein cenhadaeth a'n hethos â'n cymuned leol, drwy gynnal ein Gŵyl Wyddoniaeth gyfan yn rhithwir am y tro cyntaf ym mis Hydref 2020 ac ailagor Oriel Science yn 2021 mewn lleoliad newydd sbon yng nghanol y ddinas. Rydym wedi parhau i ymfalchïo yn ein hymrwymiad i'n cymuned leol a chenedlaethol, ac i hyrwyddo treftadaeth, diwylliant ac iaith unigryw Cymru i'n myfyrwyr rhyngwladol, ein staff a'n partneriaid.

Er bod y byd o'n cwmpas wedi trawsnewid, ym Mhrifysgol Abertawe rydym wedi parhau i fyfyrio'n feirniadol ar ein lle yn ein cymuned, yng Nghymru ac yn y byd. Gyda'n Gweledigaeth Strategol a Phwrpas newydd a gyhoeddwyd yn 2021, rydym wedi ailddatgan ein hymrwymiadau i gynaliadwyedd, i gydraddoldeb ac i'n cymuned, gan barhau i ddarparu addysgu o safon aur sy'n seiliedig ar ein hymchwil o safon fyd-eang. Mae profiad y flwyddyn ddiwethaf, a phopeth a gyflawnwyd gan ein staff a'n myfyrwyr er gwaethaf yr heriau maent wedi'u hwynebu, yn rhoi hyder i ni y bydd ein Prifysgol, drwy gydweithio, yn barod i gyflawni'r nodau uchelgeisiol hyn.



**Yr Athro Paul Boyle, Is-Ghanghellor**
**29 Tachwedd 2021**



# Neges Gan Gadeirydd Y Cyngor

Mae hon wedi bod yn flwyddyn heriol ac anodd arall yng nghysgod y pandemig, felly hoffwn i ddechrau, ar ran y Cyngor, drwy ddiolch i'r Is-Ganghellor, y staff a'r myfyrwyr am eu hymroddiad a'u gwaith caled.

Er gwaethaf yr heriau a achoswyd gan Covid, a'r effaith ar recriwtio myfyrwyr rhyngwladol ac incwm ymchwil o ganlyniad i Brexit, rydym wedi cyflawni cynnydd go iawn fel Prifysgol. Yn 2020 lansiwyd ein Gweledigaeth Strategol a Phwrpas ar gyfer ein hail ganrif, wrth i ni barhau i wneud gwahaniaeth yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol drwy ymchwil, mentergarwch, addysgu, profiad y myfyrwyr ac ymgysylltu dinesig.

Mae academyddion yn Abertawe wedi gwneud gwahaniaeth go iawn yn y frwydr yn erbyn Covid drwy eu hymchwil, ac rwy'n hynod falch o'r ffordd rydym wedi gallu cefnogi ein myfyrwyr yn y cyfnod hwn, gan barhau i ddarparu dysgu ac addysgu o'r radd flaenaf drwy ymagwedd gyfunol, yn ogystal â chanolbwyntio yn agosach byth ar les myfyrwyr. Rydym hefyd wedi gallu cefnogi myfyrwyr sydd wedi bod yn anhwylus, neu sydd wedi gorfod hunanynysu. Adlewyrchwyd y gwaith hwn gan ein sgorau yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr sy'n parhau'n dda (yn wahanol i nifer o sefydliadau eraill) ac rydym yn y 12fed safle o hyd am foddhad myfyrwyr. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd bach - ond un i'w groesawu - yn ein safle yn nhablau QS, cynnydd o 34 lle ers y llynedd i safle 440, o ganlyniad i ymgyrch gyson a llwyddiannus.

Rwyf bob amser yn ymfalchïo yn y berthynas agos rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, a'r cysylltiadau parhaus a chynhyrchiol â swyddogion amser llawn Undeb y Myfyrwyr, gan sicrhau bod lleisiau myfyrwyr yn cael gwrandawiad go iawn yn Abertawe.

Mae ymrwymiad y Brifysgol i gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac i greu cymdeithas decach, yn bwysicach nag erioed mewn cyfnod pan fo'r pandemig wedi amlygu anghydraddoldeb byd-eang. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn neges Heddwch ac Ewyllys Da 2021 Urdd Gobaith Cymru, a oedd yn un o uchafbwyntiau pennaf blwyddyn y Brifysgol. Fel y Brifysgol gyntaf i gymryd rhan yn y traddodiad hwn a grëwyd 99 o flynyddoedd yn ôl, mae'n bleser mawr gennym fod myfyrwyr wedi dewis hyrwyddo cydraddoldeb menywod a merched yn eu neges, a rannwyd â phobl ifanc ledled y byd. Ein myfyrwyr heddiw yw ysgogwyr newid yfory, ac rydym yn falch o feithrin ac ehangu eu neges am ddyfodol mwy cyfartal i bawb. Un enghraifft o hyn yw ein rhaglen ysgoloriaethau Heriau Byd-eang Hillary Rodham Clinton a gefnogir gan Sky, sy'n cefnogi'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr a'u hymrwymiad i oresgyn problemau byd-eang dybryd, gan gynnwys hawliau plant a'u diogelu ar-lein, yr argyfwng hinsawdd a seiberddiogelwch.

Rydym yn wynebu'r heriau parhaus sydd o'n blaenau â hyder a thrwy adeiladu ar y gwaith ardderchog a wnaed drwy ein gweithgarwch addysgu a chymorth i fyfyrwyr, yn ogystal â'n hymchwil o safon fyd-eang, wrth i ni symud i'n hail ganrif mewn sefyllfa gryfach nag erioed.

Yn olaf, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i aelodau a chyn-aelodau o Gyngor y Brifysgol ac i'w bwyllgorau amrywiol am eu hymrwymiad a'u cyfraniad at y Brifysgol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi parhau i gryfhau trefniadau llywodraethu'r Brifysgol yn unol â'r argymhellion yn Adolygiad Camm ac yn ei adolygiad allanol ei hun, gan sicrhau ein bod yn hyrwyddo diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw. Mae'r gwelliannau hyn yn nhrefniadau llywodraethu'r Brifysgol i'w gweld yn y ffordd mae'r Brifysgol wedi gallu ymateb i'r heriau mae hi ac eraill yn y sector wedi eu hwynebu, ac o ganlyniad, mae hi mewn sefyllfa gref i fynd i'r afael yn llwyddiannus â'r heriau niferus sydd, yn ddiamau, o'n blaenau o hyd. Gyda'n gilydd rwyf yn hyderus y byddwn yn llwyddo - ac yn llwyddo'n dda - diolch i ymroddiad, brwdfrydedd a chymeriad ein holl randdeiliaid sy'n gweithredu bob amser er budd gorau ein Prifysgol.



**Mr Bleddyn Phillips, Cadeirydd y Cyngor**
**29 Tachwedd 2021**

# Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas

Yn dilyn gweithgareddau ymgynghori helaeth â'n cymuned, ein cyn-fyfyrwyr, ein partneriaid rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill, gwnaethom gyhoeddi Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas ar gyfer y Brifysgol ym mis Tachwedd 2020. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y Brifysgol, ein gwerthoedd a'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni ar gyfer ein myfyrwyr a'n staff, i Abertawe a Chymru, a'n byd. Mae'r ddogfen yn canolbwyntio ar bum piler strategol (Cenhadaeth Ddinesig, Profiad Myfyrwyr, Dysgu ac Addysgu, Ymchwil a Mentergarwch) ac yn sail iddi ceir amrywiaeth o themâu galluogi trawsbynciol, gan gynnwys cynaliadwyedd ariannol ac amgylcheddol, rhyngwladoli, arweinyddiaeth a llywodraethu, ein hystâd ddigidol a diriaethol, cyfathrebu a recriwtio.

Mae'r ddogfen yn disgrifio ein gweledigaeth fel Prifysgol "egwyddorol, bwrpasol a gwydn sy'n cydbwyso addysgu rhagorol ag ymchwil ac arloesi sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang, mewn amgylchedd agored sy'n galluogi ein myfyrwyr a'n cydweithwyr i ragori. Mae cydweithredwyr ledled y byd yn ein gwerthfawrogi fel partner y gallant ymddiried ynddo, ond rydym hefyd yn hollol ymrwymedig i'n rhanbarth ac yn falch o fod yn Brifysgol ar gyfer Cymru." Mae pob un o'r pum piler strategol yn cynnwys sawl blaenoriaeth ac uchelgais, ond ein hymrwymiadau cyffredinol yw:

- Argyfwng yr hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf sy'n wynebu ein cymdeithas o hyd. Byddwn yn alinio ein gwaith â'r nodau Datblygu Cynaliadwy a byddwn yn brifysgol ddi-garbon erbyn 2040.
- Byddwn yn ehangu ac yn dyfnhau mynediad at addysg ymhellach, gan hyrwyddo cyfleoedd dysgu gydol oes, cynhwysol a theg.
- Byddwn yn sicrhau ymagweddau arloesol at addysgu, wedi'u hategu gan dechnoleg ddigidol. Caiff y rhain eu datblygu mewn partneriaeth â'n myfyrwyr a byddant yn helpu i wreiddio syniadaeth ryngddisgyblaethol ar draws ein rhaglenni.
- Byddwn yn ehangu ein cyrhaeddiad a'n henw byd-eang nes ein bod yn bartner o ddewis ar gyfer cydweithrediadau rhyngwladol ym meysydd ymchwil, addysgu a mentergarwch, a gwella ein statws yn y tablau rhyngwladol o'r prifysgolion gorau, flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i wneud Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn brifddinas chwaraeon a lles Cymru
- Byddwn yn cryfhau ein statws ymysg sefydliadau mwyaf blaenllaw'r DU am bwyslais ar effaith ac ymchwil, un sy'n rhagori mewn ymchwil ryngddisgyblaethol a chydweithredol, a byddwn yn sefydlu'r Sefydliad Astudiaethau Uwch cyntaf yng Nghymru.
- Byddwn yn cau'r bwlch rhwng cyflogau'r rhywiau ac yn mynd i'r afael â'r rhesymau strwythurol a gweithrediadol sy'n sail iddo, a'r gyfran isel o athrawon benywaidd.
- Byddwn yn datblygu ymagwedd a roddir ar waith yn y sefydliad cyfan at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol.

### SAFLEOEDD A GWOBRAU

Mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus i'n Prifysgol o ran ein perfformiad mewn tablau cynghrair cenedlaethol a rhyngwladol.

Gwnaethom lwyddo i gyrraedd ein safle gorau erioed mewn unrhyw dabl cynghrair yn y DU ar ôl codi o'r 31ain safle i'r 24ain safle yng Nghanllaw Prifysgol The Guardian 2021 (cyhoeddwyd ym mis Awst 2020) a chadw'r safle hwn yng Nghanllaw 2022. Yn ôl The Guardian, ni yw'r Brifysgol orau yng Nghymru.

Gwnaethom lwyddo i gyrraedd ein safle gorau erioed yn Nhablau Cynghrair The Complete University Guide 2022, gan sicrhau lle yn y 30 uchaf (29ain safle) yn y prif dabl am y tro cyntaf. Hefyd, nododd y Canllaw mai ein Hysgol Feddygaeth yw'r un orau yn y DU.

Mae rhifyn eleni o QS World University Rankings (sy'n enwi'r 1,300 o'r prifysgolion gorau yn y byd) yn rhoi Abertawe yn safle 440, sydd 34 o leoedd yn well na'r llynedd (y gwelliant gorau yng Nghymru). Mae Tablau QS hefyd yn rhoi Abertawe yn safle 239 a 271 yn y byd am ei chymarebau darlithwyr rhyngwladol a myfyrwyr rhyngwladol, yn y drefn honno, gan ddangos sut mae ein henw da yn lledaenu i bedwar ban byd a'n hymrwymiad i fod yn sefydliad gwirioneddol ryngwladol.

Er gwaethaf effaith COVID-19 ar Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol eleni, a ddangosodd y lefelau boddhad isaf a gofnodwyd erioed gan yr Arolwg ledled y DU, perfformiodd Abertawe yn rhyfeddol o dda. Ar y cyfan, cawsom ein gosod yn y 12fed safle am foddhad myfyrwyr (yr ail yng Nghymru), gydag 82 y cant o'n myfyrwyr yn dweud eu bod yn fodlon ar eu cwrs. Gwnaethom wella ein safle ar gyfer Addysgu 23 o leoedd i'r 21ain safle, a'n safle ar gyfer Llais y Myfyriwr 10 lle i'r 18fed safle. O ran pynciau, nodir mai Abertawe yw'r gorau yng Nghymru mewn 33 o feysydd pwnc, ac mae yn y 10 uchaf ar gyfer boddhad cyffredinol mewn 26 o'r 59 o bynciau mae'n codi ynddynt ledled y DU.

Mae anrhydeddau a gwobrau nodedig a enillwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Gwobr arian yng Ngwobrau Dewis Myfyrwyr WhatUni 2021 i gydnabod ein rhagoriaeth ym maes amrywiaeth a chynhwysiant.
- Gwobr Baner Werdd am safonau amgylcheddol uchel ein hystâd a'n hymrwymiad i ddarparu mannau gwyrdd o safon ar y ddau gampws.
- Gwobr aur am y "Defnydd gorau o gynnwys, cymdeithasol neu ddigidol", a gyflwynwyd gan HEIST i'n Hadran Farchnata, a gwobr arian ar gyfer Tîm Marchnata'r Flwyddyn.

### DATHLU EIN CANMLWYDDIANT

Dylai 2020 fod wedi bod yn flwyddyn llawn dathliadau i nodi Canmlwyddiant y Brifysgol. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r pandemig byd-eang, bu'n rhaid i ni ailystyried sut roeddem am gydnabod y garreg filltir bwysig hon, a sut roeddem am gydnabod y bobl, y llwyddiannau, y datblygiadau arloesol a'r effeithiau sydd wedi diffinio ein Prifysgol ers i ni agor ein drysau gan mlynedd yn ôl.

Gan na allwn ddod ynghyd i ddathlu ein cyflawniadau yn ôl y bwriad, gwnaethom y penderfyniad anodd i ohirio pob digwyddiad wyneb yn wyneb i ddathlu'r canmlwyddiant yn 2020. Yn hytrach, ynghyd â'r rhoddion a gawsom gan ein cefnogwyr hael, defnyddiwyd yr arian a glustnodwyd yn flaenorol gennym ar gyfer dathlu'r canmlwyddiant i ymladd COVID-19 a chefnogi ein myfyrwyr.

Llwyddwyd i gynnal sawl digwyddiad ar-lein i ddifyrru cymuned y Brifysgol a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y cyfyngiadau symud, ac roeddem wrth ein bodd o dderbyn negeseuon yn ein llongyfarch ac yn rhannu ewyllys da o bob rhan o'r byd, gan gynnwys oddi wrth Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru, a chyn-Ysgrifennydd Gwladol yr Unol Daleithiau, Hillary Rodham Clinton.

Gwnaethom hefyd wahodd myfyrwyr, staff a chyn-fyfyrwyr i rannu eu hatgofion am Abertawe ac rydym wedi gallu cadw rhai o'r rhain ar gyfer y dyfodol gyda phlaciau glas tywyll arbennig sy'n helpu i drawsnewid y ddau gampws yn safleoedd hanes byw. Mae'r placiau yn dathlu ac yn anrhydeddu pob agwedd ar fywyd yn y brifysgol – o gyflawniadau myfyrwyr a digwyddiadau cymdeithasol i gerrig milltir ymchwil a buddugoliaethau ym myd chwaraeon.

## PROFIAD Y MYFYRWYR

TEF Gold Teaching Excellence Framework

FFRAMWAITH **RHAGORIAETH & DEILLIANNAU MYFYRWYR**

Y dyfarniad uchaf am Ragoriaeth Addysgu ym mhrifysgolion y DU

**12**FED YN Y DU **AM FODDHAD MYFYRWYR**

NSS National Student Survey

Yn seiliedig ar restr o 131 o sefydliadau sy'n ymddangos yn y Times Good University Guide 2021

**19**EG YN Y DU **BODDHAD MYFYRWYR**

The Times Good University Guide 2021

**82.6%**

O RADDEDIGION **MEWN CYFLOGAETH BROFFESIYNOL NEU ASTUDIAETH BELLACH**

The Times Good University Guide 2021

**GRADDEDIGION YN ENNILL**

**1af/2:1 – 83.2%**

2020/21

## YMCHWIL A MENTER

**26**AIN REF2014 Research Excellence Framework YN Y DU

Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014-2021

**£62.1m**

**INCWM YMCHWIL**

Datganiadau Ariannol 2020/21

**924**

**O FYFYRWYR YMCHWIL ÔL-RADDEDIG**

## CENHADAETH DDINESIG

**11.6%**

O FYFYRWYR O **GEFNDIROEDD DIFREINTIEDIG (EHANGU MYNEDIAD)**

Mesurau Cenedlaethol CCAUC 2019/20

## RECRIWTIO

**20,132**

O GEISIADAU

**17,703**

O FYFYRWYR ISRADDEDIG

**4,944**

O FYFYRWYR ÔL-RADDEDIG

## ENW DA

**24**AIN The Guardian YN Y DU

The Guardian University Guide 2021

**36**AIN **THE TIMES GOOD UNIVERSITY GUIDE** YN Y DU

The Times Good University Guide 2021

**29**AIN Complete University Guide YN Y DU

The Times Good University Guide 2022

## ARIANNOL

**8%**

GWARGED FEL **% O INCWM**

**13%**

MEWNLIF ARIAN PAROD GWEITHREDOL FEL **% O INCWM**

**50%**

COSTAU STAFF FEL **% O INCWM**

**£66m**

EBITDA

Enillion cyn llog trethi ac amorteiddio

## RHYNGWLADOL

**12.9%**

**MYFYRWYR RHYNGWLADOL** O'R HOLL FYFYRWYR

## POBL A GWERTHOEDD

**47**AIN Stonewall TOP 100 EMPLOYER 2020

Athena Swan Silver Award GENDER CHARTER

Race Equality Charter Working Towards RACE CHARTER

**STAFF**

GWRYWOD **46%**

BENYWOD **53.8%**

HESA 20/21



# Ein pobl

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran ailstrwythuro ein Prifysgol drwy Raglen Trawsnewid y Brifysgol, sy'n ceisio sicrhau ein bod yn sefydliad mwy effeithiol, effeithlon a gwydn. Rydym wedi uno ein saith Coleg ac Ysgol i greu tair Cyfadran newydd: y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd, Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol a'r Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg, ac rydym wedi penodi timau arweinyddiaeth i bob un o dan dri Deon Gweithredol a Dirprwy Is-Ganghellor.

Mae dogfen Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas yn amlinellu cyfres o flaenoriaethau o ran "Pobl, Gwerthoedd, Diwylliant ac Ymddygiad" rydym yn ymrwymedig i wneud cynnydd yn eu herbyn:

**Hybu agwedd at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n arwain y sector, cau'r bwlch rhwng cyflogau'r rhywiau a chynyddu'r gyfran o'n hathrawon sy'n fenywod.**

Rydym ymhlith 20 yn unig o brifysgolion yn y DU, a ni yw'r unig Brifysgol yng Nghymru, sydd â Gwobr Sefydliadol Arian Athena Swan i gydnabod ein hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau o ran cynrychiolaeth, cynnydd a llwyddiant i bawb. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, enillodd Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton a Choleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau eu Gwobrau Efydd cyntaf, sy'n golygu bod gan ein holl adrannau academaidd cymwys wobr Athena Swan, gyda phedair gwobr Arian a saith gwobr Efydd ar draws ein Prifysgol.

Mae 56% o'n cydweithwyr gradd 9, a 46% o'n cydweithwyr gradd 10 yn fenywod ac rydym wedi mwy na threblu cynrychiolaeth menywod ar radd 10a a lefel cyfarwyddwyr ers 2016 (gan gyfrannu at 59% o gynrychiolaeth fenywaidd yn y grŵp hwn yn 2021). Er bod mwy o gynnydd i'w wneud o hyd, mae nifer yr athrawon sy'n fenywod yn ein Prifysgol wedi mwy na dyblu ers 2014, gan arwain at gynnydd o 11% yng nghynrychiolaeth menywod yn y gymuned broffesiynol, o 13% i 24%. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn lleihau hefyd - y bwlch cyflog cyfartalog cymedrig yw 18.4% (20.8% yn 2018/19) a'n cyfartaledd canolrifol yw 11.1% (13.7% yn 2018/19)

Mae 55% o aelodau ein Cyngor yn fenywod (o gymharu â 25% yn 2013) ac am y tro cyntaf eleni gwnaethom lwyddo i sicrhau cynrychiolaeth o aelodau BAME ar y Cyngor sy'n gymaradwy â chanran y cydweithwyr BAME yn y Brifysgol. Rydym yn parhau i gael ein cynnwys yn rhestr Stonewall o'r 100 o gyflogwyr gorau (safle 47 yn 2020). Mae nifer ein cydweithwyr sydd wedi cofnodi eu hunaniaeth fel LHD+ wedi parhau i gynyddu, o 3.7% i 4.2%, sy'n parhau i fod yn uwch na meincnod y Sector Addysg Uwch yn y DU, sef 2.6%. Mae canran y cydweithwyr sy'n nodi bod eu rhyw yn wahanol i'r hyn a gofrestrwyd pan gawsant eu geni yn 0.2%, sy'n unol â meincnod y DU.

**Gweithio gyda'n cymuned i ddod o hyd i ragor o ffyrdd o wobrwyo a chydnabod cydweithwyr, ac annog eu datblygiad personol a gyrfaol.**

Mae ein Prifysgol yn ymrwymedig i sicrhau cyflog teg ac mae'n ymrwymedig i gydnabod bod pob cydweithiwr yn cyfrannu at ein llwyddiant. Gwnaethom benderfynu'n wirfoddol rhoi'r cynnydd i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar waith yn 2020/21 er mwyn sicrhau bod cyflog ein holl gydweithwyr, yn enwedig y rhai sydd ar y cyflogau isaf, yn bodloni costau byw gwirioneddol ac nid dim ond lleiafswm cyfreithiol y llywodraeth.

Mae ein holl gydweithwyr, yn y Gwasanaethau Proffesiynol ac Academaidd, yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn sgwrs ystyrlon am eu perfformiad o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Eleni, er bod y rhan fwyaf yn gweithio o bell, cymerodd mwy na 99% o'n cydweithwyr ran yn eu hadolygiadau perfformiad.

Roedd yn bleser gennym gefnogi dyrchafiad 67 o gydweithwyr eleni, gan gynrychioli cynnydd o 40% yn nifer y ceisiadau llwyddiannus o gymharu â'r llynedd. Mae 45% o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn fenywod, sef cynnydd o 25% o gymharu â'r llynedd, ac mae 13% o gefndiroedd BAME (yr un peth â'r llynedd).

**Rhoi strategaeth iechyd a lles ar waith i sicrhau ein bod yn galluogi ein cydweithwyr i ffynnu.**

Cafodd ein Strategaeth Iechyd a Lles ei chymeradwyo gan y Cyngor yn 2020 ac mae wrthi'n cael ei rhoi ar waith, wedi'i chefnogi gan £310,000 o gyllid craidd gan CCAUC ar gyfer 2021/22.

Rydym wedi cydnabod a gwobrwyo gwaith caled ac ymroddiad ein holl gydweithwyr yn ystod y pandemig drwy roi gwyliau ychwanegol, cyflwyno menter dydd Gwener tawelach, a chefnogi arferion gwaith ystwyth gyda'r nod o helpu cydweithwyr i gydbwyso blaenoriaethau proffesiynol a phersonol sy'n gwrthdaro a chefnogi eu hiechyd meddwl. Rydym hefyd wedi gwella ein gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol a Lles, drwy ddarparu mynediad at Gynghorwyr Iechyd Meddwl, asesiadau iechyd COVID-19 a gwasanaethau cwnsela i'r staff.

**Gwrthwynebu achosion o wahaniaethu, a mynd i'r afael â'r hyn sy'n eu hachosi, gan sicrhau y caiff lleisiau grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol eu clywed.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dathlu amrywiaeth o ddigwyddiadau amrywiaeth yn rhithwir, gan sicrhau bod cydweithwyr yn cadw mewn cysylltiad wrth i ni weithio o bell. Denodd ein digwyddiadau ar-lein fwy o gyfranogwyr na blynyddoedd blaenorol a'n helpu i gyrraedd cynulleidfa ehangach. Ymhlith y digwyddiadau a nodwyd roedd Diwrnod Cofio'r Holocost, Mis Hanes LHDT+, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Mis Hanes Pobl Dduon (yn cwmpasu amrywiaeth o siaradwyr gan gynnwys y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys), Diwrnod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl ag Anableddau, ynghyd ag amrywiaeth o weithgareddau rhyng-ffydd.

Mae gan ein Prifysgol rwydwaith gweithgar iawn ar gyfer aelodau o staff sy'n ofalwyr a ni oedd y Sefydliad Addysg Uwch cyntaf yng Nghymru i fod yn aelod o sefydliad Cyflogwyr i Ofalwyr, sy'n cynnig mynediad at amrywiaeth o adnoddau sy'n ein helpu i gefnogi ein staff sy'n ceisio ymdopi â gwaith a gofalu.

Rydym yn rhan o raglen wella gydweithredol Hil: Mynediad a Llwyddiant a ariennir gan CCAUC i ddatblygu cydraddoldeb hiliol mewn Addysg Uwch, gan feithrin dealltwriaeth fwy cyflawn o'n dull sefydliadol o ymdrin â chydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth a datblygu cynlluniau gweithredu a gaiff eu llywio gan dystiolaeth er mwyn hybu hyn.

Rydym wedi ymrwymo i Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr a chawsom Farc Ymddiriedaeth Siarter Troseddau Casineb gan Cymorth i Ddioddefwyr.

Cwblhawyd yr archwiliad diweddaraf o'n prosesau recriwtio rhyngwladol gan Dîm Sicrwydd Addysg Uwch y Swyddfa Gartref heb unrhyw argymhellion na sylwadau, sy'n golygu y gallwn barhau i recriwtio a chyflogi cydweithwyr rhyngwladol o'r radd flaenaf yn hyderus. Hefyd, nododd tîm y Swyddfa Gartref fod ein rhaglen bwrpasol i reoli gwybodaeth mewn amser real yn enghraifft o arfer orau i'w rhannu â sefydliadau eraill.




## Ein Dysgu ac Addysgu

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Brifysgol wedi ymateb yn hyblyg i alwadau pandemig COVID-19. Roedd ein dull dysgu ac addysgu cyfunol yn cwmpasu cymysgedd o addysgu byw, ar-lein, deunyddiau a recordiwyd ymlaen llaw ac amrywiaeth o weithgareddau ar y campws.

Roedd ein llwyddiant wrth gynnal parhad y dysgu a'r addysgu a phrofiad y myfyrwyr ymhlith y pum canmoliaeth a wnaed gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn ei hadroddiad ar yr Adolygiad Gwella Ansawdd, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021. Tynnodd yr Asiantaeth sylw at y canlynol:

- ein ffocws strategol ar gyfathrebu a thrafod gyda'r myfyrwyr sy'n creu teimlad cryf o gymuned.
- ein ffocws cryf ar y bartneriaeth â'r myfyrwyr sydd wedi ei hymwreiddio ar bob lefel yn y sefydliad.
- ystwythder ein hymateb i bandemig COVID-19 er mwyn sicrhau parhad y dysgu a'r addysgu a phrofiad y myfyrwyr.
- ein defnydd rhagweithiol o brosesau a gweithdrefnau datblygedig i sicrhau rheolaeth strategol a datblygiad gweithrediadol effeithiol o'n portffolio academaidd, ynghyd ag adolygiad effeithiol ohono.
- y camau gweithredu a gymerwyd gennym mewn ymateb i bandemig COVID-19 i sicrhau bod y prosesau sicrhau ansawdd a materion rheoliadol yn parhau'n gadarn.

Bydd ein dull o ymdrin â dysgu ac addysgu yn ystod y sesiwn academaidd sydd ar ddod yn cynnwys mwy o weithgarwch ar y campws, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu grwpiau llai, gwaith mewn labordai a sesiynau ymarferol. Ar y cyfan, bydd darlithoedd i grwpiau mwy yn parhau i gael eu cyflwyno ar-lein, gan ystyried gofynion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â grwpiau a meintiau dosbarthiadau.

Rydym hefyd yn cydnabod, o ganlyniad i'r cyfyngiadau presennol ar deithio rhyngwladol, y gallai fod yn anodd i rai myfyrwyr tramor gyrraedd Abertawe ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd newydd. Mae'r newid diweddar i reoliadau Fisâu a Mewnfudo y DU yn golygu os na all myfyrwyr rhyngwladol deithio i'r DU erbyn dechrau'r tymor, gallant gofrestru a dilyn eu rhaglen ar-lein i ddechrau (yn dibynnu ar ofynion y rhaglen) ar yr amod eu bod yn cyrraedd cyn gynted â phosibl ac erbyn 6 Ebrill 2022 fan bellaf.

Gwelodd ein Canolfan Llwyddiant Academaidd gynnydd o 104% mewn apwyntiadau o 2019/20, a chefnogwyd 1,787 o ryngweithiadau â myfyrwyr. Hefyd, gwelsom gynnydd o 196% mewn presenoldeb ym modiwlau a gweithdai'r Ganolfan Llwyddiant Academaidd a chynnydd o 221% mewn presenoldeb yn ystod Wythnos Sgiliau'r Ganolfan, lle cymerodd 4,000 o fyfyrwyr ran mewn gweithdai. Mae diddordeb mewn cyflwyno sgiliau mewn pynciau wedi cynyddu hefyd, ac mae'r Ganolfan wedi cynnal mwy na 75 o sesiynau eleni. Rhagwelwn y byddwn yn gallu ehangu'r fenter hon er mwyn ymgorffori sgiliau mewn rhaglenni astudio newydd (e.e. Mathemateg, Llenyddiaeth Saesneg, Osteopatheg).

Rydym wedi cael adborth hynod gadarnhaol ar ein Gwasanaethau Hyfforddiant Iaith Saesneg (ELTS) eleni, er ein bod wedi symud i ddarpariaeth ar-lein yn bennaf. Cydnabuwyd bod ein rhaglen CELTA ar-lein o safon aur.

Mae Prawf Iaith Saesneg Abertawe (SWELT) yn parhau i fod yn adnodd recriwtio pwysig ac mae'n mynd o nerth i nerth gyda 478 o gofrestriadau dros yr haf.

### MAE UCHAFBWYNTIAU DIWEDDAR ERAILL YN CYNNWYS Y CANLYNOL:

- Cofnododd myfyrwyr ar ein cwrs Cydymaith Meddygol gyfradd lwyddo o 100% yn yr Arholiadau Cydymaith Meddygol Cenedlaethol ym mis Medi am y drydedd flwyddyn yn olynol.
- Mae'r Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol wedi cefnogi ein MSc mewn Deinameg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd a'n MSc mewn Gwybodaeth Ddaearyddol a Newid yn yr Hinsawdd.
- Mae ein MSc mewn Seiberddiogelwch wedi cael ardystiad swyddogol gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol sef corff arbenigol arweiniol y DU yn y maes ac sy'n rhan o Bencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y DU. Y rhaglen hon yw'r gyntaf yng Nghymru, ac yn un o ychydig yn unig ledled y DU, sydd wedi cael achrediad cyflawn gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.
- Mae ein Prifysgol wedi gwneud cais llwyddiannus i'r Adran Addysg i recriwtio 250 o fyfyrwyr peirianneg ychwanegol fel rhan o ymgyrch gan y Llywodraeth i ddarparu dros 9,000 o leoedd ychwanegol mewn prifysgolion yn y DU ar gyfer cyrsiau a fydd yn darparu gwasanaethau hanfodol, yn cefnogi'r economi ac yn creu canlyniadau cadarnhaol i fyfyrwyr.
- Mae'r Coleg Cymraeg wedi penodi pum llysgennad newydd o Brifysgol Abertawe ar gyfer 2021 er mwyn annog mwy o ddarpar fyfyrwyr i ymddiddori mewn addysg uwch cyfrwng Cymraeg.
- Bydd ein Hysgol Feddygaeth yn croesawu ei charfan gyntaf o fyfyrwyr ar ei rhaglen MPharm bedair blynedd ym mis Medi. Bydd hefyd yn lansio cwrs fferylliaeth gyda blwyddyn sylfaen.
- Mae'r Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd hefyd wedi ennill contractau newydd pwysig gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru, gan gydnabod y safon uchel o addysg a ddarperir gan ein cyrsiau ar gyfer nyrsio oedolion, iechyd meddwl, a phlant; astudiaethau cydymaith meddygol; bydwreigiaeth; portffolio'r gwyddorau gofal iechyd; a gwyddor barafeddygol.
- Rydym yn adeiladu ar ein cydweithrediad llwyddiannus gyda Phrifysgol Trent yng Nghanada i lansio cyfle ychwanegol ar gyfer astudio trawsiwerydd. Bydd llwybr gradd ddeuol i raglenni israddedig yn yr Ysgol Feddygaeth bellach yn cyd-fynd â rhaglenni sefydledig yn y Gyfraith ac mewn Peirianneg Gemegol.
- Mae ein Prifysgol wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dwy Academi Dysgu Dwys i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Caiff yr Academi Iechyd a Gofal sy'n Seiliedig ar Werth ac Academi Dysgu Dwys Cymru Gyfan ar gyfer Arloesi mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol eu harwain gan yr Ysgol Reolaeth.



## Profiad ein Myfyrwyr – cefnogi myfyrwyr drwy'r pandemig

Mae ein myfyrwyr yn ganolog i bopeth a wnawn. Eleni, gan gydnabod y pryderon cynyddol a achoswyd gan y pandemig, mae ein ffocws cyffredinol wedi bod ar gefnogi lles a llesiant myfyrwyr.

Gwyddom y byddai myfyrwyr a oedd yn hunanynysu neu dan gwarantin yn wynebu heriau wrth ymdopi â'u hiechyd meddwl a chael bwyd yn ystod eu cyfnod ynysu, ac roeddem yn ymrwymedig i sicrhau nad oedd unrhyw fyfyriwr yn teimlo fel pe bai ar ei ben ei hun neu'n ddigefnogaeth. O ganlyniad, gwnaethom ddatblygu dull cymorth system gyfan (MyUniSupport) i fyfyrwyr yr oedd angen iddynt hunanynysu, p'un a oeddent yn byw ar y campws neu yn y sector preifat.

Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, gwnaeth MyUniSupport helpu myfyrwyr a oedd naill ai wedi cael canlyniad prawf Covid positif, yn hunanynysu neu dan gwarantin. Ymdriniodd y tîm â 995 o achosion COVID-19 a gadarnhawyd a 1,715 o fyfyrwyr a oedd yn hunanynysu mewn llety ar y campws, a darparodd oddeutu 900 o becynnau bwyd a gwasanaethau golchi dillad am ddim, ynghyd â chyngor awdurdodedig ar COVID-19 a chanllawiau ar brofion. Gwnaethom lwyddo i estyn y gwasanaeth hwn i fyfyrwyr nad oeddent yn byw ar y campws gyda chymorth ein rhaglen wirfoddoli a arweinir gan fyfyrwyr, Discovery.

Mae MyUniSupport yn parhau i ddarparu cymorth rheoli achosion penodol i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n cyrraedd o wledydd sydd ar y rhestr goch neu'r rhestr oren, olrhain cyfranogiad myfyrwyr naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein, a chyflwyno'r adroddiadau angenrheidiol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Llywodraeth Cymru.

Mae mwy i brifysgol nag ennill gradd yn unig. Mae'n ymwneud â hunanddarganfod, cyfeillgarwch a chyfleoedd allgyrsiol, ac roeddem yn ymrwymedig i ddarparu'r profiad gorau posibl i fyfyrwyr o dan yr amgylchiadau. Er enghraifft, gwnaethom addasu rhaglen arferol yr Wythnos Gyrraedd yn unol â'r cyfyngiadau lleol ond roeddem yn gallu creu cyfleoedd i fyfyrwyr gymdeithasu yn ddiogel o hyd. Gwnaethom ddarparu £200,000 ychwanegol i ariannu mentrau lles a buddsoddwyd £280,000 mewn lleoliadau awyr agored, gan gydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth, er mwyn cynnig gweithgareddau llesiant yn ystod y dydd a phrydau bwyd gyda'r nos.

Cofnododd ein tîm Rhyngwladol@BywydCampws 40,199 o gysylltiadau â myfyrwyr, cynnydd o 42.25% o gymharu â 2019/20. Gwnaeth y tîm hefyd ddarparu 93 o gyfleoedd i fyfyrwyr ymgysylltu'n gymdeithasol a sefydlu grŵp 'Swansea Students' Community Homespace' ar Facebook, gan estyn gwahoddiad i bob myfyriwr rhyngwladol sydd yn y DU ar hyn o bryd.

Gwnaeth ein tîm Llesiant@BywydCampws gynllunio, trefnu a hwyluso 90 o ddigwyddiadau i fyfyrwyr, a chefnogi 50 o Fyfyrwyr sy'n Ofalwyr gyda sesiynau 1:1 rheolaidd.

Gwnaeth ein tîm Arian@BywydCampws weinyddu miloedd o geisiadau am gymorth ariannol untro, gan gynnwys dosbarthu £6.3m mewn dyfarniadau i 9,572 o fyfyrwyr drwy'r gronfa Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr a ariannwyd gan CCAUC er mwyn cefnogi myfyrwyr a oedd yn wynebu anawsterau ariannol o ganlyniad i Covid. Hefyd, darparodd y tîm gyfanswm o £0.7m mewn dyfarniadau disgresiynol i 1,113 o fyfyrwyr drwy gronfeydd caledi eraill.

Gwnaethom lansio'r Ysgoloriaeth Noddfa ar gyfer myfyrwyr ar gyrsiau Meistr Ôl-raddedig a Addysgir sydd ar gael i bobl sy'n ceisio lloches yn y DU. Mae'r ysgoloriaeth hon yn cynnig cymorth llawn gyda ffioedd dysgu a thaliadau cynhaliaeth mewn nwyddau i helpu gyda chostau cwrs a chostau teithio lleol.

Arweiniodd ein tîm Gwasanaethau Preswyl adolygiad cynhwysfawr o weithgareddau gweithredol er mwyn sicrhau diogelwch myfyrwyr a staff mewn ymateb i'r pandemig, gan gynnwys datblygu fideos Iechyd a Diogelwch ar-lein fel rhan o sesiynau sefydlu myfyrwyr, Asesiadau Risg diwygiedig a Gweithdrefnau Gweithredu'n Ddiogel. Gwnaeth y tîm sicrhau bod contractau llety yn cael eu darparu ar gyfer y rhaglen mynediad ym mis Ionawr a goruchwylio'r gwaith o reoli dyraniadau i lety cwarantin yn effeithiol.

Yn ogystal â chynnig gwasanaeth gwrando, sesiynau myfyrio ac amrywiaeth o weithgareddau rhyng-ffydd, helpodd ein Gwasanaeth Caplaniaeth i ariannu pum grŵp cymunedol/myfyrwyr lleol gyda'n cronfa gymunedol, gan annog cydlyniant rhwng myfyrwyr ac aelodau cymunedol hirdymor, cefnogi llesiant cymunedol ac atal achosion pellach o unigedd cymdeithasol yn ystod y cyfyngiadau symud.

Roedd cymorth ychwanegol yn cynnwys talebau bwyd digidol, atgyfeiriadau at fanciau bwyd a chardiau teithio, llythyrau at landlordiaid a darparwyr gofal plant os oedd myfyrwyr yn cael trafferth talu a chymorth i fyfyrwyr heb rwydweithiau teulu. Datblygodd ein Hundeb Myfyrwyr gynllun tlodi misglwyf am ddim ac arhosodd y feithrinfa ar y campws ar agor fel y gallai myfyrwyr gael gafael ar ofal plant fforddiadwy tra roeddent yn astudio.

# Ein Hymchwil a'n Mentergarwch

Rydym yn parhau i fod yn Brifysgol sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil, ac rydym ymhlith y 10 sefydliad gorau yn y DU am gydbwyso addysgu rhagorol ac ymchwil ragorol, fel y dangosir gan ein perfformiad yn y 30 uchaf yn y DU yn REF2014 a'n Gwobr Aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu.

Rhoddodd adroddiad "Spotlight on Spinouts" yr Academi Frenhinol Peirianneg, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021, ein Prifysgol yn yr 8fed safle yn y DU ar gyfer nifer y cwmnïau allgynhyrchu y mae wedi'u creu, ac ar hyn o bryd rydym yn y 14eg safle yn y DU ar gyfer swm ein gwaith ymchwil cydweithredol a ariennir yn gyhoeddus.

Nododd ein datganiad Rhyngweithiad Addysg Uwch - Busnes a Chymuned (HEBCI) ar gyfer 2020/21 i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch gynnydd o 18% mewn ymgynghoriaeth ac incwm ymchwil gydweithredol, cynnydd o 45% yn incwm adfywio a datblygu'r UE, a gwelliannau ehangach gan gynnwys cyfraddau goroesi busnesau newydd graddedigion. O ganlyniad, ym mis Mehefin 2021, rhoddwyd £0.3m ychwanegol i'n Prifysgol o Gronfa Arloesi ac Ymgysylltu CCAUC i sbarduno a datblygu gweithgareddau masnachol, mentergarwch a Chenhadaeth Ddinesig. Mae'r cyllid ychwanegol yn mynd â chyfanswm ein dyfarniad i £2.7m ac yn golygu bod Abertawe o flaen pob sefydliad arall yng Nghymru o ran cyllid a ddyrennir o'r rhaglen hon.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae dyfarniadau cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi wedi cyrraedd y lefelau uchaf erioed. Cyflwynodd cydweithwyr academaidd 757 o geisiadau am grantiau 2020/21, am gyfanswm o £146m, a bu 407 o gynigion yn llwyddiannus (gan ragori ar ein record flaenorol, sef 376 o geisiadau llwyddiannus yn 2016/17). Cyrhaeddodd cyllid o adnoddau gan gynnwys yr Undeb Ewropeaidd, Cynghorau Ymchwil, Elusennau, Diwydiant a Masnach £74.8m eleni (gan ragori ar ein record flaenorol, sef £66.4m yn 2019/20). Roeddem hefyd yn falch o ennill y lefel uchaf o sicrwydd gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI), gan ddangos bod y cyllid cyhoeddus a gawn ar gyfer ymchwil yn cael ei ddiogelu a'i reoli'n briodol.

Mae dyfarniadau mawr diweddar yn cynnwys y canlynol:

- DATAMIND: Hyb Data ar gyfer Datblygu Ymchwil Gwybodeg Iechyd Meddwl (y Cyngor Ymchwil Feddygol, £2m) – Hyb newydd i ddarparu adnoddau data arloesol ar gyfer ymchwil ac arloesedd mewn perthynas ag iechyd meddwl.
- PATROLS: Physiologically Anchored Tools for Realistic Nanomaterial Hazard Assessment (£1.2m, Horizon 2020) – arwain dull amlddisgyblaethol i ddatblygu adnoddau o'r radd flaenaf er mwyn gwerthuso iechyd dynol a risgiau amgylcheddol yn fwy dibynadwy ar ôl dod i gysylltiad â nanoddefnyddiau.
- SUNRISE (£7m, Cronfa Ymchwil Heriau Byd-eang UKRI) – prosiect rhyngwladol i fynd i'r afael â thlodi ynni byd-eang drwy ddatblygu a dangos technolegau solar y genhedlaeth nesaf.
- DRAGON-S (Developing Resistance Against Grooming Online – Spot and Shield ($519,420, Cronfa Rhoi Terfyn ar Drais y Cenhedloedd Unedig) – datblygu adnoddau i gadw plant yn ddiogel rhag camdriniaeth a gynorthwyir drwy dechnoleg.

Prosiect AgorIP (£20m, UE/ERDF) – dod ag academyddion, clinigwyr a busnesau ynghyd i arloesi ymchwil i'r technolegau diweddaraf ac ysgogi llwyddiant masnachol. Ers i'r Prosiect gael ei lansio, mae'r tîm wedi cynorthwyo mwy na 200 o gyfleoedd; gan helpu i greu swyddi, diogelu Eiddo Deallusol a dod ag arloesedd i'r farchnad. Mae'r estyniad yn golygu y bydd y Prosiect bellach ar waith tan fis Mehefin 2023 a gall gefnogi prosiectau yn nwyrain Cymru yn ogystal â gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Mae ein strategaeth ymchwil ac arloesi newydd yn seiliedig ar amgylchedd ymchwil bywiog a dull cadarn wrth ymdrin â moeseg a llywodraethu, sy'n cwmpasu pedwar prif amcan:

- Ysbrydoli, grymuso a datblygu ein pobl
- Adeiladu a chryfhau ein capasiti a'n diwylliant ymchwil
- Ymgorffori a chreu effaith ymchwil

Rydym wedi sefydlu'r Sefydliad Astudiaethau Uwch cyntaf yng Nghymru, Sefydliad Astudiaethau Uwch Morgan (MASI). Lansiwyd MASI gyntaf gan Brif Weinidog Cymru ym mis Chwefror, a hwn yw'r sefydliad cyntaf o'i fath yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar ddod â phobl ynghyd i wneud gwaith ymchwil rhyngddisgyblaethol sy'n ymateb i rai o gyfleoedd a heriau mwyaf difrifol y byd.

Yn dilyn sawl blwyddyn o waith paratoi dwys, gwnaethom gyflwyno 18 uned o waith asesu i REF2021 ym mis Mawrth. Gwnaethom ddychwelyd cyfanswm o 607 o astudiaethau achos gan staff, 1,409 o allbynnau academaidd a 59 o astudiaethau achos o effaith i'w hasesu, a chofnodwyd bod 1,137 o raddau PhD wedi'u cwblhau yn ystod cyfnod cyfrifiad REF. Caiff y canlyniadau eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2022.

Nid yw'n syndod ein bod wedi rhoi cryn bwyslais ar ymchwil sy'n ymwneud â Covid eleni. Yn ystod y pandemig, cafodd penderfyniadau mewn perthynas â rheoli iechyd a chlefydau yng Nghymru eu datganoli i Lywodraeth Cymru, a gynullodd Gell Cyngor Technegol i ddarparu cyngor gwyddonol brys. Nododd y Gell fod creu modelau wedi'u teilwra i Gymru yn flaenoriaeth, a chrëwyd "Tîm Modelu Abertawe" mewn ymateb i hyn, gan ddod ag arbenigwyr o feysydd epidemioleg, mathemateg a pheirianneg meddalwedd ynghyd. Gwnaeth ein tîm rhyngddisgyblaethol gyflwyno allbynnau'n gyflym ar fodelu mathemategol COVID-19, llwyfannau data, a risg er mwyn llywio penderfyniadau polisi iechyd a wnaed gan GIG Cymru a'r Llywodraeth, gan alluogi'r canlynol: (1) Senarios cynnar a chywir ar gyfer cynllunio capasiti ysbytai a sicrhaodd fod nifer y staff gofal critigol ar lefel ddiogel ac effeithlon ledled Cymru. (2) Senarios cynnar a chywir ar gyfer Gwasanaeth Ambiwlans Cymru fel y gallai ragweld galw difrifol yn gywir a chynllunio ar ei gyfer. (3) Sylfaen dystiolaeth ar gyfer ymyriadau cenedlaethol mawr.

Gwnaethom hefyd gynnal nifer o brosiectau a oedd yn ymwneud â Covid er mwyn:

- datblygu dyfais unigryw a all ganfod COVID-19 mewn dŵr gwastraff cyffredin mewn amser real, gan olygu y gellid rhybuddio cymunedau os oedd amheuaeth bod brigiad yn eu hardal;
- gwerthuso data gofal iechyd Cymru er mwyn canfod a oedd nifer bach o gyflyrau clotiau gwaed prin, a gofnodwyd yn Norwy a'r Almaen, wedi ymddangos mewn unigolion a oedd wedi'u brechu yng Nghymru hefyd;
- datblygu llwyfan agored ar gyfer modelu pandemig, i ymchwilio i COVID-19 a'r hyn y gallwn ei ddysgu am ymdopi â chlefydau pandemig yn y dyfodol;
- dadansoddi data er mwyn deall sut roedd gwasanaethau ambiwlans yn ymateb i alwadau am achosion COVID-19 posibl, ynghyd â chanlyniadau i gleifion;
- ystyried effaith cyfyngiadau Covid ar garcharorion a charchardai er mwyn gweld pa wersi y gellir eu dysgu;
- deall y gydberthynas rhwng COVID-19 a chlefydau cardiofasgwlaidd, megis trawiad ar y galon a strôc, ymhlith poblogaeth y DU;
- ystyried sut yr effeithiodd trefniadau gwarchod ar farwolaethau, derbyniadau i'r ysbyty ac adrannau gofal dwys, heintiadau COVID-19, statws imiwnedd, diogelwch, costau'r GIG, ansawdd bywyd a'r ffordd roedd pobl yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau;
- datblygu dull newydd i helpu pobl i wella o COVID-19, gan ddefnyddio ymarferion anadlu a dyfais llaw, a chwilio am wirfoddolwyr sydd wedi cael Covid i'w helpu i'w brofi.

Gwnaethom hefyd gynhyrchu arolygon ac adroddiadau ar bynciau yn cynnwys effaith COVID-19 ar y canlynol: y Gymraeg; gweithgarwch corfforol, iechyd meddwl a llesiant plant; cymorth gyda bwydo ar y fron i rai teuluoedd; a phroblemau iechyd meddwl ymhlith teuluoedd sy'n gofalu am blant ac oedolion sydd ag anableddau deallusol.

Rydym wedi rheoli dyraniadau cyllid o Estyniad Dyraniadau Grant COVID-19 Ymchwil ac Arloesi yn y DU (£1.7m i gefnogi estyniadau wedi'u costio i brosiectau ymchwil yr effeithiodd y pandemig arnynt); a'r Gronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch (HEIR): Amddiffyn y

Sylfaen Ymchwil yng Nghymru (tua £2.7m i estyn ysgoloriaethau ymchwil PhD a phrosiectau nad ydynt wedi cael ffynonellau eraill o gyllid).

O ran ein seilwaith ymchwil, mae'r gwaith i adeiladu'r Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol yn datblygu'n dda. Bydd yn gartref i amgylchedd gweithgynhyrchu glân sy'n arwain y diwydiant, labordai ymchwil a chyfleusterau swyddfa er mwyn darparu cymorth ymchwil ac arloesi hanfodol i glwstwr CSConnected, rhwydwaith sy'n tyfu o bartneriaid rhanbarthol yn y diwydiant lled-ddargludo.




## Ehangu ein cyrhaeddiad rhyngwladol

Mae Strategaeth Ryngwladol 2020-2025 newydd ein Prifysgol yn ymrwymo i gynyddu nifer y myfyrwyr rhyngwladol, cryfhau ein partneriaethau rhyngwladol strategol, datblygu ein rhwydweithiau ymchwil byd-eang a chreu proffil byd-eang cryfach i'n Prifysgol. Rydym wedi nodi tri philer byd-eang i gynrychioli ein dyheadau rhyngwladol:

### GRADDEDIGION BYD-EANG

Eleni, rydym wedi anelu at gadw ein cyfran o'r farchnad ryngwladol yn wyneb bygythiadau cynyddol a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. Gwnaethom lwyddo i gynnal ein trywydd twf cyn y pandemig a chynyddu ein cyfran o'r farchnad drwy atgyfnerthu timau recriwtio yn y wlad yn Tsieina, India a Nigeria, drwy addysgu ar-lein a thrwy gynnal diwrnodau agored rhithwir. Gwnaethom hefyd gyflwyno cyfleoedd i gofrestru ym mis Ionawr ar gyfer 133 o raglenni gradd ym mhob un o'r Cyfadrannau, a chofrestrodd 370 o fyfyrwyr rhyngwladol o ganlyniad i hyn. Ar y cyfan, cynyddodd ceisiadau rhyngwladol 40%, o 13,284 yn 2019/20 i 18,569 yn 2020/21.

Yng ngwanwyn 2021, lansiodd Llywodraeth y DU Gynllun Turing ar gyfer 2021/22, i liniaru rhai o effeithiau Brexit ar symudedd myfyrwyr sy'n awyddus i astudio dramor. Sicrhaodd ein Prifysgol £0.4m o gyllid, a fydd yn galluogi 114 o fyfyrwyr o Abertawe i astudio dramor yn 2021/22. Dim ond myfyrwyr sydd am astudio dramor a gaiff eu cwmpasu gan Gynllun Turing, o gymharu â Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru, a gaiff ei lansio yn 2022 ac a fydd ar waith tan 2026 yn y lle cyntaf. Mae'r buddsoddiad o £65m gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys sefydliadau Addysg Uwch, Addysg Bellach ac ysgolion, myfyrwyr sydd am astudio yn y wlad hon a myfyrwyr sydd am astudio dramor yn ogystal â staff, ac mae dwyochredd yn elfen allweddol o'r cynllun. Byddwn yn gwneud cais am gyllid i helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei tharged o 15,000 o fyfyrwyr yn mynd dramor a 10,000 o fyfyrwyr yn dod i'r wlad hon dros bedair blynedd.

### PARTNERIAETHAU BYD-EANG

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'n partneriaid strategol yn Texas a Grenoble, ac rydym hefyd wedi lansio partneriaeth swyddogol â Phrifysgol Canberra i wneud gwaith ymchwil ar y cyd a darparu cyfleoedd cyfnewid ar gyfer addysgu a myfyrwyr, ynghyd ag ehangu proffil a chyrhaeddiad rhyngwladol y Brifysgol am ymdrechion ym myd chwaraeon.

### ENW DA BYD-EANG

Er mwyn cryfhau ein henw da byd-eang, gwnaethom gynnal adolygiad o sefyllfa ein brand er mwyn sefydlu ein hunain fel 'y grym sy'n dod i'r amlwg mewn ymchwil fyd-eang', gydag ymgyrch farchnata ar gyfer ymchwil â'r thema 'sbarduno rhagoriaeth drwy rannu syniadau'. Mae'r ymgyrch yn cefnogi ein targed i gael ein henwi ymhlith y 350 o brifysgolion gorau yn y byd yn nhabl QS erbyn 2025. Yn 2021, gwnaethom lwyddo i godi 34 o safleoedd drwy ddringo o 474 i 440, a gwella 195 o safleoedd o ran ein henw da fel cyflogwr.



## Ein Hystâd Ddiriaethol

Caiff ystâd ddiriaethol ein Prifysgol ei rheoli a'i llywodraethu drwy Strategaeth Ystâd y Brifysgol sy'n cwmpasu Pobl, Ffurf Adeiledig, Cyllid, Cynaliadwyedd, Arloesi, a Llywodraethu a Gweithrediadau. Dros y 18 mis diwethaf rydym wedi canolbwyntio ar wneud rhagor o arbedion drwy ymyriadau gweithredol a defnyddio adnoddau yn briodol, o fewn cyd-destun diwallu anghenion y Brifysgol a oedd yn deillio o bandemig Covid-19.

O safbwynt strategol, rydym wedi cyhoeddi ein Strategaeth Ystâd wedi'i diweddaru, cymeradwyo polisi llety myfyrwyr yn ymwneud â darparu tai myfyrwyr ar y campws ac oddi ar y campws yn y tymor canolig a'r hirdymor, ac rydym wedi cwblhau'r uwchgynllun i lywio datblygiad y Pentref Chwaraeon ar Lôn Sgeti yn y dyfodol, a'r ffordd y caiff ei weithredu, mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Abertawe. Gwnaethom hefyd gyflwyno cyfarwyddeb weithredol y 'Normal Newydd' fel rhan o'n hadferiad yn dilyn COVID-19 a'n gwaith cynllunio i ddychwelyd i'r campws, gyda'r nod o wneud arbedion gweithredol drwy optimeiddio a defnyddio'r ystâd yn well.

O ran sicrhau y gall myfyrwyr a staff ddychwelyd i'r campws yn ddiogel, rydym wedi canolbwyntio'n bennaf ar ailgomisiynu pob adeilad sy'n rhan o'r ystâd, creu a chynnal asesiadau risg, sicrhau bod darpariaeth arlwyo ddigonol ar bob campws, rhoi gweithdrefnau glanhau a mesurau cadw pellter cymdeithasol priodol ar waith, addasu'r amserlen i ddarparu ar gyfer dysgu cyfunol, sicrhau bod digon o fannau astudio cyffredinol ar gael i fyfyrwyr ar y campws, a hwyluso trafnidiaeth gyhoeddus briodol rhwng y ddau gampws.

Mae rhai o'n prosiectau trawsnewidiol eleni yn cynnwys symud i fodel arlwyo newydd, a chaiff y gwasanaeth arlwyo ei ddarparu gan gyflenwyr allanol o fis Ionawr 2022.

### CEFNOGI CYNALIADWYEDD

Rydym ymhlith y deg uchaf yng nghynghrair prifysgolion People & Planet am y drydedd flwyddyn yn olynol, gan ddringo mwy na 110 o leoedd ers 2011 o ganlyniad i'n strategaethau cynaliadwyedd, ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, ein Cynllun Rheoli Carbon a'n System Rheoli Amgylcheddol.

Eleni gwnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Cynaliadwyedd fwyaf uchelgeisiol eto, ein Strategaeth Cynaliadwyedd ac Argyfwng Hinsawdd (2021-2025), sy'n cyd-fynd â dogfen Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas ac yn ein hymrwymo i weithredu mewn pedair thema allweddol: yr Argyfwng Hinsawdd, ein Hamgylchedd Naturiol, ein Hamgylchedd Gwaith a'n Teithio.

Cafodd y Brifysgol £5.8m o gyllid cyfalaf ychwanegol gan CCAUC, a gwariwyd £0.4m ohono ar brosiectau datgarboneiddio gweithredol sy'n ymwneud â'r Strategaeth Cynaliadwyedd. Roedd y rhain yn perthyn i'r categorïau teithio llesol (£31,000) ac ynni adnewyddadwy (£0.4m). Mae prosiectau pellach wedi'u cynllunio, gan gynnwys gosod 1MW o drydan gwynt adnewyddadwy a 300KW o drydan solar ffotofoltäig adnewyddadwy yng Nghampws y Bae, ac 1MW pellach o gapasiti trydan solar ffotofoltäig a gosod 2MW o gapasiti pŵer a gwres carbon isel ar Gampws Singleton.

Er mwyn lleihau gwastraff, gwnaethom roi cynllun UniGreenScheme ar waith sy'n ein galluogi i gasglu ac ailwerthu cyfarpar arbenigol diangen, a buddsoddi'r enillion yn uniongyrchol yn y Cyfadrannau. Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn rhaglen ailgylchu am ddim ar gyfer gwastraff sy'n anodd ei ailgylchu, gan gynnwys pecynnau byrbrydau, podiau coffi ac offer ysgrifennu, a chaiff yr enillion eu rhoi i sefydliadau elusennol. Rydym wedi darparu eitemau y gellir eu hailddefnyddio neu opsiynau mwy cynaliadwy yn lle plastig untro ar y ddau gampws, a chymell pobl i'w defnyddio, ac rydym wedi gwahardd platiau bwffe, gwellt a throellwyr plastig. Gwnaethom hefyd gymryd rhan mewn ymgyrch ailgylchu a gwastraff ar draws y ddinas, ac yn ymgyrch ailgylchu fwyaf Cymru, 'Bydd Wych, Ailgylcha' a lansiwyd gan WRAP Cymru.

Eleni, Abertawe oedd y brifysgol 'Ail-lenwi' gyntaf yng Nghymru, gan gydweithio â myfyrwyr a'r gymuned leol i fapio dros 80 o fannau hygyrch i'r cyhoedd lle ceir dŵr yfed am ddim ar y ddau gampws ac yn yr ardaloedd cyfagos.

Drwy ein hap SWell, gwnaethom ymgysylltu â mwy na 50% o'r staff ac annog ymddygiadau i leihau ein hôl troed carbon unigol ac ar y cyd.

Yn olaf, gwnaethom ddatblygu ein gwybodaeth am fywyd gwyllt ar y campws ac yn y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sydd gyferbyn â Champws y Bae. Gwnaethom gynnal rhaglen o deithiau cerdded, sgyrsiau a digwyddiadau eraill, a chyhoeddi taflenni gwybodaeth am fywyd gwyllt ac annog ein cymuned i astudio a diogelu byd natur ar y campws.

O ganlyniad i'n hymrwymiad i gynaliadwyedd, eleni rydym wedi llwyddo i gael ardystiad Safon Gwastraff yr Ymddiriedolaeth Garbon am ein gwaith i leihau gwastraff ar y ddau gampws, a buom yn llwyddiannus yn y Fframwaith Asesu Effeithlonrwydd Labordai (LEAF), sy'n annog y prifysgolion sy'n cymryd rhan i sicrhau bod eu hymchwil a'u haddysgu yn defnyddio adnoddau yn effeithlon.



# Ehangu ein seilwaith digidol

Mewn blwyddyn lle roedd sylw pawb ar y pandemig, ein darpariaeth ddigidol oedd y sail i'n gallu i addysgu a chefnogi ein myfyrwyr a'n staff drwy ffyrdd newydd o ddysgu a gweithio. Wrth i'n staff a'n myfyrwyr ddechrau defnyddio rhagor o wasanaethau, adnoddau dysgu ac addysg ar-lein, gwnaethom fuddsoddi yn ein llwyfannau a'n seilwaith digidol er mwyn cefnogi dysgu ac addysgu, a hwyluso gwasanaeth gwell i gwsmeriaid drwy ddulliau awtomeiddio a mwy o brosesau hunanwasanaeth.

Gwnaethom wneud gynnydd da tuag at ddiffinio glasbrint ar gyfer sylfeini digidol sefydlog hefyd, gan ddechrau drwy ailddylunio ein rhwydwaith ac adolygu ein rheolaethau seiberddiogelwch er mwyn helpu i ddiogelu darpariaeth ddigidol y Brifysgol yn y dyfodol.

Defnyddiwyd £5.8m o gyllid cyfalaf ychwanegol gan CCAUC i hybu buddsoddiad mewn nifer o ystadau a mentrau digidol mewn perthynas â'r 'Normal Newydd' yn sgil COVID-19. Defnyddiwyd £5.4m i ariannu gwelliannau i gyfleusterau clyweledol, prynu rhagor o gyfrifiaduron a chyfarpar TG arall. Bydd y buddsoddiad hwn yn cyfrannu at weithlu mwy gwydn gan alluogi'r Brifysgol i symud tuag at ffordd fwy hyblyg a chynaliadwy o weithio.

Cawsom gymorth hefyd gan fuddsoddiad sylweddol drwy raglen Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch CCAUC, a ddyrannodd £0.9m tuag at ddarpariaeth ddigidol, a wnaeth ein galluogi i gyflymu'r gwaith o ddatblygu llwyfannau digidol a'u rhoi ar waith, yn enwedig y rhai hynny sy'n cefnogi ein strategaeth recriwtio myfyrwyr rhyngwladol.

Gyda'i gilydd, gwnaeth y cronfeydd hyn ein galluogi i addasu dyluniad safonau a gwasanaethau clyweledol a bwrdd gwaith, sefydlu mynediad o bell at wasanaethau addysgol a gweinyddol (gyda 2,750 o gyfrifiaduron ar gael i fyfyrwyr o bell), a chyflwyno adnoddau newydd er mwyn hwyluso gwasanaethau addysgol a gweinyddol hybrid, megis Panopto i recordio darlithoedd (17,860 o ddefnyddwyr), Respondus er mwyn goruchwylio arholiadau o bell (1,748 o fyfyrwyr), a Calamari er mwyn rheoli gwyliau ac absenoldeb (1,573 o staff).

Gwnaethom hefyd gydgrynhoi'r defnydd o feddalwedd 'ffôn meddal' drwy'r rhyngrwyd er mwyn hwyluso dulliau cyfathrebu dros y ffôn, yn enwedig i gydweithwyr a oedd yn gweithio gartref, ac ehangu ein defnydd o adnoddau cydweithio megis Microsoft Teams a Zoom, sydd bellach yn cefnogi 11,337 o ddefnyddwyr gweithredol yn ein Prifysgol. Mae 574,927 o gyfarfodydd a 117 o weminarau wedi cael eu cynnal drwy Zoom, gyda chyfanswm o 58,604 o gyfranogwyr yn bresennol. Gwnaethom gyflymu'r broses o roi amgylchedd dysgu newydd Canvas ar waith, sydd wedi cefnogi 7,386,888 o sesiynau (cynnydd o 53.72% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan oeddem yn defnyddio Blackboard). Cafodd ein llwyfan Canvas ei ddefnyddio gan gydweithwyr a myfyrwyr o 177 o wledydd gwahanol.

Gwnaethom hefyd roi adnoddau Dadansoddi Cyfranogiad newydd ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod ein myfyrwyr ar y trywydd cywir, ynghyd â bodloni ein hymrwymiadau ar gyfer adrodd i UKVI. Gwnaethom ymdrin â materion yn ymwneud ag anfantais ddigidol a thlodi drwy gynyddu ein cronfa o ddyfeisiau i'w benthyca, ynghyd â phennu terfynau lled band ar gyfer cynnwys addysgol er mwyn helpu i sicrhau y gallai cynifer o fyfyrwyr â phosibl gael mynediad ato o bell.

Wrth i'r cyfyngiadau ar gyfer COVID-19 gael eu llacio, bydd ein gwasanaethau digidol yn parhau i ddarparu'r seilwaith galluogi sy'n ein cefnogi drwy'r cyfnod adfer, gan ddarparu mynediad at gyfleoedd dysgu cyfunol ac ar-lein i fyfyrwyr, a chefnogi ein staff wrth iddynt barhau i weithio o bell.

# Strategaeth Ariannol

Amcan pennaf Strategaeth Ariannol y Brifysgol o hyd yw creu digon o adnoddau ariannol i gyflawni ei hamcanion strategol a sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor hir. Mae'r strategaeth hon wedi bod yn hynod effeithiol yn ystod pandemig COVID oherwydd bod meddu ar lefel dda o arian parod wrth gefn wedi helpu i liniaru'r risgiau a grëwyd gan yr ansicrwydd yn ystod y cyfnod hwn.

Wrth i ni ddechrau dychwelyd i ffordd fwy normal o weithio, byddwn yn troi ein sylw at y meysydd canlynol:

- Ariannu buddsoddiad cyfalaf, yn enwedig yn yr ystâd a'r isadeiledd TG, optimeiddio sut rydym yn defnyddio ein cronfeydd ariannol wrth gefn, partneriaethau a chyllid grant.
- Adolygu cymarebau hylifedd a dyled yn ofalus i sicrhau ein bod yn rheoli ein cyfalaf gweithio'n effeithlon.
- Parhau i adolygu ein prosesau a datblygu systemau er mwyn gwella effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd.
- Monitro ein hymrwymiad i pensiynau ar gyfer ein cyflogeion, gan gadw llygad ar ofynion ariannol presennol a rhai'r dyfodol, yn ogystal â graddfa'r darpariaethau ar gyfer diffygion mewn cronfeydd pensiwn.

## RHAGOLWG ARIANNOL

Mae'r amgylchiadau digynsail a ddeilliodd o bandemig COVID, gan effeithio ar 2019/20 a 2020/21 hefyd, wedi cael eu rheoli'n effeithiol gan y Brifysgol a chafwyd ymateb neilltuol gan ein staff a'n myfyrwyr. Rydym wedi mabwysiadu ffyrdd newydd o addysgu a gweithio'n llwyddiannus yn ystod 2020/21 ac rydym bellach yn canolbwyntio ar weithrediadau busnes cynaliadwy.

Mae'r Cynllun Gwella Gweithrediadol aml-flwyddyn wedi cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig. Rhoddwyd y cynllun i gyfuno saith Coleg yn dair Cyfadran ar waith yn ystod 2020/21 ac mae'n ysgogi newid trawsffurfiol yn y ffordd rydym yn cyflawni ein gwaith academaidd a'n gweithrediadau Gwasanaeth Proffesiynol, gan arwain at arbedion ychwanegol drwy synergedd, twf mewn incwm a gwelliant o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd trefniadaethol. Mae lefel y buddsoddiad strategol wedi bod islaw'r rhagamcanion gwreiddiol am y ddwy flynedd ddiwethaf, ac un o'n hamcanion allweddol bellach yw defnyddio'r arian parod sydd gennym o ganlyniad i roi'r strategaethau ystadau a digidol ar waith a chreu amgylchedd cynaliadwy a fydd yn diwallu anghenion yn y dyfodol.

Mae'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth wedi adolygu'r risgiau posib sy'n wynebu'r Brifysgol yn rheolaidd a chaiff y rhain eu crynhoi ar dudalennau 34-36.

Mae recriwtio'n parhau'n risg sylweddol ond, er gwaethaf effaith chwyddiant graddau ar weithgarwch Clirio a Chadarnhau, mae rhagolygon 2021/22 yn addawol gyda rhaglenni mynediad ym mis Ionawr yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i greu'r twf mewn incwm a ragamcanwyd, yn enwedig ym maes myfyrwyr rhyngwladol.

Fodd bynnag, rydym wedi profi'r tybiaethau yn ein rhagamcanion drwy greu nifer o senarios sy'n modelu effaith ariannol bosib y sefyllfaoedd recriwtio gwaethaf, gorau a realistig. Mae'r gwaith hwn wedi dangos bod gan y Brifysgol fesurau lliniaru priodol ar waith i reoli effaith amrywiaeth o ddigwyddiadau credadwy.


Yn sgîl y gwaith hwn, mae'r Brifysgol yn hyderus bod ganddi ddisgwyliadau rhesymol o feddu ar adnoddau digonol i barhau i weithredu am y dyfodol rhagweladwy. Am y rheswm hwn, mae'n parhau i ddefnyddio'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r cyfrifon.

## PRIF BWYNTIAU ARIANNOL A DANGOSYDDION ARIANNOL ALLWEDDOL

| *Incwm a Gwariant* | **2021** | 2020 | *Dangosyddion ariannol allweddol* | **2021** | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| Incwm | **£361m** | £318m | Gwarged gweithredu fel % o incwm | **7.7%** | 10.2% |
| Gwariant | **£333m** | £285m | | | |
| Gwarged gweithredu | **£28m** | £32m | | | |
| **EBITDA** | | | | | |
| *Llif arian parod* | **£66m** | £14m | EBITDA fel % o incwm | **18.2%** | 4.4% |
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | **£48m** | £16m | Llif arian parod o weithgareddau gweithredu fel % o incwm | **13.3%** | 5.0% |
| Arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | **£141m** | £97m | Diwrnodau hylifedd | **168** | 136 |

## TROSOLWG

Roedd gan y Brifysgol warged gweithredu o £27.9m yn y flwyddyn i fis Gorffennaf 2021. Mae hyn yn cynnwys credyd pensiwn anariannol o £4.3m (2020: £39.4m) ac mae'n cynrychioli cynnydd o ddiffyg wedi'i addasu o £7.7m yn 2020. Arweiniodd hyn at fewnlif arian parod net o £48.5m o weithgareddau gweithredu a chynnydd o 45% mewn arian parod i £141.0m.




***Er gwaethaf heriau ariannol 2021, gwelwyd cynnydd o £43.2m yn incwm y Brifysgol i £360.8m.*** Cynyddodd incwm o ffioedd dysgu 8% o £171.2m i £184.3m yn dilyn cynnydd mewn niferoedd myfyrwyr, a chynyddodd grantiau cyrff cyllido £23.1m (85%) yn sgîl derbyn grantiau ychwanegol i gefnogi'r Brifysgol a myfyrwyr drwy COVID. Cynyddodd incwm ymchwil eto, o £56.2m i £62.1m (10%) ar ôl gostwng yn 2020 pan gaewyd ein cyfleusterau ymchwil dros dro yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud oherwydd COVID.


***Ein gwariant yn 2021 oedd £332.9m sef cynnydd o 4% ers 2020 ar ôl addasu am y newid ym mhrisiad cynllun pensiwn USS.*** Gwelwyd gostyngiad o 1% mewn costau staff yn 2021 i £181.2m o £182.7m yn 2020, a chynyddodd gwariant gweithredu arall 12% o £103.3m i £116.0m.

Derbyniwyd grantiau cyrff cyllido gwerth £10.6m â'r nod penodol o gefnogi'r Brifysgol a myfyrwyr drwy COVID, gan ychwanegu'n sylweddol at y cynnydd mewn gwariant gweithredu arall yn y flwyddyn. Aethpwyd i gostau ailstrwythuro eraill o £6.0m yn ystod 2021 wrth i'r Cynllun Ymadael yn Wirfoddol barhau. O ganlyniad i newid mewn polisi cyfrifyddu, cynyddodd cyfraddau cyfalafu cyfarpar a gwelwyd cynnydd cyfatebol mewn dibrisiant yn y flwyddyn. Cynyddodd llog ar fenthyciadau yn 2021 yn sgîl ail-negodi cyfraddau llog Banc Buddsoddi Ewrop ac ar ôl i ni dderbyn benthyciad SURE gan Lywodraeth y DU, ond gostyngodd cyfanswm cyffredinol y llog oherwydd gostyngiad mewn taliadau pensiwn.

***Cynyddodd asedau net £40.5m ac ni newidiodd asedau sefydlog diriaethol.*** Parhaodd lefelau gwariant cyfalaf ar adeiladau yn gymharol isel, ac ariannwyd y gwariant sylweddol drwy ymchwil, a chynyddodd gwariant cyfalaf ar gyfarpar yn dilyn y newid yn y polisi cyfrifyddu. Cynyddodd balans y benthyciadau o ganlyniad i dynnu'r benthyciad SURE i lawr. Serch hynny, parhaodd y rhwymedigaeth am y trefniadau consesiwn gwasanaeth preswyl i ostwng wrth i'r rhwymedigaeth gael ei dad-ddirwyn. O ganlyniad i enillion actiwaraidd, newidiadau i gyfraniadau disgwyliedig am y diffyg yn y cynlluniau pensiwn a'r cyfraniadau a dalwyd mewn gwirionedd, cafwyd gostyngiad o £16.5m mewn darpariaethau pensiwn.

## INCWM

*Incwm fesul categori*




Cynyddodd ***incwm o ffioedd dysgu*** 8% i £184.3m. Roedd y ffigurau recriwtio myfyrwyr yn well na'r disgwyl. Cofrestrodd 437 o fyfyrwyr ar 165 o raglenni a oedd ar gael o fis Ionawr 2021 a chofrestrodd 40% o'r holl fyfyrwyr rhyngwladol ôl-raddedig a addysgir ar raglenni i ddechrau ym mis Ionawr. Yn gyffredinol, cynyddodd incwm o ffioedd dysgu cartref £9.4m, yn bennaf oherwydd nifer uwch o fyfyrwyr yn cofrestru ym mis Medi. Cynyddodd incwm o ffioedd tramor £3.6m gan adlewyrchu llwyddiant y rhaglenni mynediad ym mis Ionawr a chynnydd cyfartalog o 3% mewn ffioedd.

| | 2021 | | | 2020 |
|---|---|---|---|---|
| | **MYNEDIAD YM MIS MEDI** | **MYNEDIAD YM MIS IONAWR** | **CYFANSWM MYFYRWYR YN COFRESTRU** | **MYNEDIAD YM MIS MEDI** |
| Israddedig Cartref | 12,559 | 27 | 12,587 | 11,856 |
| Ôl-raddedig a Addysgir Cartref | 1,323 | 59 | 1,382 | 1,197 |
| Ymchwil Ôl-raddedig Cartref | 641 | - | 641 | 610 |
| Wedi'u Comisiynu gan y GIG | 1,651 | - | 1,651 | 1,833 |
| Israddedig Tramor | 1,371 | 71 | 1,442 | 1,498 |
| Ôl-raddedig a Addysgir Tramor | 389 | 280 | 668 | 630 |
| Ymchwil Ôl-raddedig Tramor | 143 | - | 143 | 111 |
| **Cyfanswm** | **18,077** | **437** | **18,514** | **17,735** |

Cynyddodd ***grantiau cyrff cyllido*** 85% i £50.4m yn sgîl derbyn cyllid grant gwerth £10.6m mewn perthynas â COVID ynghyd â chyllid cyfalaf gwerth £10.6m. Cafodd 10,000 o fyfyrwyr eu cefnogi gan daliad o'r cronfeydd caledi o'r £6.3m a dderbyniwyd yn benodol at y diben hwn. Derbyniwyd £0.8m ychwanegol i gefnogi myfyrwyr a oedd yn hunanynysu ac o dan gwarantin. Derbyniodd y Brifysgol gyllid grant ychwanegol gwerth £0.7m i gyfrannu at fesurau yn erbyn COVID gan gynnwys glanhau, cyfarpar diogelwch personol, mannau awyr agored, a £0.2m ychwanegol am gyfarpar hunanwasanaeth.

Cynyddodd ***incwm ymchwil*** £5.9m i £62.1m yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2021, gan adlewyrchu'r llwyddiant parhaus wrth estyn yr arian a dderbynnir drwy grantiau ymchwil yn y blynyddoedd diweddar. Er gwaethaf y cynnydd hwn amharodd COVID ar y gwaith ymchwil a wnaed ar gyfer grantiau unigol, gan leihau'r gallu i ymgymryd â gwaith ymchwil cynlluniedig yn y flwyddyn.


Roedd ***incwm arall*** yn adlewyrchu effaith COVID ar weithgareddau preswyl, arlwyo a chynadleddau a gwelwyd gostyngiad arall o £1.4m yn yr incwm hwn yn y flwyddyn i £22.4m, sef gostyngiad o 19% ers 2019. Rhoddwyd ad-daliadau rhent gwerth £2.7m i fyfyrwyr nad oeddent yn gallu symud i mewn i'w llety yn ystod y cyfyngiadau cenedlaethol ar symud rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Brifysgol gyllid gwerth £0.4m gan y Llywodraeth o dan y Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws, gostyngiad o £0.4m ers 2020, sy'n adlewyrchu gostyngiad yn nifer y staff ar ffyrlo o fis Medi 2020 ymlaen.

## GWARIANT

Cynyddodd gwariant yn y flwyddyn (ac eithrio addasiadau ar gyfer prisiad y cynllun USS) £12.7m i £337.2m. Gostyngodd costau staff 1% yn dilyn rhaglen Cynllun Ymadael yn Wirfoddol dros ddwy flynedd a chynyddodd gwariant heblaw am gyflogau 12%. Gwariodd y Brifysgol £6.0m ychwanegol ar daliadau i staff drwy'r Cynllun Ymadael yn Wirfoddol yn ystod 2021, yn ogystal â'r £5.6m a dalwyd yn 2020.

*Gwariant fesul categori*





***Mae costau staff*** wedi gostwng o £182.7m i £181.2m yn y flwyddyn i 31 Gorffennaf 2021. Gostyngodd cyflogau a dalwyd 3% i £128.2m a pharhaodd costau nawdd cymdeithasol a phensiynau yn gyson â'r flwyddyn flaenorol. Mae costau cyflogau'n amrywio yn ystod y flwyddyn, gan ddibynnu ar y rolau a ddaeth i ben o dan y Cynllun Ymadael yn Wirfoddol, dyfarniadau cyflog a gymeradwywyd gan y Brifysgol a thrwy'r GIG a natur a hyd y rolau achlysurol a oedd yn ofynnol neu or-amser a weithiwyd mewn rolau rhan-amser penodol.

Parhaodd niferoedd staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) bron yn gyson, sef 3,627 a gwelwyd gostyngiad o 16 aelod staff CALl yn y flwyddyn. Roedd y rhan fwyaf o'r swyddi a gollwyd drwy'r Cynllun Ymadael yn Wirfoddol o flwyddyn 2021/22, felly nid yw effaith hyn yn amlwg eto yn niferoedd staff.

Mae costau staff fel canran o incwm wedi gostwng yn y flwyddyn o 58% i 50%. Mae'r gostyngiad hwn o ganlyniad i'r incwm ychwanegol a dderbyniwyd, yn enwedig y grantiau cyrff cyllido mewn perthynas â COVID a wariwyd yn bennaf ar gostau ar wahân i gyflogau.

Costau staff fel % o incwm





Cyfrifir y taliad neu'r credyd mewn perthynas â'r ***cynllun pensiwn USS*** yn flynyddol i adlewyrchu'r newid a amcangyfrifir mewn cyfraniadau disgwyliedig, ac mae'n seiliedig ar y prisiad a'r cyfraddau disgownt ar 31 Gorffennaf. Addasiad cyfrifyddu yw hyn ac nid trafodiad ariannol.

Ar 31 Gorffennaf 2021 arweiniodd hyn at gredyd ac felly at ostyngiad o £4.3m yn y gwariant. Mae hyn yn dilyn credyd ar gyfer cynllun USS yn 2020 gwerth £39.4m a thaliad o £57.0m yn 2019.

Cynyddodd g***wariant ac eithrio cyflogau*** 12.3% i £116.0m ar 31 Gorffennaf 2021 o £103.3m yn 2019/20. O ganlyniad i barhad y Rhaglen Gwella Gweithrediadol a gyflwynwyd yn 2019 ac effaith COVID, gwariwyd llai o gronfeydd y Brifysgol. Fodd bynnag, cynyddodd gwariant cyffredinol oherwydd cyllid grant ychwanegol a dderbyniwyd yn y flwyddyn er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau COVID.

*Gwariant ac eithrio cyflogau fesul gweithgaredd*




Gostyngodd gwariant ac eithrio cyflogau mewn Adrannau Academaidd £1.5m yn y flwyddyn, o ganlyniad i COVID yn bennaf, a pharhaodd gwariant yn y Gwasanaethau Academaidd yn weddol gyson â 2020, ynghyd â phreswylfeydd, arlwyo a chynadleddau er ar werthoedd is cyn COVID o 2019.

Cynyddodd gwariant ar atgyweirio a chynnal a chadw mangreoedd yn y flwyddyn £3.7m ers y flwyddyn flaenorol yn dilyn y penderfyniad yn 2020 i rewi gwariant ar yr holl waith nad oedd yn angenrheidiol.

Cynyddodd gwariant ac eithrio cyflogau'n sylweddol yn y Gwasanaethau Proffesiynol yn y flwyddyn o £17.4m i £26.6m. Mae gwasanaethau proffesiynol yn cynnwys gwariant mewn perthynas â myfyrwyr ar gyfleusterau iechyd a chwaraeon, bwrsariaethau, ysgoloriaethau a chyllid myfyrwyr, yn ogystal â swyddogaethau canolog megis Adnoddau Dynol a Chyllid. Gwariwyd £8.8m ychwanegol yn y flwyddyn ar gefnogi myfyrwyr yn sgîl derbyn grantiau gan CCAUC, ynghyd â chyllid grant ychwanegol gwerth £4.0m gan CCAUC i gefnogi gweithgareddau buddsoddi ac adfer mewn perthynas ag ymchwil. Dyfarnwyd £0.3m ychwanegol i Undeb y Myfyrwyr a ddefnyddiwyd i ddarparu mentrau cymdeithasol a chymorth diogel yng nghyd-destun COVID. Aeth y Brifysgol i gostau o £0.8m a oedd yn gysylltiedig yn uniongyrchol â COVID, yn bennaf ar gyfarpar clyweledol, gwaith digidol a glanhau estynedig.


## MANTOLEN

Mae gan y Brifysgol fantolen gref a chynyddodd asedau net £40.5m yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2021. Parhaodd asedau anghyfredol yn gyson a chynyddodd asedau cyfredol £50.0m yn dilyn cynnydd mewn dyledwyr (£6.1m) ac arian parod (£43.7m). Cyfrannodd benthyciad newydd gwerth £7.3m a chynnydd mewn grantiau a dderbyniwyd ymlaen llaw gwerth £18.0m at y cynnydd o £25.3m mewn credydwyr, a gostyngodd y ddarpariaeth am bensiynau £16.5m.

## GWARIANT CYFALAF A GRANTIAU CYFALAF A DDERBYNIWYD

Roedd ***gwariant cyfalaf*** ar ei uchaf yn y blynyddoedd cyn 2018 pan grëwyd ac estynnwyd Campws y Bae. Mae gwaith i estyn Campws y Bae yn parhau gan ychwanegu adeiladau ymchwil newydd a ariennir drwy grantiau, ond ar raddfa sylweddol is. Cafodd gwariant cyfalaf nad oedd yn angenrheidiol ac nad oedd yn cael ei ariannu drwy grant ei rewi ym mis Mawrth 2020 i liniaru effaith COVID; ailddechreuodd y gwariant hwn yn 2020 ond ar lefel is.

Gwariant Cyfalaf a Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd



Y prif brosiect a oedd ar waith yn ystod 2021 oedd gwaith i adeiladu'r Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol (CISM) ar Gampws y Bae, sy'n gyfleuster ymchwil a ariennir gan grant (£7.7m). Rhoddwyd prosiectau llai ar waith ar Gampws Parc Singleton, gan gynnwys gwaith ar gyfleusterau i addysgu'r rhaglen Fferylliaeth newydd (£1.1m) a Labordy Peilot Diwydiannau'r Sefydliad Heneiddio Creadigol (£0.8m).

Cynyddodd gwariant cyfalaf ar gyfarpar yn 2021 i £11.3m yn 2021.

## ARIAN PAROD A DYLED


Cynyddodd ***Arian Parod*** i £141.0m ar 31 Gorffennaf 2021, o £97.1m ar 31 Gorffennaf 2020.

Strategaeth ariannol y Brifysgol yw cynhyrchu digon o arian parod i ddarparu gwytnwch a'n galluogi i fuddsoddi yn yr ystâd ac mewn prosiectau isadeiledd. Yn ystod 2020/21, mabwysiadodd y Brifysgol ymagwedd ofalus at fynd i gostau, gan ganolbwyntio ar wariant hanfodol mewn perthynas â mesurau i gefnogi staff a myfyrwyr yn ystod y pandemig. Roeddem yn ddiolchgar iawn am y cyllid refeniw a chyfalaf untro ychwanegol gan lywodraethau Cymru a'r DU a helpodd i liniaru elfen sylweddol o'r gwariant ar COVID.

Cynyddodd gwariant gweithredu tua diwedd y flwyddyn ariannol gan arwain at gynnydd mewn croniadau ac arian parod, a derbyniwyd incwm ymchwil sylweddol ymlaen llaw yn ystod y flwyddyn a gyfrannodd hefyd at y cynnydd mewn arian parod a dyledwyr ar ddiwedd y flwyddyn.


O ganlyniad i'r cynnydd mewn arian parod ar 31 Gorffennaf 2021, gostyngodd ***dyled net*** i £95.0m, y lefel isaf mewn pedair blynedd, er gwaethaf manteisio ar fenthyciad Cynnal Arbenigedd Ymchwil (SURE) gwerth £7.3m gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

Arian Parod a Dyled £m




Gostyngodd y ddyled o ran trefniadau consesiwn gwasanaeth mewn perthynas â phreswylfeydd i £122.0m ar 31 Gorffennaf 2021 yn dilyn dad-ddirwyn y brydles (£2.9m).

Llif Arian Parod Gweithredu £m




Cynyddodd mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu i £48.5m o £15.7m yn 2019/20. Fel canran o incwm, dyma gynnydd o 4.9% yn 2019/20 i 13.4% yn 2020/21.

Mae arian parod net o weithgareddau gweithredu yn newidiol iawn, gan fod symudiadau mawr mewn dyledwyr a chredydwyr yn effeithio arno. Cafodd cynnydd o £15.5m mewn credydwyr ar 31 Gorffennaf 2021 ei gydbwyso'n rhannol yn unig gan gynnydd o £6.6m mewn dyledwyr a chyfrannodd hyn at y cynnydd mewn arian parod o £8.9m.

## DARPARIAETHAU PENSIWN

Mae'r Brifysgol yn aelod o Gynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS) sy'n darparu pensiynau ar gyfer staff academaidd a phroffesiynol. Adeg y prisiad teirblwydd diwethaf ym mis Mawrth 2018, roedd diffyg o £3.6bn gan y cynllun. Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd cyfran y Brifysgol o'r diffyg o £49.0m i £43.0m ar ôl talu £2.1m mewn cyfraniadau at y diffyg ac yn sgîl newid o £3.9m yn y ddarpariaeth i adlewyrchu'r cytundeb i adennill y diffyg, namyn costau llog.


Ar 1 Hydref 2021, cymeradwyodd yr Ymddiriedolwyr y prisiad teirblwydd diweddaraf. Mae'r prisiad diweddaraf yn cynyddu cyfran y Brifysgol o'r diffyg o £43.0m i £130.2m. Mae'r cynnydd yn y diffyg yn dilyn cynnydd bach mewn cyfraddau cyfraniadau a chyfnod hwy i adennill y diffyg o ganlyniad i'r penderfyniad gan y Cydbwyllgor Trafod i newid buddion.

Mae'r Brifysgol yn gweithredu cynllun pensiwn budd diffiniedig ar sail cyflog terfynol y gall gweithwyr anacademaidd gyfrannu ato, o'r enw Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS). Nid yw'r cynllun yn derbyn aelodau newydd. Yn ystod y flwyddyn gostyngodd y diffyg SUPS o £71.7m i £61.2m gan fod cynnydd o £12.6m mewn incwm cynhwysfawr yn cael ei gydnabod a thalwyd cyfraniadau diffyg.

Caiff y gofrestr o risgiau i'r sefydliad ei hadolygu'n rheolaidd gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg, ar ran y Cyngor.

Mae dosbarthiad risgiau'n adlewyrchu'r amgylchedd allanol presennol, yn anad dim, effaith barhaus COVID ar ein sefyllfa ariannol, ein gweithrediadau a'n pobl.

**Nifer y risgiau i'r Brifysgol fesul categori**




Fodd bynnag, mae'r risgiau pennaf o gofrestr y Brifysgol, yn ôl y sgôr risg weddilliol, yn adlewyrchu natur hirdymor achosion megis COVID, newidiadau mewn cyfraniadau a buddion pensiwn, pwysau llwyth gwaith, yn ogystal â'r angen a gydnabyddir i fuddsoddi yn ein hisadeiledd TG.

**Prif Risgiau**

| TEITL RISG | DISGRIFIAD O'R RISG | AMCAN STRATEGOL | CAMAU GWEITHREDU LLINIARU |
|---|---|---|---|
| TG – gallu i ddarparu gwasanaethau a gwytnwch | Diffyg buddsoddi mewn staffio, systemau, isadeiledd a chaledwedd TG yn arwain at wasanaethau'n methu, ar raddfa leol neu eang, gan greu effeithiau negyddol ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau i staff a myfyrwyr, diffyg cydymffurfiaeth a niwed i enw da'r Brifysgol. | Byddwn yn ehangu ac yn gwella ein hisadeiledd a'n profiadau digidol sy'n cefnogi ein cenhadaeth academaidd. | • Rhoi'r Strategaeth Ddigidol ar waith<br>• Datblygu achos busnes ac opsiynau ar gyfer cyflawni<br>• Datblygu cynllun rheoli asedau isadeiledd TG<br>• Nodi a llenwi swyddi allweddol newydd<br>• Creu Cynllun Adfer ar ôl Trychineb TG |
| Seiberddiogelwch | Trefniadau annigonol i reoli gwybodaeth reoli'n lleihau ein gallu i ddiogelu, prosesu a chyrchu gwybodaeth, gan arwain at seiber-ymosodiadau llwyddiannus, colli enw da, diffyg cydymffurfiaeth, dirwyon a chosbau a chynnydd mewn costau (adfer). | Byddwn yn ehangu ac yn gwella ein hisadeiledd a'n profiadau digidol sy'n cefnogi ein cenhadaeth academaidd. | • Adolygiad Seiberddiogelwch a gynhelir gan ymgynghorwyr allanol<br>• Adolygiad o drefniadau adrodd a llywodraethu mewn perthynas â'r swyddogaeth diogelwch gwybodaeth<br>• Datblygu achos busnes ac opsiynau ar gyfer cyflawni<br>• Nodi a llenwi swyddi allweddol newydd<br>• Adolygiad o drefniadau rheoli mynediad |



| TEITL RISG | DISGRIFIAD O'R RISG | AMCAN STRATEGOL | CAMAU GWEITHREDU LLINIARU |
|---|---|---|---|
| Cynlluniau pensiwn | Ein gallu cyffredinol i fforddio cynlluniau pensiwn buddion diffiniedig - USS a Chynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS).<br><br>Newidiadau posib yn USS o ganlyniad i brisiad 2020 yn arwain at gynnydd sylweddol yng nghyfraddau cyfraniad neu ostyngiad mewn buddion sy'n arwain at anniddigrwydd staff, gweithredu diwydiannol gan amharu ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau. | Byddwn yn gweithio gyda'n cymuned i ddyfeisio ffyrdd newydd o wobrwyo a chydnabod cydweithwyr, ac annog eu datblygiad personol a gyrfa. | • Ymgysylltu ag ymgynghoriadau ymddiriedolwyr USS ar brisiad 2020<br>• Ymgysylltu ag ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe<br>• Parhau i ymgysylltu'n wythnosol ag undebau'r campws<br>• Datblygu strategaeth i gyfathrebu â staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys gweminarau, darparu gwybodaeth, astudiaethau achos a fforwm Holi ac Ateb<br>• Ceisio cyngor proffesiynol annibynnol a phriodol ar bensiynau<br>• Adolygu cynlluniau parhad busnes |
| Morâl a lles staff | Cynnydd cyson mewn llwythau gwaith o ganlyniad i COVID, newidiadau strwythurol, y Rhaglen Drawsnewid a mentrau eraill yn arwain at ddirywiad ym morâl staff, gan greu cynnydd mewn straen, absenoldeb a niferoedd staff sy'n gadael, gostyngiad mewn lles, ymrwymiad a chynhyrchiant. | Byddwn yn gweithio gyda'n cymuned i ddyfeisio ffyrdd newydd o wobrwyo a chydnabod cydweithwyr, ac annog eu datblygiad personol a gyrfa. | • Cyfathrebu clir, amserol a thryloyw â staff a'r undebau<br>• Monitro gwasanaethau iechyd a lles yn ofalus<br>• Datblygu cynlluniau ar gyfer y 'normal newydd' i gynnwys hyblygrwydd i gyflogeion<br>• Cynnal arolygon pwls i wahodd staff i roi adborth<br>• Darparu hyfforddiant arweinyddiaeth i sicrhau bod sgiliau priodol gan staff |
| Perthnasoedd strategol | Diffyg goruchwyliaeth, llywodraethu a chydlynu canolog yn arwain at fethiant i reoli perthnasoedd strategol allweddol yn briodol, gan arwain at fethiant i optimeiddio buddion ac alinio ag amcanion strategol. | Byddwn yn adeiladu partneriaethau lleol a rhanbarthol go iawn sy'n seiliedig ar dryloywder, atebolrwydd a phwrpas a rennir, a fydd yn ysgogi datblygiad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru a'r tu hwnt | • Cofrestri rhanddeiliaid allweddol lleol<br>• Rhestr o berthnasoedd allweddol ar lefel y Brifysgol<br>• Adolygu polisïau a phrosesau perthnasol i sicrhau eu bod yn ddigon eglur, yn enwedig mewn perthynas â llywodraethu a'r angen am dryloywder |

| TEITL RISG | DISGRIFIAD O'R RISG | AMCAN STRATEGOL | CAMAU GWEITHREDU LLINIARU |
|---|---|---|---|
| Recriwtio myfyrwyr rhyngwladol | Covid-19, Brexit, newidiadau yng nghyfreithiau trethiant rhyngwladol, heriau o ran gweithdrefnau derbyn mewnol a chystadleuaeth gynyddol yn amharu ar ein gallu i ragamcanu niferoedd myfyrwyr rhyngwladol a gaiff eu recriwtio, gan arwain at ostyngiad yn ein cynaliadwyedd ariannol. | Byddwn yn cynllunio'n gyfrifol i sicrhau ein bod yn wydn yn ariannol a'n bod yn gallu buddsoddi yn y sylfeini a fydd yn cefnogi ein gweithgareddau craidd. | • Penodi Dirprwy Is-ganghellor (Rhyngwladol)<br>• Llunio a chymeradwyo Strategaeth Ryngwladol<br>• Archwilio cyfleoedd ychwanegol am Addysg Drawswladol<br>• Partneriaeth barhaus â Navitas<br>• Manteisio ar gyfleoedd mewn marchnadoedd amrywiol |
| Recriwtio myfyrwyr cartref | Covid-19, newidiadau ym mhroses arholiadau Safon Uwch a chystadleuaeth gynyddol yn amharu ar ein gallu i recriwtio nifer y myfyrwyr a ragamcanwyd, gan arwain at ostyngiad yn ein cynaliadwyedd ariannol. | Byddwn yn cynllunio'n gyfrifol i sicrhau ein bod yn wydn yn ariannol a'n bod yn gallu buddsoddi yn y sylfeini a fydd yn cefnogi ein gweithgareddau craidd. | • Goruchwyliaeth gan y Bwrdd Strategaeth Recriwtio a Throsi<br>• Lefelau gwell a thargedu marchnata<br>• Newid strategol i ganolbwyntio ar recriwtio yn y flwyddyn a dibynnu'n llai ar glirio<br>• Adolygu ac adnewyddu gweithgareddau recriwtio o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli |
| Cynaliadwyedd Ariannol | Aneffeithiolrwydd wrth roi cynlluniau ar waith yn arwain at fethiant i dyfu incwm net, rhyddhau arbedion a gwella ffyrdd o weithio, gan gael effaith negyddol ar enw da'r sefydliad ac ar gynaliadwyedd ariannol y Brifysgol. | Byddwn yn cynllunio'n gyfrifol i sicrhau ein bod yn wydn yn ariannol a'n bod yn gallu buddsoddi yn y sylfeini a fydd yn cefnogi ein gweithgareddau craidd. | • Proses cynllunio busnes gynhwysfawr gan gynnwys monitro perfformiad<br>• Monitro ymhellach drwy gyfrifon rheoli misol<br>• Adrodd ar berfformiad i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a'r Cyngor<br>• Tîm prosiect penodol yn darparu cymorth i roi'r rhaglen Drawsnewid ar waith.<br>• Cymorth cyllid strategol gan Bartneriaid Busnes penodol |
| Ymateb i Covid ac adferiad | Covid-19 - ymateb ac adferiad - yn parhau i amharu ar waith staff a myfyrwyr, gan gael effeithiau hirdymor ar alluedd/alluoedd staff recriwtio myfyrwyr, addysgu, ymchwil a chynaliadwyedd ariannol. | Byddwn yn cynllunio'n gyfrifol i sicrhau ein bod yn wydn yn ariannol a'n bod yn gallu buddsoddi yn y sylfeini a fydd yn cefnogi ein gweithgareddau craidd. | • Bydd y grŵp gweithrediadau Covid-19 yn datblygu'n Grŵp Adferiad, dan gadeiryddiaeth y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu i ymdrin â materion penodol.<br>• Datblygu polisïau ac arferion gweithio newydd i'n helpu i ailgydio mewn gweithrediadau<br>• Trefniadau rheoli rhaglen ar waith i gydlynu'r gwaith<br>• Cynllunio a modelu ariannol sy'n cynnwys effaith senarios, argaeledd trefniadau wrth gefn a phenderfyniadau buddsoddi. |

# Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol

Mae'r Brifysgol yn ymdrechu i ymgymryd â'i gweithgareddau yn unol â Chôd Llywodraethu Addysg Uwch a Chôd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Staff Addysg Uwch Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol, ac yn unol ag egwyddorion Nolan a nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, tryloywder, gonestrwydd ac arweinyddiaeth).

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i'r safonau uchaf o dryloywder, uniondeb ac atebolrwydd, ac mae'n ceisio ymgymryd â'i gweithgareddau mewn modd cyfrifol ac mae ganddi Bolisi Datgelu er Lles y Cyhoedd er mwyn galluogi staff, myfyrwyr ac aelodau eraill o'r Brifysgol i fynegi pryderon sydd er budd y cyhoedd.

## CYFANSODDIAD A PHWERAU

Mae'r Brifysgol yn gorfforaeth annibynnol, y mae ei statws cyfreithiol yn deillio o Siarter Frenhinol a roddwyd yn wreiddiol ym 1920. Amlinellir ei hamcanion, ei phwerau a'i fframwaith llywodraethu yn ei Siarter Gyfredol ('y Siarter Atodol') a gymeradwywyd gan y Cyfrin Gyngor yn 2007, ac yn ei Statudau cefnogol, y cymeradwywyd y diwygiadau diweddaraf iddynt gan y Cyfrin Gyngor yn 2021. Cofrestrwyd y Brifysgol yn elusen ym mis Hydref 2010 (rhif 1138342).

Mae'r Siarter a'r Statudau'n gofyn i'r Brifysgol sefydlu tri chorff ar wahân, pob un â swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, i oruchwylio a rheoli ei gweithgareddau:

## Y CYNGOR

Y Cyngor yw'r corff llywodraethu ac felly, hwn yw awdurdod goruchaf y Brifysgol, sy'n golygu bod ganddo atebolrwydd terfynol am ymddygiad a gweithgarwch y Brifysgol a'i chynrychiolwyr. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y Brifysgol, ac am gyllid, eiddo, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y Brifysgol.

Mae'r Cyngor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac mae'n arfer ei gyfrifoldebau drwy'r pwyllgorau rheoli gweithredol a sefydlog a nodir isod. Yn ystod 2020/21, cynhaliodd y Cyngor naw cyfarfod, gan gynnwys pum cyfarfod arbennig, a chanolbwyntiodd ar faterion llywodraethu, ariannol a rheoleiddio, busnes anghyffredin a phandemig COVID-19. Cynhaliwyd pob un o'r cyfarfodydd hyn namyn un o bell. Mae'r Cyngor hefyd wedi derbyn adroddiadau rheolaidd am ymateb y Brifysgol i bandemig COVID-19.

Mae aelodaeth y Cyngor yn cynnwys aelodau annibynnol (a ddisgrifir fel aelodau lleyg), aelodau o blith staff a myfyrwyr a benodir yn unol â Statudau'r Brifysgol. Ni fydd aelodau'r Cyngor yn uwch na 19 ac mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor yn aelodau gweithredol lleyg nad ydynt yn aelodau staff nac yn fyfyrwyr cofrestredig y Brifysgol. Gan fod y Brifysgol yn elusen gofrestredig, mae'r Cyngor hefyd yn gweithredu fel Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac mae aelodau'r Cyngor hefyd yn Ymddiriedolwyr Elusen. Nid oes unrhyw un o'r aelodau lleyg yn derbyn tâl ar wahân i ad-dalu treuliau am waith maent yn ei wneud ar ran y Brifysgol. Mae aelodau lleyg o'r Cyngor yn gwasanaethu am gyfnod o bedair blynedd ond gellir eu hailbenodi am gyfnod arall o bedair blynedd. Nid oes neb ond aelod lleyg yn gallu ymgymryd â rôl Cadeirydd y Cyngor ac mae'r rôl hon ar wahân i rôl Prif Weithredwr y Brifysgol, sef yr Is-ganghellor.

## CÔD LLYWODRAETHU PWYLLGOR Y CADEIRYDDION PRIFYSGOL (CUC)

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i safonau uchel o lywodraethu corfforaethol ac mae'n ymdrechu'n barhaus i wella ei llywodraethu yn unol ag arfer gorau yn y sector addysg uwch. Datblygwyd strwythur llywodraethu'r Brifysgol i gydweddu â'r egwyddorion a'r arferon a amlinellir yng Nghôd Llywodraethu Addysg Uwch CUC a ddiwygiwyd yn 2020. Comisiynodd y Cyngor Adolygiad Allanol o Effeithiolrwydd yn 2019, a gynhaliwyd gan James O'Kane, cyn-Gofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu Prifysgol y Frenhines Belfast. Daeth yr Adolygiad Allanol hwn i'r casgliad bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n briodol ac yn effeithiol fel corff llywodraethu'r Brifysgol. Nodwyd nifer o argymhellion i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i weithredu'n gyson â'r Côd a'i fod yn gwella ei arfer, ac er mwyn sicrhau Cyngor addas at y diben. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain

bellach wedi cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys sawl argymhelliad allweddol ynghylch aelodaeth y Cyngor, gan gynnwys lleihau aelodaeth y Cyngor o 28 i 19, a oedd yn gofyn am ddiwygio'r Statudau. Cymeradwywyd y diwygiadau hyn gan y Cyfrin Gyngor ym mis Mawrth 2021 ac maent bellach wedi cael eu rhoi ar waith. Caiff gweddill yr argymhellion eu hystyried ochr yn ochr â'r argymhellion o'r adolygiad annibynnol o lywodraethu yng Nghymru, a arweiniwyd gan Gillian Camm (Adolygiad Camm), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020. Disgwylir i'r adolygiad annibynnol nesaf o effeithiolrwydd llywodraethu gael ei gynnal yn ystod blwyddyn academaidd 2022-23. Mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021, gall y Cyngor adrodd nad oedd unrhyw elfen o'r Côd Llywodraethu nad oedd gweithdrefnau'r Brifysgol yn gyson â hi.

### ADOLYGIAD O LYWODRAETHU PRIFYSGOLION YNG NGHYMRU

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i roi argymhellion Adolygiad Camm ar waith y mae llawer ohonynt yn gyson ag argymhellion yr Adolygiad Allanol o Effeithiolrwydd a gomisiynwyd gan y Cyngor ei hun a'r cynllun gweithredu a nodwyd gan CCAUC ym mis Rhagfyr 2019. Ym mis Medi 2020, mabwysiadodd y Cyngor yn ffurfiol y Siarter Lywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru a'r Ymrwymiad i Weithredu a gyhoeddwyd mewn ymateb i Adolygiad Camm. Er y bu'n rhaid gohirio rhai camau gweithredu o ganlyniad i bandemig COVID-19, gwnaed cynnydd da drwy gydol 2020/21 gan gynnwys:

- mewn perthynas â deall diwylliant, mae'r Brifysgol wedi datblygu Gweledigaeth Strategol a Phwrpas y Brifysgol, drwy broses ymgynghori eang a oedd yn cynnwys staff a myfyrwyr ym mhob rhan o'r Brifysgol, sy'n rhoi pobl, gwerthoedd, diwylliant ac ymddygiad wrth ei gwraidd; mae hefyd wedi cynnwys ffrwd waith Arweinyddiaeth, Diwylliannau a Gwerthoedd yn rhaglen Trawsnewid y Brifysgol er mwyn ehangu'r gwaith a wnaed eisoes i alinio a chreu ymagwedd ar sail gwerthoedd sy'n hyrwyddo diwylliant y Brifysgol ac yn adlewyrchu'r Brifysgol gyfan. Mae'r Brifysgol hefyd wedi gwella cysylltiadau â staff drwy gyfathrebu rheolaidd ac amserol, gweminarau a sesiynau holi ac ateb yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth, Arolygon Lles Staff a Mewnrwyd newydd y Staff; ac fel rhan o broses werthuso'r Archwiliad Mewnol, nodwyd meysydd a fyddai'n elwa o welliannau diwylliannol;
- mewn perthynas ag ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae'r Brifysgol wedi parhau i ymgysylltu â'i rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cyflwyno cyfarfodydd ymgysylltu wythnosol rhwng yr Undebau Llafur a'r Swyddogion Gweithredol. Cynhelir cyfarfodydd misol anffurfiol rhwng yr Undebau Llafur a Chadeirydd y Cyngor bellach, ond mae'r Cyngor hefyd yn adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Ymgynghori â Staff gan ymgynghori â'r Undebau Llafur, ac yn ystod 2020/21 bydd yn adolygu ei arferion gan ystyried y canllaw i arfer da arfaethedig o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid a rôl bwysig a dylanwadol Llys y Brifysgol wrth gynrychioli rhanddeiliaid y Brifysgol;
- wrth ystyried maint a chyfansoddiad y Cyngor, gyda chymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor (fel y nodir uchod), mae'r Cyngor wedi diwygio Statudau'r Brifysgol mewn perthynas ag aelodaeth y Cyngor i leihau'r aelodaeth, er mwyn sicrhau mwyafrif o aelodau lleyg, cyfyngu ar hyd tymhorau aelodaeth ac ehangu rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau wrth arwain ar benodi'r holl aelodau lleyg. Mae'r Cyngor hefyd wedi adolygu a diffinio ei rolau a'i gyfrifoldebau llywodraethu ar gyfer ei rolau swyddog statudol - Cadeirydd y Cyngor, y Dirprwy Ganghellor a Thrysorydd y Brifysgol;
- mewn perthynas â sicrhau trosolwg strategol effeithiol, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Gweledigaeth Strategol a Phwrpas newydd y Brifysgol, mae'n datblygu dangosyddion perfformiad allweddol a dulliau eraill ar gyfer mesur a monitro perfformiad, ac mae wedi cynnal adolygiad o Bwyllgorau'r Cyngor gan gyfeirio at ofynion rheoleiddio ac arfer gorau ar draws y sector. Oherwydd pandemig COVID-19, ni chynhaliwyd Diwrnodau Encil i'r Cyngor yn ystod 2020/21; fodd bynnag, mae diwrnodau encil wedi'u trefnu i'w cynnal ym mis Medi a mis Hydref 2021;
- mewn perthynas ag annibyniaeth llywodraethwyr lleyg a rheoli gwrthdaro, mae'r Brifysgol yn gweithredu ymagwedd gadarn at nodi a rheoli gwrthdaro buddiannau ar gyfer ei holl staff, aelodau'r Cyngor ac unrhyw unigolyn sy'n gweithredu ar ran y Brifysgol. Fel rhan o'r broses penodi darpar aelodau lleyg y Cyngor, gofynnir i unigolion wneud datganiad o fuddiannau sy'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau i sicrhau nad oes gan yr unigolyn fuddiant a all effeithio ar ei allu i herio mewn modd effeithiol ac adeiladol a/neu a all ei atal rhag cael ei benodi'n aelod lleyg o'r Cyngor a/neu'n Ymddiriedolwr Elusen. Gofynnir i aelodau lleyg o'r Cyngor wneud datganiad o fuddiannau wrth gael eu penodi i'r Cyngor, i ddiweddaru eu datganiad pryd bynnag y bydd hyn yn newid, ac i adolygu eu datganiad o leiaf unwaith y flwyddyn. Caiff datganiadau eu hadolygu gan y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd i'r Cyngor, yn unol â pholisi a gweithdrefn y Brifysgol ynghylch Datganiadau o Fuddiannau er mwyn sicrhau nad oes gwrthdaro posib neu ymddangosiadol, neu os oes, bod y rhain yn cael eu rheoli neu eu lliniaru'n briodol. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r disgrifiad rôl ar gyfer yr Ysgrifennydd i'r Cyngor, a ddatblygwyd mewn ymateb i Adolygiad Camm, ac mae'n cynnwys datganiad clir am atebolrwydd yr Ysgrifenydd am dynnu materion annibyniaeth neu wrthdaro at sylw'r Cadeirydd. Mae'r Ysgrifennydd i'r Cyngor hefyd yn cynnal cofrestr o fuddiannau holl aelodau'r Cyngor, sy'n cael ei hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Ar ddechrau holl gyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor, gofynnir i'r holl aelodau nodi unrhyw eitemau penodol y gall buddiannau a ddatgelwyd effeithio arnynt. Os yw'n briodol, nid yw aelodau'n cymryd rhan yn y drafodaeth neu'r penderfyniad perthnasol, a/neu gallant adael y cyfarfod ar yr adeg briodol. Cofnodir unrhyw ddatganiadau a nodwyd a chyfraniad yr aelod at eitemau penodol yng nghofnodion y cyfarfod. Ar hyn o bryd, mae dogfennau llywodraethu'r Brifysgol yn diffinio 'annibynnol' fel unigolion nad ydynt yn aelodau staff nac yn fyfyrwyr cofrestredig y Brifysgol. Mae'r Cyngor hefyd yn adolygu ei arferion sefydliadol gan ystyried y canllaw i annibyniaeth aelodau lleyg a ddatblygwyd mewn ymateb i Adolygiad Camm;
- wrth recriwtio aelodau lleyg, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac mae'n ymdrechu i fod yn gynhwysol, gan werthfawrogi natur amrywiol staff, myfyrwyr a chymuned y Brifysgol. Mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau, mae'r Cyngor wedi adolygu ei brosesau recriwtio a phenodi ar gyfer holl aelodau'r Cyngor, gan gynnwys ei aelodau lleyg, er mwyn sicrhau eu bod yn glir ac yn dryloyw, i wella ei ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb, ac i sicrhau ei fod yn rhoi sylw dyladwy i sgiliau a phrofiad cyffredinol y Cyngor. Fel rhan o hyn, cyflwynwyd matrics sgiliau a phrofiad newydd ar gyfer aelodau lleyg. Caiff cyfleoedd i Aelodau Lleyg ymuno â'r Cyngor eu hysbysebu'n allanol ac mae croeso arbennig i aelodau grwpiau a dangynrychiolir fynegi diddordeb. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau'n gyfrifol am oruchwylio'r broses recriwtio, am ystyried mynegiannau o ddiddordeb yn erbyn matrics sgiliau a phrofiad presennol y Cyngor i sicrhau bod gan aelodau'r sgiliau a'r profiad sy'n bodloni gofynion y Cyngor, ac am argymell aelodau lleyg newydd i'r Cyngor eu cymeradwyo;
- mewn perthynas â llywodraethu cydnabyddiaeth ariannol, yn dilyn adolygiad o'i lywodraethu cydnabyddiaeth ariannol ym mis Gorffennaf 2018, ac ar ôl i'r Cyngor fabwysiadu Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Staff Uwch AU y CUC, cynhaliwyd adolygiad arall o gylch gorchwyl ei Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol gan ystyried argymhellion Adolygiad Camm a chanlyniadau'r adolygiad annibynnol o Gôd Cydnabyddiaeth Ariannol y CUC a gynhaliwyd yn y DU ar ran y CUC gan Advance HE ym mis Tachwedd 2020;
- mewn perthynas â chynllunio dilyniant, yn dilyn adolygiad o Bwyllgorau'r Cyngor, mae'r Cyngor wedi adolygu ac ehangu cylch gorchwyl ei Bwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau i gynnwys trosolwg o gynllunio dilyniant, gan gynnwys adolygu ymagwedd

y Brifysgol at gynllunio dilyniant aelodau'r Cyngor a monitro cynllunio dilyniant ar gyfer rolau allweddol y Brifysgol;

- mewn perthynas ag amrywiaeth a chynwysoldeb, yn ogystal â gwaith o ran recriwtio aelodau lleyg (a nodir uchod), mae'r Brifysgol wedi gwella'r broses o gasglu a dadansoddi data am nodweddion gwarchodedig holl aelodau'r Cyngor a Phwyllgorau eraill y Cyngor, a datblygu adroddiad estynedig am amrywiaeth i alluogi'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau i fonitro amrywiaeth pob pwyllgor er mwyn llywio ei ddealltwriaeth o feysydd targed ar gyfer gwella amrywiaeth. Y cydbwysedd rhwng y rhywiau ar aelodaeth y Cyngor ar hyn o bryd yw 44% (gwrywod)/56% (benywod). Bydd y Cyngor hefyd yn adolygu ei arferion sefydliadol gan ystyried y gwaith a wneir gan y sector yng Nghymru o ran datblygu strategaeth amrywio, a recriwtio a sefydlu aelodau'r Cyngor, a bydd yn adrodd i'r Cyngor am strategaethau i sicrhau bod y Cyngor yn adlewyrchu'r gymuned mae'n ei gwasanaethu;
- mewn perthynas â rheoli risg, mae gan y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg drosolwg o Archwilio Mewnol a rheoli risg, ac mae'r Cyngor wedi adolygu a chytuno ar gylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor ar sail arweiniad yng Nghôd Ymarfer Pwyllgorau Archwilio AU newydd y CUC. Yn ystod 2020, cyflwynodd y Brifysgol bolisi a fframwaith rheoli risg newydd gan sicrhau bod risgiau'n cydweddu â Gweledigaeth Strategol a Phwrpas y Brifysgol a'u bod yn cael eu rheoli yn unol â'r egwyddorion craidd canlynol: eglurder, cwmpas, ymateb priodol, perchnogaeth a chyfrifoldeb a'u bod yn cael eu neilltuo i gategorïau strategol, gweithredol a phrosiect. Mae'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth hefyd wedi cyflwyno Bwrdd Prosiect Cyfleoedd Strategol sydd â goruchwyliaeth o'r holl brosiectau mawr, gan gynnwys eu llywodraethu, achosion busnes, a monitro cyflawniad. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn goruchwylio'r archwiliad mewnol, yn adolygu'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Rhaglen Archwilio gan roi sylw i gofrestr risgiau'r Brifysgol, yn monitro perfformiad ac effeithiolrwydd yr Archwiliad Mewnol yn flynyddol ac yn cwrdd ar wahân â Phennaeth yr Archwiliad Mewnol yn rheolaidd. Adolygir effeithiolrwydd y swyddogaeth archwilio mewnol fel rhan o'r Archwiliad Allanol. Mae'r Pwyllgor a Chadeirydd y Pwyllgor yn cwrdd yn rheolaidd â Phennaeth yr Archwiliad Allanol;
- mewn perthynas â chwythu'r chwiban, mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn derbyn adroddiadau sefydlog ym mhob cyfarfod a'r camau gweithredu a gymerwyd yn unol â pholisïau moesegol y Brifysgol a'i pholisïau eraill sy'n ymwneud ag ymddygiad gan gynnwys chwythu'r chwiban. Mae Polisi Chwythu'r Chwiban y Brifysgol, sydd ar gael i'r holl staff ar wefan y Brifysgol, yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag arweiniad a deddfwriaeth, a'i fod yn addas at y diben, yn hawdd ei gyrchu a'i ddefnyddio. Bydd y Cyngor hefyd yn derbyn adroddiad blynyddol mewn perthynas â chwythu'r chwiban;
- mewn perthynas ag adrodd blynyddol, mae'r Brifysgol yn parhau i wneud cynnydd wrth roi'r templed newydd ar gyfer adrodd blynyddol ar waith, fel yr argymhellwyd gan Adolygiad Camm;
- mewn perthynas â gwybodaeth, mae Gweledigaeth Strategol a Phwrpas y Brifysgol yn disgrifio gweledigaeth drosfwaol y Brifysgol, fel rhan o ymagwedd Cynllun Strategol â gwahanol lefelau, sy'n cynnwys nifer o bileri strategol a gefnogir gan alluogwyr strategol sy'n nodi targedau, gweithgareddau a mesurau llwyddiant. Mae'r Brifysgol yn datblygu dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y sefydliad i alluogi'r Cyngor i werthuso perfformiad y Brifysgol yn erbyn y targedau, y gweithgareddau a'r mesurau hyn a nodwyd;
- mewn perthynas â datblygu llywodraethwyr, drwy ei Bwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau, mae'r Cyngor wedi rhoi proses sefydlu strwythuredig ar waith i gefnogi holl aelodau newydd y Cyngor, yn ogystal â darparu hyfforddiant a chymorth mewnol ac allanol parhaus i'r holl aelodau i sicrhau eu bod yn gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr. Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r cymorth hwn yn barhaus a bydd hefyd yn adolygu arferion y sefydliad gan ystyried y gwaith a wneir ym maes recriwtio a sefydlu yn y sector yng Nghymru, a chan gyfeirio at yr 'hyb' adnoddau a gwybodaeth datblygu llywodraethwyr sy'n cael ei ddatblygu gan CCAUC.

## Y SENEDD

Y Senedd, a sefydlwyd gan Siarter y Brifysgol, yw awdurdod academaidd y Brifysgol a daw ei haelodau'n gyfan gwbl o blith staff academaidd a myfyrwyr y sefydliad. Amlinellir aelodaeth, pwerau a dyletswyddau'r Senedd yn Ordinhad 4, sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Ei Chadeirydd yw'r Is-ganghellor ac mae ei haelodaeth yn cynnwys y Profost, y Dirprwy Is-gangellorion, y Dirprwy Is-gangellorion cynorthwyol a'r Deoniaid Gweithredol, yr holl staff athrawol, Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion Byrddau'r Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu a Deoniaid Cysylltiol y cyfadrannau, pedwar ar ddeg cynrychiolydd a etholir o blith y staff nad ydynt yn athrawon ac wyth myfyriwr a benodir gan Undeb y Myfyrwyr. Mae'r Senedd yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn fel arfer. Yn ystod sesiwn academaidd 2020/21, cynhaliodd y Senedd dri chyfarfod, pob un o bell. Mae'r Senedd wedi sefydlu pum pwyllgor i'w chynorthwyo wrth gyflawni ei chyfrifoldebau: y Pwyllgor Strategaeth Ymchwil ac Arloesi, y Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu, y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn, y Pwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil a Grŵp Strategaeth yr Iaith Gymraeg.

## Y LLYS

Mae'r Llys, a sefydlwyd gan Siarter y Brifysgol, yn gorff mawr a ffurfiol i raddau helaeth, sy'n gweithredu fel fforwm i'r gymuned ehangach ymgysylltu â'r Brifysgol. Amlinellir aelodaeth, pwerau a dyletswyddau'r Llys yn Ordinhad 6, sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Canghellor y Brifysgol yw Cadeirydd y Llys a daw'r rhan fwyaf o'i aelodau o'r tu allan i'r Brifysgol, gan gynrychioli'r gymuned leol a chyrff dynodedig eraill sydd â diddordeb yng ngwaith y Brifysgol. Mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith staff y Brifysgol (academaidd a staff eraill) a'r myfyrwyr. Mae'r Llys fel arfer yn cwrdd unwaith y flwyddyn i dderbyn adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol wedi'u harchwilio'r Brifysgol. Oherwydd pandemig COVID-19, cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Llys ar 4 Chwefror 2020.

## SWYDDOG ATEBOL

Yr Is-ganghellor yw prif weithredwr a phrif swyddog academaidd a gweinyddol y Brifysgol. Mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol i'r Cyngor am gynnal a hybu effeithlonrwydd a threfniadaeth dda y Brifysgol. Yn ôl telerau'r memorandwm ariannol ffurfiol rhwng y Brifysgol a CCAUC, yr Is-ganghellor yw swyddog atebol y Brifysgol ac, yn y rhinwedd honno, gellir gorchymyn iddo ymddangos ger bron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru ochr yn ochr â Phrif Weithredwr CCAUC.

## TÎM GWEITHREDOL

Fel prif weithredwr y Brifysgol, mae gan yr Is-ganghellor gyfrifoldeb am ddatblygu strategaeth y sefydliad, nodi a chynllunio datblygiadau newydd, a llunio ethos y sefydliad. Mae aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth a Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau Proffesiynol i gyd yn cyfrannu mewn ffyrdd amrywiol at yr agweddau hyn ar y gwaith, ond y Cyngor sydd ag awdurdod terfynol. Mae aelodaeth yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth, sy'n cael ei gadeirio gan yr Is-ganghellor, yn cynnwys y Profost, y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu, y Dirprwy Is-gangellorion, y Dirprwy Is-gangellorion Cynorthwyol a'r Deoniaid Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cyllid.

## PWYLLGORAU

Mae'r Cyngor wedi sefydlu pedwar pwyllgor llywodraethu, sy'n ymdrin â llawer o'i waith manwl i ddechrau: Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg; Pwyllgor Cyllid a Strategaeth; Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau; a Phwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol. Caiff pob un o'r pwyllgorau hyn ei gadeirio gan aelodau lleyg o'r Cyngor ac aelodau lleyg yw'r rhan fwyaf o'u haelodau. Mae uwch-swyddogion o'r Brifysgol yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen. Mae'r holl bwyllgorau'n hysbysu'r Cyngor am eu penderfyniadau. Mae ganddynt gyfansoddiad ffurfiol a chaiff eu chylchoedd gorchwyl a'u haelodaeth eu cymeradwyo gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Diffinnir rôl yr Ysgrifennydd i'r Cyngor yn Ordinhadau'r Brifysgol ac mae'r Ysgrifennydd i'r Cyngor hefyd yn gweithredu fel

Ysgrifennydd i'r rhan fwyaf o Bwyllgorau'r Cygnor.

### Y PWYLLGOR CYLLID A STRATEGAETH

Mae'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn goruchwylio ac yn monitro iechyd ariannol y Brifysgol ar ran y Cyngor. Cadeirydd y Pwyllgor yw Trysorydd y Brifysgol (Mr Goi Ashmore), aelod lleyg o'r Cyngor a benodir gan y Cyngor, ac yn ystod 2020/21 roedd ei aelodaeth yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor (Mr Bleddyn Phillips), aelodau lleyg o'r Cyngor (yr Athro Edward David a Dr Angus Muirhead), aelodau lleyg cyfetholedig (Ms Amerjit Barret (o fis Mai 2021), Mr Huw Jones (tan fis Gorffennaf 2021), Ms Jeanette McLellan (tan fis Ionawr 2021), Mr Steve Smith a Mr Eifion Williams (tan fis Mawrth 2021)), yr Is-ganghellor (yr Athro Paul Boyle) a'r Profost (yr Athro Steve Wilks). Yn ystod y flwyddyn, ymddeolodd y tri aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor ar ôl gwasanaethu am nifer o flynyddoedd a phenodwyd un aelod newydd drwy'r broses recriwtio aelodau lleyg newydd i'r Cyngor. Yn unol â Chôd Rheoli Ariannol CCAUC, nid oes croes-gynrychiolaeth rhwng y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg.

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn fel arfer. Yn ystod 2020/21, cynhaliodd y Pwyllgor wyth cyfarfod, yr oedd dau ohonynt yn gyfarfodydd arbennig a ganolbwyntiodd ar y materion ariannol mewn cysylltiad â phandemig COVID-19. Cynhaliwyd pob un heblaw am un o'r cyfarfodydd hyn o bell. Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn yn uchel - bu dros 90% o'r aelodau'n bresennol mewn saith cyfarfod ac 80% yn bresennol mewn un cyfarfod.

Prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yw (i) sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor canolig a hir y Brifysgol drwy adolygu sefyllfa ariannol y Brifysgol yn rheolaidd, (ii) sicrhau bod y Brifysgol yn gweithredu system rheoli ariannol mewnol gadarn, (iii) monitro perfformiad a chydymffurfiaeth ariannol, (iv) cynnal trosolwg ariannol o bob strategaeth berthnasol a (v) chwarae rôl feirniadol wrth gymhwyso egwyddorion prawf a her i bob penderfyniad ariannol. Mae'r Pwyllgor yn cynghori ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â phob mater ariannol.

Yn ystod 2020/21, canolbwyntiodd busnes y Pwyllgor ar yr heriau i gynaliadwyedd ariannol yr oedd y Brifysgol a'r sector yn eu hwynebu, o ganlyniad yn bennaf i bandemig COVID-19, rheoli risgiau ariannol allweddol gan gynnwys rheoli llif arian parod ac ymrwymiadau ariannol, prosesau cynllunio busnes, blaenoriaethau a chyfleoedd buddsoddi strategol, pensiynau, contractau rheoli cyfleusterau a'r Strategaeth Ystadau. Mewn ymateb i effaith ariannol bosib yr heriau o ran cynlluniau pensiwn yr oedd y Brifysgol a'r sector yn eu hwynebu, gyda chymeradwyaeth y Cyngor, sefydlodd y Pwyllgor Is-bwyllgor Pensiynau i ddarparu swyddogaeth trosolwg strategol, arweiniad a monitro mewn perthynas â'r holl faterion pensiwn a gwneud argymhellion i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a'r Cyngor, fel y bo'n briodol.

### Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ENWEBIADAU

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau'n adolygu trefniadau llywodraethu'r Brifysgol ac yn cynghori'r Cyngor arnynt, gan sicrhau bod y Brifysgol yn defnyddio ymarfer gorau ac yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu allanol. Yn sgîl adolygiad o Bwyllgorau'r Cyngor, cymeradwyodd y Cyngor gylch gorchwyl ac aelodaeth ddiwygiedig ar gyfer y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2020 ac, ym mis Chwefror 2021, diweddarodd y cyfansoddiad i gynyddu nifer yr aelodau lleyg o ddau i dri er mwyn sicrhau bod y rhan fwyaf o aelodau'r Pwyllgor yn rhai lleyg. Cadeirydd y Pwyllgor yw Cadeirydd y Cyngor (Mr Bleddyn Phillips) ac yn ystod 2020/21 ei aelodau oedd y Dirprwy Ganghellor (Syr Roderick Evans), aelodau lleyg o'r Cyngor (Ms Elin Rhys, yr Athro Keshav Singhal a Mrs Anne Tutt), yr Is-ganghellor (yr Athro Paul Boyle), aelodau o'r staff a benodwyd gan y Senedd (yr Athro Elwen Evans CF a'r Athro Ryan Murphy) a Llywydd Undeb y Myfyrwyr (Ffion Davies).

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn fel arfer. Yn ystod 2020/21, cynhaliodd y Pwyllgor bum cyfarfod, yn eu plith cyfarfod arbennig a ganolbwyntiodd ar aelodaeth y Cyngor ac argymhellion ar recriwtio, a ddeilliodd o argymhellion yr Adroddiad Allanol o Effeithiolrwydd y Cyngor ac Adolygiad Camm. Cynhaliwyd pob cyfarfod o bell. Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn yn uchel. Bu dros 80% o aelodau'n bresennol mewn tri chyfarfod a 100% o aelodau'n bresennol mewn dau gyfarfod.

Prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau yw (i) sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion llywodraethu allanol, (ii) adolygu aelodau y Cyngor a'i Bwyllgorau gan sicrhau bod ganddo'r cydbwysedd angenrheidiol o sgiliau a phrofiad i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau, (iii) adolygu dogfennau llywodraethu'r Brifysgol ac argymell newidiadau iddynt, (iv) adolygu a chynghori ar brosesau recriwtio a phenodi aelodau lleyg y Cyngor a'i bwyllgorau a gwneud argymhellion ynghylch y rhain, (v), adolygu a chynghori ar gynllunio am ddilyniant a gwneud argymhellion ar hyn, (vi) goruchwylio sefydlu, datblygu ac arfarnu aelodau'r Cyngor, (vii) adolygu cofrestr buddiannau'r Cyngor a sicrhau bod proses gadarn ar waith i nodi gwrthdaro buddiannau posib ac (viii) adolygu amrywiaeth y Cyngor a'i Bwyllgorau.

Yn ystod 2020/21 canolbwyntiodd busnes y Cyngor ar weithredu argymhellion yr Adolygiad Allanol o Effeithiolrwydd y Cyngor ac Adolygiad Camm, a Chôd Llywodraethu AU diwygiedig y CUC. Yn benodol, rhoddodd y Cyngor brosesau recriwtio a phenodi diwygiedig ar waith ar gyfer aelodau'r Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor, goruchwyliodd y broses newydd ar gyfer datgan buddiannau a chofrestr buddiannau aelodau'r Cyngor, adolygodd Ordinhadau'r Brifysgol am rôl yr Ysgrifennydd i'r Cyngor a gwnaeth argymhellion i'r Cyngor am hyn, ac adolygodd ac argymhellodd ddisgrifiad rôl a phroses benodi newydd i'r Cyngor ar gyfer rôl yr Is-ganghellor, gan gynnwys ystyried rolau a chyfrifoldebau Uwch-lywodraethwr Annibynnol fel y'i nodwyd yn Adolygiad Camm.

### Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu strategaeth gwobrwyo'r Brifysgol a chydnabyddiaeth ariannol yr aelodau staff ar y lefel uchaf, gan gynnwys yr Is-ganghellor. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu'n gyson â Chôd Cydnabyddiaeth Ariannol Staff Uwch Addysg Uwch y CUC (a gyhoeddwyd yn 2018) ac mae'n cyhoeddi adroddiad blynyddol sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Mae aelodaeth y Pwyllgor yn hollol annibynnol. Caiff ei gadeirio gan aelod lleyg o'r Cyngor a benodir gan y Cyngor - penodwyd Dr Angus Muirhead yn Gadeirydd ym mis Medi 2020 yn lle Mr Gordon Anderson yr oedd ei dymor fel aelod lleyg o'r Cyngor yn dod i ben - ac yn ystod 2020/21 ei aelodau oedd Cadeirydd y Cyngor (Mr Bleddyn Phillips), y Dirprwy Ganghellor (Syr Roderick Evans) ac aelod lleyg arall o'r Cyngor (Ms Elin Rhys). Ym mis Gorffennaf 2021, yn dilyn adolygiad o gyfansoddiad y Pwyllgor, cytunodd y Cyngor i gynyddu nifer yr aelodau lleyg o'r Cyngor o 5 i 6, yn unol ag arfer yn y sector ac i benodi'r Athro Edward David a'r Athro Kathryn Monk yn aelodau o'r Pwyllgor.

Prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yw (i) datblygu strategaeth a pholisi gwobrwyo cyffredinol ar gyfer uwch-aelodau staff y Brifysgol, (ii) adolygu a phennu cydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth, gan ystyried fforddiadwyedd, gwybodaeth gymharol am gydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth y sector prifysgolion a sectorau eraill fel y bo'n briodol, (iii) cytuno ar fframwaith gwaith blynyddol ac (iv) adolygu ac adrodd ar gynnydd i'r Cyngor drwy ei adroddiad blynyddol sy'n dryloyw ac yn bodloni gofynion llywodraethu da.

Yn ystod 2020/21, cynhaliodd y Pwyllgor 4 cyfarfod a chanolbwyntiodd busnes y Pwyllgor ar ystyried a chytuno ar gynigion ynghylch y broses cydnabyddiaeth ariannol a threfniadau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer uwch-rolau, trafod a chytuno ar amlder cyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a derbyn adroddiadau am drefniadau diswyddo. Cynhaliwyd pob cyfarfod o bell. Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn yn uchel gyda phresenoldeb 100% ym mhob un o'r pedwar cyfarfod.

### Y PWYLLGOR ARCHWILIO, SICRWYDD A RISG

Mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn gyfrifol am gynghori a chynorthwyo'r Cyngor mewn perthynas ag amgylchedd sicrwydd a rheoli cyfan y Brifysgol. Penodir holl aelodau'r Pwyllgor a'i Gadeirydd gan y Cyngor, ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau, ac mae'r holl aelodau'n annibynnol

ar reolwyr y Brifysgol, er bod uwch-swyddogion yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen. Cadeirir y Pwyllgor gan aelod lleyg o'r Cyngor a benodir gan y Cyngor - penodwyd Dr Kerry Beynon yn Gadeirydd ym mis Medi 2020 yn lle Mrs Rosemary Morgan y daeth ei thymor fel aelod lleyg o'r Cyngor i ben - ac yn ystod 2020/21 roedd ei aelodaeth yn cynnwys aelodau lleyg o'r Cyngor (Mr Gordon Anderson (tan fis Mawrth 2021), yr Athro Kathryn Monk a Ms Anne Tutt (o fis Hydref 2020)) ac aelodau lleyg cyfetholedig (Ms Alison Vickers a Mrs Navjot Kalra (o fis Mehefin 2021)). Yn unol â Chôd Rheoli Ariannol CCAUC, nid oes croes-gynrychiolaeth rhwng y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg a'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth.

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn fel arfer. Yn ystod 2020/21, cynhaliodd y Pwyllgor bum cyfarfod, yr oedd un ohonynt yn gyfarfod arbennig a ganolbwyntiodd ar adolygu adroddiadau sicrwydd a rheoleiddio drafft. Cynhaliwyd pob cyfarfod o bell. Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn yn uchel gyda 100% o aelodau'n bresenol mewn pedwar cyfarfod.

Prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â gofynion statudol, gofynion y Brifysgol a gofynion rheoleiddio allanol mewn perthynas â'i gweithgareddau ariannol ac anariannol ac mewn perthynas â'r materion yn ei gylch gorchwyl, ac mae gan y Pwyllgor yr awdurdod i wneud argymhellion i'r Brifysgol, ei hunedau trefniadaethol a'i haelodau.

Yn ystod 2020/21, canolbwyntiodd busnes y Pwyllgor ar sicrhau bod trefniadaeth addas ar waith i sicrhau cynaliadwyedd y Brifysgol, yn enwedig mewn perthynas ag effaith pandemig COVID-19, trefniadau archwilio mewnol ac allanol, gan gynnwys cymeradwyo a monitro cynlluniau archwilio blynyddol, adolygu trefniadau rheoli risg a rhoi fframwaith risgiau newydd ar waith a goruchwylio polisïau'r Brifysgol mewn perthynas ag ymddygiad moesegol ac ymddygiadau eraill. Hefyd, adolygodd y Pwyllgor ei gylch gorchwyl a gweithredu gan ystyried Côd Ymarfer Pwyllgorau Archwilio AU y CUC a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020, ac a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2020.

## RHEOLAETH FEWNOL

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod system rheoli mewnol gadarn ar waith i gefnogi'r Brifysgol i gyflawni ei nodau, ei hamcanon strategol a'i pholisïau, gan ddiogelu'r arian cyhoeddus a'r arian a'r asedau eraill y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar risg a'i nod yw rheoli, yn hytrach na dileu'r risg o fethiant i gyflawni amcanion strategol, felly mae'r system yn darparu sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, yn erbyn camddatganiad neu golled faterol. Mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r cyfrifoldebau a ddynodwyd iddo yn Siarter a Statudau'r Brifysgol, a'r fframwaith rheoleiddio y mae'r Brifysgol yn gweithredu ar ei sail.

Mae elfennau allweddol system nodi risg a rheoli risgiau'n effeithiol y Brifysgol yn cynnwys y canlynol: :

- cysylltu'r broses o nodi a rheoli risg â chyflawni amcanion y sefydliad drwy'r broses gynllunio flynyddol;
- mae'r holl risgiau, gan gynnwys ym meysydd llywodraethu, rheoli, ansawdd, enw da ac ariannol, yn cael eu cynnwys yng Nghofrestr Risgiau'r Brifysgol sy'n cael ei rheoli a'i chynnal gan Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol drwy bolisi ac ymagwedd sy'n cael eu hamlinellu'n glir. Mae'r Gofrestr Risgiau'n creu portffolio cytbwys o risgiau a allai effeithio ar y brifysgol gan ganolbwyntio ar y risgiau allweddol pwysicaf;
- gwerthuso'r tebygolrwydd y daw risgiau yn realiti, a'u heffaith bosib, fel rhan o'r un broses honno a sefydlu rheolaethau lliniaru;
- rhoi gweithdrefnau adolygu ar waith sy'n cynnwys risgiau busnes, gweithredol, cydymffurfiaeth ac ariannol;
- ymgorffori prosesau asesu risg a rheoli mewnol yng ngweithrediadau parhaus pob uned;
- adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg, ac yna i'r Cyngor, ar reoli mewnol a risg;
- mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan archwiliad mewnol a chaiff y cynllun strategaeth archwiliad mewnol ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg;
- adrodd yn flynyddol i'r Cyngor ar brif ganlyniadau'r broses o nodi a gwerthuso risg a'r adolygiad rheolaeth;
- caiff ymarferion rheolaidd i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd prosesau a gweithdrefnau y system rheoli mewnol eu llywio gan Archwilwyr Mewnol proffesiynol y Brifysgol, gan arwain at gamau gweithredu wedi'u monitro lle bynnag y bo'n angenrheidiol ac yn briodol.

Mae Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol wedi rhoi prosesau ffurfiol ar waith i werthuso a rheoli risgiau sylweddol a wynebir gan y sefydliad yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys nodi'r mathau o risg drwy broses o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny, ar y lefel gorfforaethol ac yn yr adrannau. Caiff y rhain eu blaenoriaethu yn ôl effaith a thebygolrwydd posib, yn unol â pholisi rheoli risg sefydledig. Caiff risgiau eu monitro'n barhaus, ynghyd â'r mesurau rheoli a'r camau lliniaru cysylltiedig gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn derbyn adroddiad diweddaru am risgiau ym mhob un o'i gyfarfodydd. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn derbyn adroddiadau diweddaru am risgiau perthnasol yn ei gyfarfodydd a chyflwynir adroddiadau ac argymhellion priodol i'r Cyngor.

Mae gan y Brifysgol broses ar gyfer ymdrin â materion rheoli arwyddocaol, sy'n cynnwys hysbysu Cadeirydd y Cyngor, Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg, y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ac aelodau angenrheidiol o'r uwch-staff ar unwaith, hysbysu CCAUC a'r Comisiwn Elusennau hefyd ac unrhyw awdurdod perthnasol arall, fel y bo'n briodol, gan ddibynnu ar natur y mater.




## Datganiad Budd Cyhoeddus

Mae Prifysgol Abertawe wedi bod yn elusen gofrestredig (rhif 1138342) ers mis Hydref 2010. Caiff ein fframwaith cyfansoddiadol ei ddiffinio yn ein Siarter a'n Statudau ac mae Erthygl 3 o'r Siarter Atodol yn tynnu sylw at amcanion ein Prifysgol i "hyrwyddo dysgu a gwybodaeth drwy addysgu ac ymchwil, a chymryd rhan mewn gweithgareddau i hyrwyddo a chyfrannu at ddatblygiad diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a'r tu hwnt". Wrth osod ac adolygu amcanion a gweithgareddau ac wrth wneud penderfyniadau, mae Cyngor y Brifysgol wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau budd cyhoeddus y Comisiwn Elusennau ynghyd â'r canllawiau atodol ar ddatblygu addysg.

### EIN HYMATEB I COVID-19

Yn ogystal â'r prosiectau ymchwil a ddisgrifir uchod, rydym wedi parhau i gefnogi ein cymuned drwy'r pandemig.

Gwnaeth bron i fil o'n myfyrwyr gofal iechyd a meddygaeth wirfoddoli eu hamser i gefnogi'r GIG. Cafodd ein myfyrwyr meddygaeth yn eu blwyddyn olaf eu sefydlu fel meddygon ar ôl i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol gynnig cyfle cynnar iddynt gofrestru'n amodol, aeth 662 o fyfyrwyr nyrsio i weithio yn y byrddau iechyd, ymrwymodd mwy na 100 o fyfyrwyr parafeddygol i weithio gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, a bu'r holl fyfyrwyr bydwreigiaeth a oedd yn eu trydedd flwyddyn yn cynorthwyo bydwragedd cymwys. Cydnabuwyd cyfraniadau'r myfyrwyr gan Santander, drwy Brifysgolion Santander, gyda rhodd o £27,500 i ddarparu talebau i'w defnyddio mewn busnesau lleol.

Drwy Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru, gwnaeth ein Prifysgol helpu mwy na mil o ddisgyblion yn ne Cymru yn ystod y cyfyngiadau symud drwy ddarparu pecynnau gweithgareddau addysgol a deunyddiau adolygu i fyfyrwyr TGAU, a chynnal dau glwb llyfrau. Mae Cynllun Gwyddoniaeth i Ysgolion Prifysgol Abertawe (S4) hefyd wedi darparu gweithdai allgymorth gwyddoniaeth i ysgolion yn ne Cymru a datblygu fideos a chynnwys ar-lein er mwyn ennyn diddordeb disgyblion yn ystod y cyfyngiadau symud. Gwnaeth y tîm S4 hefyd argraffu a dosbarthu cannoedd o lyfrau gwaith gwyddoniaeth i ysgolion ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3. Gwnaethom hefyd roi hylif diheintio dwylo i 12 ysgol leol a gynhyrchwyd gan dîm prosiect SPECIFIC, a drodd oddi wrth gynhyrchu technoleg solar dros dro. Darparodd y tîm hylif i'r GIG, cartrefi gofal a chymdeithasau tai hefyd.

Dyfarnwyd dau grant gan Lywodraeth Cymru i'n helusen wirfoddoli a arweinir gan fyfyrwyr, Discovery SVS, er mwyn cynorthwyo cynllun gwirfoddoli â chymorth yr elusen (sydd fel arfer yn paru myfyrwyr sy'n gwirfoddoli ag oedolion anabl o'r gymuned leol) a chreu cynllun dosbarthu bwyd diogel o ran Covid gyda thyfwyr lleol yn Siavonga, Zambia.

Gwnaethom daliadau caledi a oedd yn gysylltiedig â Covid i tua 10,000 o fyfyrwyr a darparu gliniaduron, parseli bwyd a chymorth arall drwy gynllun a wireddwyd o ganlyniad i gyllid gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Ar ddechrau'r ail dymor, roedd y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg hefyd wedi benthyca argraffwyr 3D i 70 o fyfyrwyr ar fodiwl gweithgynhyrchu digidol, gan eu galluogi i ymarfer gyda'r dechnoleg, adeiladu eu cydrannau eu hunain, a chynhyrchu'r gwaith yr oedd ei angen i gwblhau eu modiwl.

### CEFNOGI PROSESAU I EHANGU MYNEDIAD

Rydym yn chwarae rôl weithredol mewn prosesau i ehangu mynediad a chefnogi addysg. Prifysgol Abertawe yw'r partner arweiniol ym Mhartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru a ariennir gan CCAUC, ac mae hefyd yn ariannu ac yn cyflwyno'r rhaglen Camu Ymlaen i Brifysgol Abertawe fel rhan o Gynllun Sefydliadol Ymgyrraedd yn Ehangach. Nod y ddwy raglen yw cynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch gan bobl o grwpiau a chymunedau yn ne-orllewin Cymru nas cynrychiolir yn ddigonol, gyda phwyslais penodol ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal. Yn ystod y cyfyngiadau symud, chwaraeodd y ddwy raglen rôl weithredol mewn gwaith i gefnogi disgyblion ysgol a choleg drwy gynnal sesiynau ar-lein ac anfon pecynnau gweithgareddau ymarferol drwy'r post i gartrefi disgyblion, gan gynnwys arbrofion gwyddoniaeth ac adnoddau llesiant.

Mae menter Technocamps yn cynnal gweithdai ymarferol ar gyfer ysgolion uwchradd er mwyn annog disgyblion i ymddiddori mewn cyfrifiadura a phynciau STEM ar lefel TGAU, Safon Uwch a'r tu hwnt. Fel y partner arweiniol, cynhaliodd ein Hacademi STEM newydd (gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru) wythnos o weithgareddau gwyddonol am ddim ar gampws Singleton i ddisgyblion Blwyddyn 7 ac 8.

Mae Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru yn darparu amrywiaeth lawn o weithgareddau a digwyddiadau ar gyfer myfyrwyr ym mlynyddoedd 9-13, gan gynnwys sgyrsiau am yrfaoedd ym myd Mathemateg, diwrnodau astudio ac adolygu, gweithdai datrys problemau, ynghyd â gweithdai cymorth ar gyfer Mathemateg Safon Uwch/UG a Mathemateg Bellach i athrawon. Rydym hefyd yn darparu llwybrau cynnydd drwy flynyddoedd sylfaen ym maes Peirianneg, Gwyddoniaeth, y Celfyddydau a'r Dyniaethau a'r Ysgol Reolaeth i unigolion na allant ddechrau blwyddyn gyntaf gradd israddedig amser llawn yn syth.

## CEFNOGI IECHYD A LLES

Wrth i raddfa lawn y pandemig ddechrau dod i'r amlwg ym mis Mawrth 2020, sefydlwyd tîm MyUniSupport fel un pwynt cyswllt ar gyfer myfyrwyr, staff a phartneriaid allanol mewn timau Profi, Olrhain, Diogelu lleol, gan greu pwynt canolog i ddiwallu holl anghenion cymorth myfyrwyr yn weithredol, o anghenion byw sylfaenol i ddarpariaeth lles a llesiant wedi'i thargedu. Darparodd hyn ddull clir ar gyfer cyfathrebu â myfyrwyr a oedd wedi cael canlyniad prawf COVID-19 positif a'r rhai yn eu llety yr oedd angen iddynt ynysu hefyd.

Gwnaeth y cymorth hwn alluogi myfyrwyr i barhau gyda'u hastudiaethau'n ddi-dor, a rhoddwyd cymorth uniongyrchol i'r rhai a oedd yn cael trafferth gyda salwch, gorbryder neu deimlo'n ynysig. Roedd myfyrwyr a oedd yn ynysu yn cael gohebiaeth reolaidd a phenodol ar gymorth, a chynhaliwyd amrywiaeth eang o weithgareddau lles ar-lein. Roedd Swyddogion Diogelwch y Campws yn cadw golwg ar fyfyrwyr a oedd yn ynysu ar y campws hefyd. Mae adborth gan fyfyrwyr yn dangos lefelau uchel o foddhad a lefelau da o ymgysylltu â gweithgareddau lles ar-lein.

Roeddem yn falch o allu ailagor gwasanaethau osteopatheg ein Hacademi Iechyd a Llesiant i'r cyhoedd ym mis Medi. Mae'r Academi wedi'i lleoli ar ein Campws ym Mharc Singleton ac mae'n cynnig ystod o wasanaethau fforddiadwy a hyblyg ar gyfer amrywiaeth eang o gyflyrau, gan gynnwys poen cefn, anaf straen ailadroddus, arthritis, anafiadau chwaraeon, poen gwddf, problemau gydag ystum y corff a phoen yn ystod beichiogrwydd.

## CEFNOGI CHWARAEON A DIWYLLIANT

Un o'r ymrwymiadau cyffredinol a nodir yn Prifysgol Abertawe: Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas yw trawsnewid Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn brifddinas chwaraeon Cymru. Yn anffodus, arweiniodd y cyfyngiadau a roddwyd ar waith yn ystod pandemig y coronafeirws at raglen lawer llai o weithgareddau 'ar y cae' i'n myfyrwyr athletaidd, ond gwnaethom achub ar y cyfle i ganolbwyntio ar y broses barhaus o ddatblygu strategaeth newydd Chwaraeon Abertawe: Prifysgol Actif a'i rhoi ar waith. Nod y fframwaith strategol byrdymor ar gyfer 2023-24 yw adeiladu ar berfformiad blaenorol, cydgrynhoi gweithrediadau a chreu sylfaen gadarn ar gyfer twf cynaliadwy a llwyddiant ym maes chwaraeon myfyrwyr. Lluniwyd y Strategaeth ag ethos 'chwaraeon i bawb' mewn perthynas â'r tri philer craidd, gan sicrhau bod ein rhaglenni yn cyrraedd pawb yng nghymuned y Brifysgol ac yn dileu rhwystrau i gyfranogiad:

YSBRYDOLI - Chwaraeon perfformiad uchel

ANELU'N UCHEL - Chwaraeon hamdden a chystadleuol

YMGYSYLLTU - Gweithgareddau rhagarweiniol a ffyrdd egnïol o fyw

Yr hyn sy'n ganolog i'n gweledigaeth a'n dyhead yw'r isadeiledd chwaraeon a hamdden a fydd yn darparu'r amgylchedd a'r catalydd i ddatblygu rhaglenni a chyfleoedd i'r Brifysgol a'r gymuned ranbarthol. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein cyfleusterau gyda darpariaeth chwaraeon ychwanegol ar Gampws y Bae (i'w chwblhau ddechrau 2022), gan gynnwys man chwarae amlddefnydd (MUGA) maint llawn ag arwyneb caled a champfa, ac rydym wedi gosod arwyneb arbennig yn unol â manyleb Tokyo 2020 yn lle'r cae hoci gwlyb, a fydd yn cynnig y cyfleuster hoci gorau yng Nghymru. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar fenter Bargen Ddinesig i ddatblygu cyfleusterau newydd ar gyfer Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, Gwyddorau Bywyd ac arloesi Technoleg Chwaraeon ym Mharc Chwaraeon Bae Abertawe ar Lôn Sgeti.

Rydym wedi adnewyddu/parhau â'n holl bartneriaethau strategol a pherfformiad allweddol gyda Chlwb Pêl-droed Dinas Abertawe, y Gweilch, y Scarlets, Hoci Cymru, Nofio Cymru, Undeb Rygbi Cymru a Thenis Bwrdd Cymru. Prifysgol Abertawe oedd y noddwr ar flaen crysau Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe yn ystod tymor 2020/21, ac mae wedi adnewyddu'r nawdd ar gyfer tymor 2021/22. Mae'r bartneriaeth wedi arwain at gryn gyhoeddusrwydd cadarnhaol i'r clwb a'r Brifysgol, oherwydd ystyrir ei fod yn newid i'w groesawu o dimau'n cael eu noddi gan gwmnïau betio. Mae'r Brifysgol hefyd yn cadw ei statws fel partner Addysg Uwch unigryw Dinas Abertawe.

Rydym wedi sicrhau cyllid ar gyfer prosiect ymchwil ar draws Cymru gyfan er mwyn helpu i wella perfformiad athletwyr o Gymru. Mae Sefydliad Gwyddorau Perfformio Cymru, a arweinir gan Brifysgol Abertawe ac sy'n cynnwys partneriaid o'r diwydiant, eisoes wedi bod ar waith ers pum mlynedd ac mae wedi helpu i ysgogi llwyddiant athletwyr Cymru ar gyfer Gemau'r Gymanwlad. Bydd grant newydd o £440,000 gan Chwaraeon Cymru yn caniatáu i waith ymchwil y Sefydliad barhau am bedair blynedd arall.

Bu sawl un o'n myfyrwyr a'n cyn-fyfyrwyr yn cynrychioli Prydain Fawr yng Ngemau Olympaidd Tokyo, ac roeddem hefyd yn falch o groesawu aelodau tîm rygbi menywod Cymru wrth iddynt baratoi ar gyfer eu gêm yn erbyn yr Alban ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad. Enwyd ein tîm Futsal yn Bencampwyr Cymru a gwnaethant ymddangos yng Nghynghrair Pencampwyr UEFA am y tro cyntaf. Rydym hefyd wedi penodi James Hook (cyn-chwaraewr rygbi rhyngwladol i Gymru a Llewod Prydain ac Iwerddon) fel Hyfforddwr Ymosod tîm rygbi'r Brifysgol.

O ran ein harlwy ddiwylliannol, er y bu'n rhaid cau ein theatrau a'r sinema o ganlyniad i'r pandemig, rydym wedi parau i gefnogi mentrau megis Gwobr Dylan Thomas flynyddol Prifysgol Abertawe. Roedd gweithgarwch y Brifysgol yng Ngŵyl y Gelli yn cynnwys sgyrsiau am yr hyn y gallwn ei ddysgu am fyw gyda COVID-19 drwy astudio hanes y ffliw, a sgwrs rhwng yr actor Michael Sheen, cyn-arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, a'r Athro Daniel G Williams am fywyd, gwaith a pherthnasedd parhaus yr awdur, Raymond Williams.

Roeddem hefyd yn falch o fod yn rhan o brosiect pwysig i gyhoeddi casgliad digidol o lawysgrifau, llyfrau nodiadau a ffotograffau yn ymwneud â Dylan Thomas, mewn cydweithrediad â Chanolfan Harry Ransom ym Mhrifysgol Texas, sydd â'r casgliad mwyaf yn y byd o lawysgrifau a llythyrau gan y bardd a'r dramodydd a anwyd yn Abertawe.

## CEFNOGI YMDRECHION I YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

Ailagorodd arddangosfa Oriel Science ym mis Mai mewn lleoliad newydd yng nghanol dinas Abertawe. Mae'r arddangosfa am ddim ar agor ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol, ac mae'n tynnu sylw at rywfaint o'r ymchwil o'r radd flaenaf a wneir yn ein Prifysgol.

Eleni, mewn partneriaeth ag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, cynhaliwyd Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe ar-lein, gan ein galluogi i gyflwyno rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau i bobl ym mhedwar ban byd. Cynhaliwyd dros 30 o ddigwyddiadau byw, a rhai a recordiwyd ymlaen llaw, yn archwilio pob math o bynciau o'n planed a dyfodol y bydysawd, i deithio mewn amser, breuddwydion, peiriannau a rhai o anifeiliaid mwyaf angheuol y byd. Roedd gwesteion arbennig yn cynnwys yr Athro Brian Cox, Steve Backshall, David Baddiel, Konnie Huq, Iolo Williams a Lyn Evans.

Dewiswyd ein Sefydliad Diwylliannol fel un o bedwar hyb ar gyfer Bod yn Ddynol 2020, sef yr unig ŵyl genedlaethol yn y DU sy'n dathlu'r dyniaethau, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd. 'Bydoedd Newydd' oedd y thema eleni, a oedd yn cynnig cyfle amserol iawn i fyfyrio ar newidiadau byd-eang radical 2020, o bandemig COVID-19 i brotestiadau Mae Bywydau Du o Bwys ac etholiad yr Unol Daleithiau.

Roedd hefyd yn bleser gennym weithio mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru i gefnogi arddangosfa am ddim am fywyd yr actor Richard Burton. Fel rhan o'r arddangosfa, gallai'r cyhoedd weld dyddiaduron, papurau ac eitemau personol Burton am y tro cyntaf.

# Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i Gyngor Prifysgol Abertawe (y "sefydliad")

## ADRODDIAD AR YR ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL

### BARN

Yn ein barn ni, mae datganiadau ariannol grŵp Prifysgol Abertawe a datganiadau ariannol y sefydliad (y "datganiadau ariannol"):

- yn rhoi darlun gwir a theg o faterion y grŵp a'r sefydliad ar 31 Gorffennaf 2021, ac o incwm a gwariant, enillion a cholledion a newidiadau yng nghronfeydd wrth gefn y grŵp a'r sefydliad, a llifoedd arian parod y grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys FRS 102 "Y Safon Cyfrifyddu Ariannol sy'n Gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" a chyfraith gymwys);
- wedi eu paratoi'n gywir yn unol â gofynion y Datganiad o Arferion a Argymhellir - Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol a geir yn Adolygiad Ariannol 2021 (yr "Adroddiad Blynyddol"), sy'n cynnwys: y Datganiad o Sefyllfa Ariannol Cyfunol a'r Sefydliad ar 31 Gorffenaf 2021; Datganiad o Incwm Cynhwysfawr Cyfunol a'r Sefydliad; y Datganiad o Newid yn y Cronfeydd Wrth Gefn Cyfunol a rhai'r Sefydliad; a'r Datganiad o Lifoedd Arian Cyfunol ar gyfer y flwyddyn a daeth i ben ar y dyddiad hwnnw ; a'r Datganiad O'r Prif Bolisiau Cyfrifyddu; a'r Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol;

### SAIL EIN BARN

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a'r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) ymhellach yn yr adran am gyfrifoldebau'r Archwilwyr ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chasglu'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn.

### *ANNIBYNIAETH*

Arhosom yn annibynnol ar y grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesegol y Comisiwn Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

### CASGLIADAU MEWN PERTHYNAS Â BUSNES GWEITHREDOL

Ar sail y gwaith a wnaed gennym, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn cysylltiad â digwyddiadau neu amodau, sydd yn unigol neu gyda'i gilydd, yn peri amheuaeth arwyddocaol ynghylch gallu'r sefydliad i barhau fel busnes gweithredol am o leiaf 12 mis o'r dyddiad pan awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, daethom i'r casgliad bod defnydd y Cyngor o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Fodd bynnag, nid oes modd rhagweld pob digwyddiad neu amod yn y dyfodol, felly nid yw'r casgliad hwn yn warant o allu'r grŵp a'r sefydliad i barhau fel busnes gweithredol.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Cyngor mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

### ADRODD AM WYBODAETH ARALL

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr holl wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilwyr arnynt. Y Cyngor sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn berthnasol i'r wybodaeth arall ac, felly, nid ydym yn mynegi barn archwilio ar hyn neu, oni nodir yn benodol i'r gwrthwyneb yn yr adroddiad hwn, unrhyw fath o sicrwydd am yr wybodaeth arall.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson, mewn unrhyw agwedd berthnasol, â'r datganiadau ariannol neu â'n gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei bod yn cynnwys camddywediad perthnasol. Os nodwn anghysondeb neu gamddywediad perthnasol, mae'n ofynnol i ni roi gweithdrefnau ar waith i ganfod a oes camddywediad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gamddywediad yn yr wybodaeth arall. Os byddwn yn canfod, ar sail y gwaith a wnaed gennym, fod camddywediad perthnasol yn yr wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd am y ffaith. Nid oes gennym dim i adrodd amdano ar sail y cyfrifoldebau hyn.

Yn seiliedig ar y cyfrifoldebau a ddisgrifir uchod a'n gwaith a wnaed wrth gynnal yr archwiliad, mae Safon Cyfrifyddu Ryngwladol (y DU) yn gofyn i ni adrodd hefyd rai barnau a materion a ddisgrifir isod.

### *ADRODDIAD BLYNYDDOL*

Yn unol â Deddf Elusennau 2011, mae'n ofynnol ein bod yn eich hysbysu os ydym o'r farn bod yr wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol yn anghyson mewn unrhyw agwedd berthnasol â'r datganiadau ariannol. Nid oes gennym yr un eithriad i'w adrodd mewn perthynas â'r cyfrifoldeb hwn.

### CYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL A'R ARCHWILIAD

### *CYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR AM Y DATGANIADAU ARIANNOL*

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor mewn perthynas â'r datganiadau ariannol cyfunol a nodir ar dudalen 54 mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith cymwys ac am fodloni ei hun eu bod yn cynrychioli darlun gwir a theg. Mae'r Cyngor yn gyfrifol hefyd am y fath reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol, yn ei farn, i'w alluogi i baratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddywediad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am asesu gallu'r grŵp a'r sefydliad i barhau fel busnes gweithredol, am ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol ac am ddefnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai fod y Cyngor naill ai'n bwriadu diddymu'r grŵp a'r sefydliad neu derfynu gweithrediadau, neu nid oes ganddo ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

### *CYFRIFOLDEBAU'R ARCHWILWYR AM ARCHWILIO'R DATGANIADAU ARIANNOL*

Rydym yn gymwys i weithredu, ac fe'n penodwyd i weithredu'n archwilwyr o dan adran 144 Deddf Elusennau 2011 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a rheoliadau perthnasol a wnaed o dani neu sy'n dod i rym o dani.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddywediad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, ac i roi adroddiad archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn rhoi lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddywediad perthnasol os oes un. Gall camddywediadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau mae defnyddwyr yn eu gwneud ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn llunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau a amlinellir uchod, i ganfod camddywediadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod ar hyd a lled gallu ein gweithdrefnau i ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth ni o'r sefydliad a'r diwydiant, rydym wedi canfod bod y prif risgiau o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau yn gysylltiedig â Deddf Elusennau 2011, Côd Ymarfer Archwilio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch 1992, y Côd Rheoli

Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a deddfwriaeth cyflogaeth ac iechyd a diogelwch, a buom yn ystyried i ba raddau y gallai diffyg cydymffurfiaeth gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol. Buom yn ystyried hefyd y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol megis Deddf Elusennau 2011, y Datganiad o Ymarfer a Argymhellir - Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch a Chyfarwyddyd Cyfrifon CCAUC i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2020/21 (W21/19HE). Buom yn gwerthuso cymhellion a chyfleoedd y rheolwyr i ymyrryd yn dwyllodrus â'r datganiadau ariannol (gan gynnwys y risg o osgoi mesurau rheoli), a phenderfynom fod y prif risgiau'n ymwneud â nodi cofnodion anghywir mewn dyddlyfrau cyfrifyddu a thuedd rheolwyr wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu. Roedd y gweithdrefnau archwilio a ddefnyddiwyd yn cynnwys:

- Trafodaethau â rheolwyr i holi am unrhyw achosion hysbys o ddiffyg cydymffurfiaeth â Chyfreithiau a Rheoliadau a Thwyll
- Darllen cofnodion bwrdd i chwilio am dystiolaeth o dorri rheoliadau a darllen gohebiaeth berthnasol.
- Herio tybiaethau a phenderfyniadau a wnaed gan reolwyr yn eu hamcangyfrifon ariannol arwyddocaol.
- Nodi a phrofi cofnodion mewn dyddlyfrau cyfrifyddu, yn enwedig rhai â chyfuniadau cyfrifyddu annisgwyl.
- Ymgorffori elfen annisgwyl yn natur, amseru a/neu hyd a lled ein profion.

Mae cyfyngiadau anochel yn y gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod. Rydym yn llai tebygol o ganfod enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau nad oes ganddynt gysylltiad agos â digwyddiadau a thrafodion a nodir yn y datganiadau ariannol. Hefyd, mae'r risg o beidio â chanfod camddywediad perthnasol oherwydd twyll yn uwch na'r risg o beidio â chanfod un o ganlyniad i gamgymeriad, oherwydd y gall twyll gynnwys bwriad i guddio, er enghraifft drwy ffugio neu gamliwio bwriadol, neu drwy gydgynllwynio.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilwyr.

### *DEFNYDDIO'R ADRODDIAD HWN*

Mae'r adroddiad hwn, gan gynnwys y barnau, wedi'i baratoi ar gyfer Cyngor y sefydliad yn unig, fel corff yn unol ag Adran 4 Siarteri a Statudau'r sefydliad ac adran 151 Deddf Elusennau 2011 a'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 y Ddeddf honno (Rhan 4 o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008) ac nid at unrhyw ddiben arall. Nid ydym, wrth roi'r barnau hyn, yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am ei ddefnyddio at ddiben arall nac am ddangos na rhoi'r adroddiad hwn i neb arall ac eithrio lle rydym wedi cytuno yn benodol i hynny drwy roi caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

## ADRODD GOFYNNOL ARALL

### *BARN AR FATERION ERAILL A BENNIR YNG NGHÔD YMARFER ARCHWILIO CYNGOR CYLLIDO ADDYSG UWCH CYMRU (CCAUC) A GYHOEDDWYD O DAN DDEDDF ADDYSG BELLACH AC UWCH 1992 A'R CÔD RHEOLI ARIANNOL A GYHOEDDWYD O DAN DDEDDF ADDYSG UWCH (CYMRU) 2015*

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- bodlonwyd gofynion cyfarwyddyd CCAUC ynghylch cyfrifon;
- mae cronfeydd o ba ffynhonnell bynnag y'u gweinyddir gan y sefydliad at ddiben penodol wedi cael eu defnyddio'n briodol at y dibenion hyn a'u rheoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;
- defnyddiwyd cronfeydd a ddarparwyd gan CCAUC yn unol â Chôd Rheoli Ariannol CCAUC, y Memorandwm o Sicrwydd ac Atebolrwydd ac unrhyw amodau a thelerau eraill sydd ynghlwm wrthynt; a
- defnyddiwyd cronfeydd a ddarparwyd gan CCAUC at y dibenion y'u darparwyd ar eu cyfer.

### *DIGONOLRWYDD Y COFNODION CYFRIFYDDU A'R WYBODAETH A'R ESBONIADAU A DDERBYNIWYD*

Yn unol â Deddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ni eich hysbysu os ydym o'r farn:

- nad yw'r sefydliad wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw datganiadau ariannol y sefydliad yn cytuno â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym yr un eithriad i'w adrodd yn deillio o'r cyfrifoldeb hwn.

PricewaterhouseCoopers PAC
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Caerdydd
29 Tachwedd 2021




## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor parthed y datganiadau ariannol cyfunol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau cymwys ac yn unol ag Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys FRS 102, "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon").

Yn unol â Siarter a Statudau'r Brifysgol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu a rheoli gweithgarwch y Brifysgol, gan gynnwys sicrhau bod system rheoli mewnol effeithiol ar waith, ac mae'n ofynnol iddo gyflwyno Datganiadau Ariannol wedi'u harchwilio ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y Brifysgol a'r Grŵp yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â Siarter a Statudau'r Brifysgol; y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC); y Datganiad o Ymarfer Cyfrifyddu a Argymhellir ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch, Deddf Elusennau 2011 a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill. Yn ogystal, yn unol ag amodau a thelerau Memorandwm o Sicrwydd ac Atebolrwydd y cytunwyd arno rhwng Cyngor y Brifysgol a CCAUC, mae'n ofynnol i Gyngor y Brifysgol, drwy'r Is-ganghellor fel ei swyddog dynodedig, baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol gan roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Brifysgol a'r Grŵp o ran y gwarged a'r diffyg a'r llifoedd arian parod am y flwyddyn honno.



Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r Cyngor wedi sicrhau:

- y cafodd polisïau cyfrifyddu addas eu dewis a'u cymhwyso'n gyson;
- y rhoddwyd barnau ac amcangyfrifon rhesymol a darbodus;
- y dilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, yn amodol ar ddatgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- y paratowyd datganiadau ariannol ar y sail busnes gweithredol, oni bai ei bod hi'n amhriodol rhagdybio y bydd grŵp y Brifysgol yn parhau i weithredu.

Mae'r Cyngor yn fodlon bod gan y Brifysgol adnoddau digonol i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld; am y rheswm hwn, mae'n parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i:

- sicrhau bod cyllid a ddarparwyd gan CCAUC yn cael ei ddefnyddio at y diben y'i rhoddwyd ar ei gyfer yn unig ac yn unol â'r Memorandwm o Sicrwydd ac Atebolrwydd gyda CCAUC, ac unrhyw amodau eraill y gall CCAUC eu pennu o bryd i'w gilydd;
- sicrhau bod rheolaethau ariannol a rheoli priodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill (gweler manylion pellach o dan y pennawd Prif Risg a System Rheolaethau Mewnol yn yr adran Datganiad o Lywodraethu Corfforaethol);
- diogelu asedau'r Brifysgol a'r Grŵp i atal a chanfod twyll;
- sicrhau bod adnoddau a gwariant y Brifysgol a'i his-gwmnïau'n cael eu rheoli mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae elfennau allweddol system rheoli mewnol y Brifysgol a'r Grŵp, a gynlluniwyd i gyflawni'r cyfrifoldebau a ddisgrifir uchod, yn cynnwys y canlynol:

- diffiniadau clir o gyfrifoldebau penaethiaid adrannau academaidd ac adrannau gwasanaeth proffesiynol a'r awdurdod a ddirprwywyd iddynt;
- proses gynllunio gynhwysfawr am y tymor canolig a'r tymor byr, wedi'i hategu gan gyllidebau blynyddol manwl o incwm, gwariant, cyfalaf a llifoedd arian parod, a chyllideb gyffredinol sy'n cael ei chymeradwyo gan y Cyngor;
- adolygiadau rheolaidd o'r canlyniadau ariannol gan gynnwys adrodd am amrywiannau a diweddariadau am yr alldro a ragwelir;
- gofynion wedi'u diffinio'n glir a'u ffurfioli ar gyfer cymeradwyo a rheoli gwariant, lle mae penderfyniadau buddsoddi o bwys sy'n cynnwys gwariant cyfalaf neu refeniw yn destun proses gwerthuso ffurfiol a manwl gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth;
- rheoliadau ariannol cynhwysfawr, sy'n manylu ar reolaethau a gweithdrefnau ariannol, wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth; a
- gwasanaeth Archwilio Mewnol proffesiynol y mae ei raglen yn cael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg ac y mae ei bennaeth yn darparu i'r Cyngor, drwy'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg, adroddiad ar weithgarwch archwilio mewnol yn y Brifysgol a barn am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheoli mewnol y Brifysgol, gan gynnwys rheoli ariannol mewnol.

Fodd bynnag, gall unrhyw system rheoli mewnol ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig, nid sicrwydd llwyr, yn erbyn camddatganiad neu golled berthnasol.

Mae'r Cyngor wedi adolygu'r risgiau allweddol y mae'r Brifysgol yn agored iddynt ynghyd â'r mesurau rheoli gweithredu, ariannol a chydymffurfio a roddwyd ar waith i liniaru'r risgiau hyn. Mae'r Cyngor o'r farn y bu proses barhaus ffurfiol ar waith ar gyfer nodi, gwerthuso, a rheoli'r risgiau sylweddol i'r Brifysgol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

**Mr Bleddyn Phillips, Cadeirydd y Cyngor**
**29 Tachwedd 2021**



## AELODAETH Y CYNGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2021

Ar 31 Mawrth 2021 cymeradwyodd y Cyfrin Gyngor ddiwygiadau i Statudau'r Brifysgol mewn perthynas ag aelodaeth y Cyngor. Nodir isod aelodaeth y Cyngor cyn y diwygiadau hyn ac ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith.

### Aelodaeth y Cyngor cyn 30 Mawrth 2021

| CATEGORI O AELOD | RÔL | AELOD | DECHRAU TYMOR | DIWEDD TYMOR | PRESENOLDEB[1] |
|---|---|---|---|---|---|
| Lleyg | Y Canghellor | Yr Athro'r Fonesig Jean Thomas | 01.01.18 | 31.12.21 | (7/7) |
| Lleyg | Y Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor | Mr Bleddyn Phillips | 13.12.19 | 12.12.23 | (7/7) |
| Lleyg | Y Dirprwy Ganghellor | Syr Roderick Evans | 01.04.17 | 31.03.21 | (5/7) |
| Lleyg | Y Trysorydd | Mr Goi Ashmore | 01.08.20 | 31.07.24 | (7/7) |
| Staff | Yr Is-ganghellor | Yr Athro Paul Boyle | 26.07.19 | 25.07.24 | (7/7) |
| Staff | Dirprwy Is-gangellorion | Yr Athro Steve Wilks<br>Yr Athro Martin Stringer | 30.12.18<br>01.09.19 | 31.12.22<br>31.08.23 | (7/7)<br>(5/7) |
| Lleyg | Chwe Aelod a benodwyd gan Lys Prifysgol Abertawe ac o blith ei aelodau | Mr Gordon Anderson<br>Mrs Jill Burgess<br>Yr Athro Edward David<br>Yr Athro Kathryn Monk<br>Ms Elin Rhys | 30.01.17<br>30.01.18<br>04.02.20<br>27.01.18<br>04.02.20 | 31.01.21<br>31.01.22<br>03.02.24<br>26.01.22<br>03.02.24 | (7/7)<br>(7/7)<br>(7/7)<br>(6/7)<br>(7/7) |
| Staff | Pedwar aelod o'r staff academaidd a benodwyd gan y Senedd ac o blith ei haelodau | Yr Athro Nuria Lorenzo-Dus<br>Yr Athro Joy Merrell<br>Dr Ryan Murphy<br>Dr Siân Rees | 01.12.18<br>19.10.16<br>04.07.19<br>04.07.19 | 30.11.22<br>18.10.20<br>03.07.23<br>03.07.23 | (6/7)<br>(7/7)<br>(7/7)<br>(6/7) |
| Lleyg | Chwe aelod a gyfetholwyd gan Gyngor Prifysgol Abertawe | Dr Kerry Beynon<br>Mrs Rosemary Morgan<br>Dr Angus Muirhead<br>Ms Anne Tutt<br>Mrs Marcia Sinfield<br>Yr Athro Keshav Singhal | 04.02.20<br>10.09.19<br>21.03.20<br>06.07.20<br>01.12.20<br>01.12.20 | 03.02.24<br>10.09.20<br>20.03.24<br>05.07.24<br>30.11.24<br>30.11.24 | (6/7)<br>(0/1)<br>(7/7)<br>(7/7)<br>(3/4)<br>(4/4) |
| Staff | Dau o aelodau staff Prifysgol Abertawe a enwebwyd gan Undebau Llafur cydnabyddedig y Brifysgol | Mr Adrian Jenkins<br>Yr Athro Sue Jordan | 27.09.19<br>11.09.19 | 29.07.21<br>10.09.23 | (7/7)<br>(7/7) |
| Myfyriwr | Llywydd a Swyddog Chwaraeon Undeb y Myfyrwyr | Ms Ffion Davies | 01.07.20 | 30.06.21 | (7/7) |

### Aelodaeth y Cyngor o 31 Mawrth 2021

| CATEGORI O AELOD | RÔL | AELOD | DECHRAU TYMOR | DIWEDD TYMOR | PRESENOLDEB[2] |
|---|---|---|---|---|---|
| Lleyg | Y Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor | Mr Bleddyn Phillips | 13.12.19 | 12.12.23 | (2/2) |
| Lleyg | Y Dirprwy Ganghellor | Syr Roderick Evans | 01.04.21 | 31.03.25 | (2/2) |
| Lleyg | Y Trysorydd | Mr Goi Ashmore | 01.08.20 | 31.07.24 | (1/2) |
| Staff | Yr Is-ganghellor | Yr Athro Paul Boyle | 26.07.19 | 25.07.24 | (2/2) |
| Staff | Dau aelod o'r staff academaidd a benodwyd gan y Senedd | Yr Athro Nuria Lorenzo-Dus<br>Dr Siân Rees | 01.12.18<br>04.07.19 | 30.11.22<br>03.07.23 | (2/2)<br>(2/2) |
| Lleyg | Naw Aelod a gyfetholwyd gan y Cyngor | Dr Kerry Beynon<br>Yr Athro Edward David<br>Yr Athro Kathryn Monk<br>Dr Angus Muirhead<br>Ms Elin Rhys<br>Ms Anne Tutt<br>Mrs Marcia Sinfield<br>Yr Athro Keshav Singhal | 04.02.20<br>04.02.20<br>27.01.18<br>21.03.20<br>04.02.20<br>06.07.20<br>01.12.20<br>01.12.20 | 03.02.24<br>03.02.24<br>26.01.22<br>20.03.24<br>03.02.24<br>05.07.24<br>30.11.24<br>30.11.24 | (2/2)<br>(2/2)<br>(2/2)<br>(2/2)<br>(2/2)<br>(2/2)<br>(2/2)<br>(2/2) |
| Staff | Dau aelod o staff Prifysgol Abertawe fel y'i pennir gan yr Ordinhadau | Mr Adrian Jenkins<br>Yr Athro Sue Jordan | 27.09.19<br>11.09.19 | 29.07.21<br>10.09.23 | (2/2)<br>(2/2) |
| Myfyriwr | Llywydd Undeb y Myfyrwyr ac un aelod arall a benodwyd gan Undeb y Myfyrwyr | Ms Ffion Davies<br>Ms Theresa Ogbekhiulu<br>Ms Katie Phillips<br>Ms Liza Leibowitz | 01.07.20<br>31.03.21<br>01.07.21<br>01.07.21 | 30.06.21<br>30.06.21<br>30.06.22<br>30.06.22 | (1/1)<br>(1/1)<br>(0/1)<br>(1/1) |

# Datganiad O'r Prif Bolisiau Cyfrifyddu

**1. GWYBODAETH GYFFREDINOL**
Mae Prifysgol Abertawe wedi'i chofrestru gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw: **Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe, SA2 8PP**

**2. DATGANIAD O GYDYMFFURFIAETH**
Mae'r Datganiadau Ariannol Cyfunol a Datganiadau Ariannol y Brifysgol wedi cael eu paratoi yn unol â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Cyfrifyddu Ariannol 102 (FRS 102) a'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch (argraffiad 2019).

Yn ogystal, maent wedi cael eu paratoi yn unol â'r pwerau a'r dyletswyddau a drosglwyddwyd o ddeddfwriaeth flaenorol (Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg Uwch 2004) a phwerau newydd Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 yn ystod y cyfnod trosiannol tan 31 Gorffennaf 2019, y Siarter Frenhinol, y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), a'r amodau a thelerau cyllid ar gyfer sefydliadau addysg uwch a gyhoeddwyd gan CCAUC.

Mae'r Brifysgol wedi'i chofrestru'n elusen. Mae'r Datganiadau Ariannol wedi cael eu paratoi gan gydymffurfio â Deddf Elusennau 2011.

Mae'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus, felly mae wedi cymhwyso'r gofyniad perthnasol o ran budd cyhoeddus o gyfreithiau a safonau cyfrifyddu perthnasol y DU.

**3. SAIL BARATOI**
Caiff y datganiadau ariannol Cyfunol a datganiadau ariannol y Brifysgol eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol (wedi'i addasu gan ailbrisiad asedau sefydlog a mesur offerynnau ariannol penodol ar sail gwerth teg).

Mae gweithgareddau'r Brifysgol, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei datblygiad, ei pherfformiad a'i sefyllfa yn y dyfodol, wedi'u hamlinellu yn yr adolygiad gweithredol ac ariannol sy'n rhan o adroddiad Aelodau'r Cyngor. Mae'r adolygiad hwn hefyd yn disgrifio sefyllfa ariannol y Brifysgol, ei llifoedd arian parod, ei hylifedd a'i chyfleusterau benthyca. Mae gan Aelodau'r Cyngor ddisgwyliad rhesymol bod gan y Brifysgol adnoddau digonol i barhau i weithredu am y dyfodol rhagweladwy.

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol. Mae Aelodau'r Cyngor yn teimlo bod hyn yn briodol oherwydd bod gan y Brifysgol adnoddau ariannol sylweddol, ynghyd â gwerth sylweddol mewn incwm o gontractau yn y tymor canolig. Mae Aelodau'r Cyngor wedi adolygu rhagolygon ac maent yn rhagweld cydymffurfiaeth â chyfamodau drwy gydol y flwyddyn. Felly, cred Aelodau'r Cyngor eu bod mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau busnes, er gwaethaf y newidiadau parhaus mewn cyllid ar gyfer y sector.

Mae penderfyniadau a wnaed gan reolwyr wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu hyn sy'n cael effaith bwysig ar y datganiadau a'r amcangyfrifon ariannol, lle ceir perygl sylweddol o addasiad materol yn y flwyddyn nesaf, yn cael eu trafod yn nodyn polisi cyfrifyddu 23.

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2021. Caiff trafodion o fewn y grŵp eu dileu adeg cyfuno.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr am nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad llywodraethol ar benderfyniadau polisi.

Cyfrifir am fentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Caiff y datganiadau ariannol eu paratoi yn sterling, sef arian cyfred gweithredol y grŵp a'u talgrynnu i'r £'000 agosaf.

**4. EITHRIADAU O DAN FRS 102**
Mae'r Brifysgol wedi manteisio ar yr eithriad o dan adran 3.3 y SORP (1.12(b) FRS 102) i beidio â pharatoi datganiad o lif arian parod ar gyfer y Brifysgol yn ei datganiadau ariannol ar wahân.

**5. SAIL CYFUNO**
Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ynghyd â chyfran canlyniadau mentrau ar y cyd a chwmnïau cysylltiol am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2021.

Mae canlyniadau is-gwmnïau a gafodd eu caffael neu eu gwaredu yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr o'r dyddiad caffael hyd at y dyddiad gwaredu. Caiff trafodion o fewn y grŵp eu dileu adeg cyfuno.

Mae enillion neu golledion ar unrhyw drafodion o fewn y grŵp wedi'u dileu'n llawn. Mae symiau mewn perthynas ag ymrwymiadau a gynhwyswyd yn y cyfuno wedi'u dileu hefyd. Nid yw balansau rhwng y Brifysgol a'i chwmnïau cysylltiol a'i mentrau ar y cyd wedi'u dileu. Nid yw trafodion masnachu arferol nad ydynt wedi'u setlo erbyn dyddiad y fantolen wedi'u cynnwys fel asedau neu rwymedigaethau cyfredol. Mae enillion neu golledion yn cael eu cynnwys yn symiau cario ymlaen asedau'r naill endid neu'r llall; mae'r rhan sy'n gysylltiedig â chyfran y Brifysgol yn cael ei dileu.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr oherwydd nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad llywodraethol dros benderfyniadau polisi.

Cyfrifir am gwmnïau cysylltiol a mentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

**6. CYDNABOD INCWM**
Credydir incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau (trafodion cyfnewid) i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo modd mesur swm y refeniw yn ddibynadwy, gellir mesur y cam cwblhau yn ddibynadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd, pan fo'n debygol y bydd y buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Brifysgol a phan ellir mesur costau gwasanaethau a ddarperir i'r brifysgol neu y disgwylir eu darparu yn ddibynadwy.

Nodir incwm o ffioedd dysgu fel swm gros cyn unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt a'i gredydu i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr dros y cyfnod pan fo myfyrwyr yn astudio. Lle bo swm y ffi ddysgu wedi'i leihau gan ddisgownt am dalu'n brydlon, dangosir incwm taladwy net o'r disgownt. Cyfrifir am fwrsariaethau ac ysgoloriaethau'n grynswth fel gwariant ac ni chânt eu didynnu o incwm. Cydnabyddir contractau addysg pan fydd hawl gan y Brifysgol i'r incwm, sef y cyfnod pan fo'r myfyrwyr yn astudio neu, le bo'n berthnasol, pan fydd amodau perfformiad wedi'u bodloni.

Caiff yr arian mae'r Brifysgol yn ei dderbyn ac yn ei dalu fel asiant talu ar ran corff cyllido ei eithrio o incwm a gwariant y Brifysgol lle bo'r Brifysgol yn agored i risg isel iawn neu'n cael budd economaidd isel iawn mewn perthynas â'r trafodiad.

Caiff incwm o fuddsoddi ei gredydu i'r datganiad o incwm a gwariant pan gaiff ei dderbyn.

**CYLLID GRANT**
Cydnabyddir grantiau'r Llywodraeth, gan gynnwys grant bloc y Cyngor Cyllido a grantiau ymchwil o ffynonellau'r Llywodraeth a grantiau eraill o ffynonellau anllywodraethol, gan gynnwys grantiau ymchwil o ffynonellau anllywodraethol, yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fydd gan y brifysgol hawl i'r incwm a phan fodlonir amodau mewn perthynas â pherfformiad. Caiff incwm sy'n cael ei dderbyn cyn y bodlonir amodau mewn perthynas â pherfformiad ei ohirio o fewn credydwyr yn y Datganiad o Berfformiad Ariannol a'i ryddhau i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fodlonir amodau o'r fath.

Cyfrifir am gontractau ymchwil masnachol yn unol â'r polisi ar gyfer incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau (trafodion cyfnewid) uchod.

Cydnabyddir grantiau a rhoddion eraill a dderbynnir gan ffynonellau anllywodraethol, gan gynnwys grantiau ymchwil gan ffynonellau anllywodraethol, yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm a phan fo'r amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi'u cyflawni. Caiff incwm a dderbynnir cyn y bodlonir amodau mewn perthynas â pherfformiad ei ohirio o fewn credydwyr yn y Datganiad o Berfformiad Ariannol a'i ryddhau i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fodlonir amodau o'r fath.

**GRANTIAU CYFALAF**

Caiff grantiau cyfalaf eu cydnabod fel incwm pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r arian, yn amodol ar fodloni amodau mewn perthynas â pherfformiad.

### RHODDION A GWADDOLION

Trafodion nad ydynt yn cynnwys cyfnewid nac amodau mewn perthynas â pherfformiad yw rhoddion a gwaddolion. Caiff rhoddion a gwaddolion sy'n destun cyfyngiadau a bennwyd gan y rhoddwr eu cydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r incwm. Cedwir incwm yn y gronfa wrth gefn gyfyngedig nes y caiff ei ddefnyddio yn unol â'r cyfyngiadau hynny. Yr adeg honno, caiff yr incwm ei ryddhau i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol drwy drosglwyddiad o'r cronfeydd wrth gefn.

Caiff incwm o fuddsoddi ac adbrisiant gwaddolion ei gofnodi fel incwm yn y flwyddyn mae'n codi, a naill ai fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn unol â thelerau'r cyfyngiad a roddwyd ar y gronfa waddol unigol.

Cofnodir rhoddion heb gyfyngiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r incwm.

Cofnodir rhoddion a gwaddolion fel cronfeydd wrth gefn cyfyngedig a darperir datgeliad ychwanegol yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Ceir pedwar prif fath o rodd a gwaddol â chyfyngiadau:

1. Rhoddion cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid i'r rhodd gael ei defnyddio i gyflawni amcan penodol.
2. Gwaddolion parhaol anghyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid i'r gronfa gael ei buddsoddi'n barhaol er mwyn cynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
3. Gwaddolion cyfyngedig y gellir eu gwario – mae'r rhoddwr wedi pennu amcan penodol heblaw am brynu neu adeiladu asedau diriaethol sefydlog, a chaiff y Brifysgol droi'r swm a roddwyd yn incwm.
4. Gwaddolion cyfyngedig parhaol – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid buddsoddi'r gronfa'n barhaol i greu ffrwd incwm i'w defnyddio i gyflawni amcan penodol.

Caiff rhoddion o asedau diriaethol eu cynnwys mewn incwm. Caiff yr incwm a gydnabyddir ei brisio gan ddefnyddio amcangyfrif rhesymol o'r gwerth gros neu'r cyfanswm sy'n cael ei ryddhau mewn gwirionedd. Caiff rhoddion o asedau diriaethol eu prisio a chyfrifir amdanynt fel asedau diriaethol yn y categori priodol o ased.

## 7. CYFRIFYDDU AR GYFER BUDDION YMDDEOL

Y tri phrif gynllun sydd ar gael i staff y Brifysgol yw Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS), Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS) a'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Caewyd SUPS i aelodau newydd o 1 Ionawr 2012, a gwahoddwyd staff newydd i ymuno â NEST. Mae'r Brifysgol yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn y GIG hefyd.

Mae USS a SUPS yn gynlluniau budd diffiniedig sy'n cael eu hariannu'n allanol a'u contractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Caiff pob cronfa ei phrisio bob tair blynedd gan actiwarïaid annibynnol cymwysedig proffesiynol. Mae NEST yn gynllun cyfraniadau diffiniedig.

Mae'r USS yn gynllun aml-gyflogwr felly nid yw'n bosib nodi asedau a rhwymedigaethau pob Prifysgol, oherwydd natur gilyddol y cynllun. Felly, cyfrifir am y cynllun fel cynllun buddion ymddeol â chyfraniadau diffiniedig.

Cofnodir rhwymedigaeth o fewn darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad dan gontract i ariannu diffygion blaenorol yn y Cynllun USS.

### CYNLLUN CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae cynllun cyfraniadau diffiniedig yn gynllun buddion ôl-gyflogaeth lle mae'r cwmni'n talu cyfraniadau sefydlog i mewn i endid ar wahân ac ni fydd arno rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i dalu symiau pellach. Cydnabyddir rhwymedigaethau i dalu cyfraniadau i gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig fel treuliau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn ystod y cyfnodau pan gyflogir y gweithwyr.

### CYNLLUNIAU AML-GYFLOGWR

Lle nad yw'r Brifysgol yn gallu nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n tanategu cynllun aml-gyflogwr ar sail resymol a chyson, mae'n cyfrifyddu fel pe bai'r cynllun yn gynllun cyfraniadau diffiniedig. Lle mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gytundeb gyda chynllun aml-gyflogwr o'r fath sy'n pennu sut bydd y Brifysgol yn cyfrannu at gynllun adennill diffyg, mae'r Brifysgol yn cydnabod rhwymedigaeth ar gyfer y cyfraniadau taladwy yn unol â'r cytundeb, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r diffyg, a chydnabyddir y draul ganlyniadol mewn gwariant.

### CYNLLUN BUDD DIFFINIEDIG

Mae cynllun buddion diffiniedig yn gynllun buddion ar ôl cyflogaeth heblaw am gynllun cyfraniadau diffiniedig. Yn unol â chynlluniau buddion diffiniedig, rhwymedigaeth y Brifysgol yw darparu'r buddion cytunedig i gyflogeion presennol a chyn gyflogeion, a'r Brifysgol sy'n gyfrifol am effeithiau risg actiwaraidd (y bydd buddion yn costio mwy neu lai na'r disgwyl) a risg buddsoddi (y bydd enillion ar asedau a neilltuwyd i ariannu'r buddion yn wahanol i'r disgwyl).

Cydnabyddir y rhwymedigaeth net yn y fantolen mewn perthynas â phob cynllun a dyma werth presennol y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig ar y dyddiad adrodd namyn gwerth teg asedau'r cynlluniau ar y dyddiad adrodd.

Dylai'r grŵp gydnabod atebolrwydd am ei rwymedigaethau o dan gynlluniau buddion diffiniedig ac eithrio asedau'r cynlluniau. Mesurir y rhwymedigaeth i dalu buddion net ar sail amcangyfrif o swm y buddion mae cyflogeion wedi'u hennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol, ar ôl cymhwyso disgownt i bennu gwerth cyfredol, namyn gwerth teg (ar sail y cynnig uchaf) asedau'r cynllun. Mae actiwari cymwysedig yn gwneud y cyfrifiad, gan ddefnyddio'r dull uned credyd rhagamcaol. Lle mae'r cyfrifiad yn arwain at ased net, cyfyngir cydnabyddiaeth am yr ased i'r graddau y mae'r Brifysgol yn gallu adennill y gwarged, naill ai drwy leihau cyfraniadau yn y dyfodol neu drwy ad-daliadau o'r cynllun.

Bob blwyddyn, mae'r Brifysgol yn penodi actiwarïaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth ar gyfer pob cynllun. Cyfrifir y gwerth presennol drwy gymhwyso cyfradd ddisgownt i'r amcangyfrif o daliadau'r dyfodol ar sail elw'r farchnad ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel, wedi eu mynegi'n Sterling ar delerau sy'n seiliedig ar amcangyfrif o gyfnod y taliadau yn y dyfodol.

Mesurir gwerth teg asedau cynllun yn unol â hierarchaeth gwerth teg FRS 102 ac yn unol â pholisi'r Brifysgol ar gyfer asedau a ddelir ar delerau tebyg. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau prisio priodol.

Caiff enillion a cholledion sy'n deillio o addasiadau ar gyfer profiad a newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd eu cofnodi fel cost neu gredyd i incwm cynhwysfawr arall. Caiff y symiau hyn, ynghyd ag enillion ar asedau'r cynllun, namyn symiau a gynhwyswyd mewn llog net, eu datgelu fel enillion a cholledion actiwaraidd.

Mae cost y cynllun buddion diffiniedig, a gydnabyddir yn y gwariant fel costau staff ac eithrio lle caiff ei chynnwys yng nghost ased, yn cynnwys y cynnydd yn y rhwymedigaeth i dalu buddion pensiwn mewn perthynas â gwasanaeth cyflogai yn y cyfnod a chost cyflwyniadau i'r cynllun, newidiadau mewn buddion, cwtogiadau a setliadau. Cyfrifir y gost llog net drwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt i'r rhwymedigaeth net. Cydnabyddir y gost yn y gwariant fel cost cyllid.

Darperir rhagor o fanylion am y cynlluniau pensiwn penodol yn nodyn 30 i'r cyfrifon.

## 8. BUDDION CYFLOGAETH

Cydnabyddir buddion cyflogaeth tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau cyflogedig, fel treuliau yn y flwyddyn pan fo'r cyflogeion yn darparu'r gwasanaeth i'r Brifysgol. Caiff buddion heb eu defnyddio eu cronni a'u mesur i gyfrifo'r swm ychwanegol mae'r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i hawl heb ei defnyddio. Cydnabyddir gwyliau blynyddol nad ydynt wedi'u defnyddio ar 31 Gorffennaf fel credydwr ar gyfer staff gweinyddol. Nid oes credydwr ar gyfer gwyliau blynyddol heb eu defnyddio yn achos academyddion, oherwydd nad oes rhwymedigaeth o'r fath.

## 9. PRYDLESI CYLLID

Mae prydlesi lle mae'r Brifysgol yn ysgwyddo holl risgiau a gwobrau perchnogaeth yr ased ar brydles i raddau helaeth yn cael eu dosbarthu fel prydlesi cyllid. Caiff asedau wedi'u prydlesu sy'n

cael eu caffael drwy brydles gyllid eu datgan fel yr isaf o'u gwerth teg a gwerth presennol isafswm y taliadau prydles ar ddechrau'r brydles, namyn dibrisiant cronedig a namyn colledion cronedig oherwydd amhariad. Cyfrifir am daliadau prydles fel y disgrifir isod.

Dosrennir isafswm taliadau prydles rhwng y tâl cyllid a'r gostyngiad yn y rhwymedigaeth ddyledus. Dyrennir y tâl cyllid i bob cyfnod yn ystod tymor prydles er mwyn creu cyfradd llog gyfnodol gyson ar falans gweddill y rhwymedigaeth.

**10. TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH**

Cydnabyddir asedau sefydlog a ddelir o dan drefniadau consesiwn gwasanaeth ar y Fantolen ar werth presennol isafswm y taliadau prydles pan ddefnyddir yr asedau gyda'r rhwymedigaeth ariannol gyfatebol.

Dyrennir taliadau o dan y trefniant consesiwn gwasanaeth rhwng costau gwasanaeth, taliadau cyllid ac ad-daliadau rhwymedigaeth ariannol er mwyn lleihau'r rhwymedigaeth ariannol i sero dros gyfnod y trefniant.

Cydnabyddir preswylfeydd Campws y Bae a Champws Singleton fel Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth.

**11. PRYDLESI GWEITHREDU**

Caiff costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredu eu codi ar sail llinell syth dros dymor y brydles. Caiff premiymau neu gymhellion sy'n gysylltiedig â phrydles eu lledaenu dros isafswm tymor y brydles.

**12. ARIAN CYFRED TRAMOR**

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i bunnoedd sterling gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid sydd ar waith ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a fynegwyd mewn arian cyfred tramor ar ddyddiad y fantolen eu hail-drosi i'r arian cyfred gweithredol, gan ddefnyddio'r gyfradd cyfnewid arian tramor sydd ar waith ar y dyddiad hwnnw. Cydnabyddir gwahaniaethau mewn cyfraddau cyfnewid sy'n codi adeg trosi ar y datganiad o incwm. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a fesurir yn nhermau cost hanesyddol mewn arian cyfred tramor eu trosi gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a fynegir mewn arian cyfred tramor ac a nodir ar sail gwerth teg eu hail-drosi i'r arian gweithredol gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid sydd ar waith ar y dyddiadau y pennwyd gwerth teg.

**13. EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR**

Nodir eiddo, peiriannau a chyfarpar ar sail y gost dybiedig namyn dibrisiant cronedig a cholledion cronedig o ganlyniad i amhariad.

**TIR AC ADEILADAU**

Caiff tir ac adeiladau eu cyfalafu ar sail cost ar gydnabyddiaeth gychwynnol.

Ar ôl cydnabyddiaeth gychwynnol, caiff tir ac adeiladau eu mesur wedi hynny ar sail cost namyn dibrisiant cronedig a cholledion cronedig o ganlyniad i amhariad.

Cafodd tir ac adeiladau a oedd yn bodoli adeg newid i FRS102 a'r SORP newydd ar gyfer addysg uwch yn 2015, eu hailbrisio i werth teg ar ddyddiad y newid. Caiff y rhain eu mesur ar sail cost dybiedig, sef y swm wedi'i ailbrisio ar ddyddiad yr ailbrisiad. Caiff y gwahaniaeth rhwng y swm wedi'i ailbrisio a'r gost hanesyddol ei gredydu i gronfa ailbrisio wrth gefn. Caiff swm cyfwerth â'r dibrisiant sy'n fwy na'r sail cost hanesyddol ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i enillion argadwedig yn flynyddol.

Caiff costau sy'n codi o ran tir ac adeiladau ar ôl eu prynu neu eu hadeiladu eu cyfalafu i'r graddau y maent yn cynyddu buddion disgwyliedig i'r Brifysgol yn y dyfodol.

Lle bo oes ddefnyddiol rhannau o'r asedau'n amrywio, cyfrifir amdanynt fel eitemau asedau sefydlog ar wahân.

Nid yw tir rhydd-ddaliadol yn cael ei ddibrisio oherwydd ystyrir bod ei oes ddefnyddiol yn amhenodol. Caiff adeiladau rhydd-ddaliadol eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig i'r Brifysgol, sef rhwng 12 a 75 o flynyddoedd.

Ni chodir dibrisiant ar asedau wrth iddynt gael eu hadeiladu a chyflymir dibrisiant pan fo dyddiad dymchwel yn hysbys.

Caiff tir ac adeiladau prydles eu dibrisio dros gyfnod y brydles hyd at uchafswm o 50 o flynyddoedd.

**CYFARPAR**

Caiff cyfarpar sy'n costio mwy na £25,000 am bob eitem unigol eu cyfalafu ym mlwyddyn eu caffael. Caiff cyfarpar a brynwyd fel rhan o becyn neu raglen adnewyddu, lle mae'r pecyn cyfan yn costio mwy na £25,000 eu cyfalafu ym mlwyddyn eu caffael hefyd. Caiff yr holl gyfarpar eraill eu dibrisio ym mlwyddyn eu caffael, oni bai fod rheswm penodol dros gyfalafu.

Caiff cyfarpar wedi'u cyfalafu eu datgan ar gost a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Yr oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yw 3-5 mlynedd, ac eithrio amgylchiadau anghyffredin lle tybir bod yr oes ddefnyddiol yn hwy neu'n fyrrach.

Adolygir dulliau dibrisio, oesau defnyddiol a gwerthoedd gweddilliol ar ddyddiad paratoi pob Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

**LLONGAU**

Caiff llongau eu datgan ar sail cost a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig.

Caiff dulliau dibrisio, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol eu hadolygu ar ddyddiad paratoi pob Mantolen.

**COSTAU BENTHYCA**

Cydnabyddir costau benthyca fel treuliau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnod maent yn codi.

**AMHARIAD**

Cynhelir adolygiad o amhariad ar eiddo, peiriannau a chyfarpar os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n awgrymu efallai na fydd modd adennill swm cario ymlaen yr eiddo, y peiriannau a'r cyfarpar.

**14. ASEDAU TREFTADAETH**

Caiff gwaith celf ac arteffactau gwerthfawr eraill eu cyfalafu a'u cydnabod ar sail cost neu werth y caffaeliad, lle bo modd cyfrifo cost neu werth yn rhesymol.

Ni chaiff asedau treftadaeth eu dibrisio oherwydd na fyddai unrhyw ddibrisiant yn berthnasol o ganlyniad i'w hoes economaidd hir a'u gwerth gweddilliol uchel.

Lle nad yw asedau treftadaeth wedi cael eu cyfalafu, datgelir manylion am natur ac oedran yr asedau hyn.

**15. EIDDO BUDDSODDIAD**

Mae eiddo buddsoddiad yn cynnwys tir ac adeiladau a gedwir i ennill incwm rhentu neu adbrisiad cyfalaf yn hytrach nag i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau.

Caiff eiddo buddsoddiad eu mesur i ddechrau ar sail cost, ac wedyn ar sail gwerth teg, a chydnabyddir newidiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Ni chaiff eiddo eu dibrisio ond cânt eu hailbrisio neu eu hadolygu'n flynyddol ar sail amodau'r farchnad ar 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

**16. BUDDSODDIADAU**

Cedwir buddsoddiadau anghyfredol ar y Fantolen ar sail cost wedi'i hamorteiddio namyn amhariad.

Nodir buddsoddiadau mewn endidau a reolir ar y cyd, is-gwmnïau a phartneriaid ar sail cost namyn amhariad yng nghyfrifon y Brifysgol.

Delir buddsoddiadau asedau cyfredol ar sail gwerth teg a chydnabyddir newidiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

**17. STOC**

Delir stoc ar yr isaf o gost a gwerth net y gellir ei wireddu.

**18. ARIAN PAROD A CHYFWERTH**

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuon sy'n ad-daladwy ar alwad a gorddrafftiau.  Mae adneuon yn ad-daladwy ar gais os ydynt ar gael yn ymarferol o fewn 24 awr heb gosb.

Asedau cyfwerth ag arian parod yw buddsoddiadau tymor byr, hylif iawn, y gellir eu trosi'n rhwydd i symiau arian parod hysbys heb

risg neu newid gwerth sylweddol.

## 19. DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL AC ASEDAU DIGWYDDIADOL

Cydnabyddir darpariaethau yn y Datganiadau Ariannol yn yr amgylchiadau canlynol:

a) mae rhwymedigaeth bresennol (gyfreithiol neu ddeongliadol) gan y Brifysgol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;

b) mae'n debygol y bydd angen all-lif buddion economaidd i fodloni'r rhwymedigaeth; a

c) gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Pennir y swm a gydnabyddir fel darpariaeth drwy gymhwyso cyfradd ddisgownt cyn treth ar y llifoedd arian disgwyliedig yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n gosod rhwymedigaeth bosib ar y Brifysgol na chaiff ei bodolaeth ei chadarnhau ond drwy ddigwyddiadau penodol – neu absenoldeb digwyddiadau penodol – yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn codi hefyd mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai mae'n annhebygol y bydd angen all-lif adnoddau neu nid oes ffordd ddibynadwy o fesur y rhwymedigaeth.

Mae ased digwyddiadol yn codi o ganlyniad i ddigwyddiad sy'n rhoi ased posib i'r Brifysgol na chaiff ei fodolaeth ei chadarnhau ond drwy ddigwyddiadau amhenodol – neu absenoldeb digwyddiadau amhenodol – yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol.

Ni chaiff asedau a rhwymedigaethau digwyddiadol eu cydnabod yn y Fantolen ond cânt eu datgelu yn y nodiadau.

## 20. CYFRIFYDDU AR GYFER GWEITHREDIADAU AR Y CYD, ASEDAU A REOLIR AR Y CYD A GWEITHREDIADAU A REOLIR AR Y CYD

Mae'r Brifysgol yn cyfrifyddu am ei chyfran o fentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Mae'r Brifysgol yn cyfrifyddu am ei chyfran o drafodion o weithrediadau ar y cyd ac asedau a reolir ar y cyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

## 21. TRETH

Mae'r Brifysgol yn elusen yn ôl ystyr Paragraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010, ac yn unol â hynny, gallai'r brifysgol fod wedi'i heithrio o drethiant mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd o fewn categorïau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 478-488 Deddf Treth Gorfforaeth 2010 (CTA 2010) neu Adran 256 Deddf Trethu Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y mae incwm neu enillion o'r fath yn cael eu defnyddio at ddibenion elusennol yn unig.

Nid yw'r Brifysgol yn elwa o eithriad tebyg mewn perthynas â Threth ar Werth. Mae TAW nad oes modd ei hadennill ar fewnbynnau'n cael ei chynnwys yng nghostau'r mewnbynnau dan sylw. Mae TAW nad oes modd ei hadennill a ddyrennir i asedau sefydlog wedi'i chynnwys yn eu cost.

Rhaid i is-gwmnïau'r Brifysgol dalu Treth Gorfforaeth yn yr un modd â phob sefydliad masnachol arall.

## 22. CRONFEYDD WRTH GEFN

Dyrennir cronfeydd wrth gefn rhwng cronfeydd cyfyngedig a chronfeydd anghyfyngedig. Mae cronfeydd cyfyngedig wrth gefn yn cynnwys symiau a roddwyd drwy waddol i'r Brifysgol ac sy'n cael eu dal fel cronfa gyfyngedig wrth gefn barhaol oherwydd bod rhaid i'r Brifysgol ddal y gronfa'n barhaol.

Mae cronfeydd cyfyngedig wrth gefn eraill yn cynnwys symiau a ddynodwyd at ddiben penodol gan y rhoddwr, felly mae'r Brifysgol yn gyfyngedig yn y ffordd mae'n gallu defnyddio'r cronfeydd hyn.

## 23. AMCANGYFRIFON A BARNAU CYFRIFYDDU ALLWEDDOL

Defnyddiwyd yr amcangyfrifon a'r barnau arwyddocaol canlynol wrth baratoi'r wybodaeth ariannol hon:

### ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

Cafodd tir ac adeiladau eu hailbrisio adeg mabwysiadu FRS102. Cyflawnwyd y broses ailbrisio gan syrfewyr meintiau cymwysedig ar sail eu hadolygiad annibynnol o'r ystâd a gwybodaeth ategol gan y Brifysgol.

Yn ystod y broses ailbrisio tir ac adeiladau, adolygwyd a diweddarwyd yr amcangyfrif o oes ddefnyddiol yr adeiladau gan syrfewyr annibynnol ar sail asesiad o oedran a chyflwr yr ystâd.

### GALLU I ADENNILL DYLEDION

Mae'r polisi o ran darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac ansicr yn benodol ar gyfer pob dosbarth dyled ac yn seiliedig ar amgylchiadau a'r dyledion sy'n cael eu had-ennill ar ddiwedd y flwyddyn. Tybir bod modd adennill unrhyw ddyledion nas darparwyd ar eu cyfer.

### RHWYMEDIGAETHAU O RAN BUDDION YMDDEOL

Mae'r Brifysgol yn gweithredu ei chynllun ei hun, Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS), sy'n gynllun buddion diffiniedig (ar gau i aelodau newydd bellach). Cynhelir prisiadau gan actiwarïaid o'r cynllun yn unol â chyfarwyddyd yr Ymddiriedolwyr o leiaf bob tair blynedd.

Asesir costau pensiwn o dan SORP Addysg Uwch a FRS102 yn unol â chyngor actiwarïaid annibynnol ar sail y prisiadau actiwaraidd diweddaraf a thybiaethau a bennir gan yr actiwarïaid. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar wybodaeth a ddarperir i'r actiwarïaid gan y Brifysgol, wedi'i hategu gan benderfyniadau rhwng yr actiwari a'r rheolwyr. Cofnodir y tybiaethau yn nodyn 30.

